Our Olympic Diving Team  
For many a session  
Of the most intense tuition.

## **UPON WESTMINSTER BRIDGE 2008**

It is always a mistake  
For politicians on the make  
To think the gravy train  
Will never ever come again  
When some reporter puts his snout  
In their affairs and finds them out -  
That with some claims  
They've been inventive,  
And with all of them excessive,  
And that their family employees  
Are all non-operative.

Nil desperandum: don't despair  
For we, the voters, do not care;  
Why, given half a chance, we would  
Do what they, so blithely, could.

We get, as all wise men observe,  
The politicians we deserve;  
And, whatever happens, still  
This river glideth at her own sweet will.



## HAFOD ERYRI

1.  
Copa'r Wyddfa:  
Yr ydych chwi, yma,  
Yn nes at y nefoedd.

The summit of Snowdon:  
Here, you are nearer  
To heaven.

2.  
Y mae aeonau o greu  
Yn y creigiau hyn.

These rocks record the aeons  
Of creation.

3.  
Ein tasg ni ydi  
Gwarchod y gogoniant hwn.

It is our duty  
To guard this glory.

4.  
Edrychwch a gwelwch  
Ryferthwy a heddwch  
Eryri.

Here you will see  
Tempests and tranquillity.

5.  
O'n cwmpas ni y mae  
Camp a gwae  
Hen, hen genedl.

All around us are  
The grandeur and the anguish  
Of an old, old nation.

### THE BATTLE FOUGHT AT NEWPORT

Roedd yn rhaid i hon – a oedd i fod yn ffug-arwrol – gael ei chyfansoddi fel yr âi'r ornest yn ei blaen. Gan ddibynnu pwy oedd yn mynd drwodd. Dydw i ddim yn sicr ai'r fersiwn hon ydi'r un derfynol ai peidio. Y mae ambell i awgrym cyfarwyddyd yma ac acw.

### THE BATTLE FOUGHT IN NEWPORT

The lights shone bright on Newport  
And on the snooker hall  
As forty eight came to the fray  
To fight with cue and ball.  
From earth's four corners there they came  
To feud in this most testing game.

Our own Welsh warriors gathered  
With all their skill to fight,  
Our Matthew, Mark and Ryan Day!  
Into the darkest night [Golau'n diffodd uwch y bwrdd]  
They are with other warriors cast!  
But sixteen make it to the last.

Eight men are left in Newport  
Still standing by the green;  
And of them he, O'Sullivan,  
Among these greats is seen.  
But in the end will he have won  
Or this unknown called Higginson?

Four doughty knights, unyielding,  
On queue come to the hall  
To combat for true honour:  
A semi-final fall  
For any super class of warrior  
Is nothing short of lowly failure.

The green is full of colour [h.y. Y peli i gyd ar y bwrdd]  
And it's the final scene;  
In this Titanic clash of cues,  
None better will have been.  
Will Robertson, who's great of might,  
Or Higginson, who's full of fight,  
Be best in Newport on the night?

Rydw i'n meddwl fod y gerdd yn gorffen yma, cyn y gêm derfynol.

## KATE ROBERTS

(Cerdd ar gyfer Agoriad Swyddogol Cae'r Gors.)

Hyhi, o gors y bryniau, greodd  
O adfyd a chaledi'i dyddiau  
Storiâu a wnaeth i ninnau  
Ddod i rannu ei phrofiadau.

Hyhi, ar ffriddoedd garw Arfon,  
Astudiodd rawd gythryblus dynion,  
A chroniclodd eu hymdrechion  
Yn erbyn grymusterau creulon.

Hyhi, yn nhegwch ei hieuenctid,  
A deimlodd lid ynfydrwydd rhyfel;  
Fe ddaeth o bell i fro y chwarel  
Sôn am frawd o'r farw-fedel.

Hyhi, 'n ne Cymru a'i ddyffrynnoedd  
Ar adeg hirlwm a diweithdra  
A nododd olion mall segura  
Ar ddefnydd dynion yn y llymdra.

Hyhi, yn noddfa anghydfurfaeth,  
A welodd yno ffydd a chredo  
Yn teneuo ac adfeilio,  
A dywedodd: 'Tywyll heno'.

Hyhi a fu yng ngwewyr Cymru  
Yn fawr ei hymdrech trwy'r blynyddoedd  
Gan ddal ati trwy derfysgoedd -  
Canys triw a dewr iawn ydoedd.

Hyhi, athrylith ydoedd yn tywynnu;  
Fe dreiddiodd hi i'r cyflwr dynol  
A dangosodd yn y lleol  
Olion dyfnion y tragwyddol.

---

Gan: Gwyn Thomas  
At: Elin Angharad Jones  
Anfonwyd: Gorffennaf 22, 2009 23:00 PM  
Pwnc: Re: Cerddi Saesneg

Annwyl Elin Angharad

1. ['The Way To Do It: The F.A's Winning Ways'] Heb ei chyhoeddi, am wn i. Fe fyddwn yn anfon rhai cerddi i'r Academi, a'r Academi yn eu rhoi ar ei gwefan – os am unrhyw wybodaeth bellach na

hyn am amryw o'r cerddi, yr Academi yw'r corff i gysylltu ag o.

2. ['Upon Westminster Bridge'] Fel 1 Uchod.
3. ['Hafod Eryri'] Heb ei chyhoeddi, ond yn yr adeilad ei hun, ac arno.
4. ['The Battle Fought at Newport'] Heb ei chyhoeddi, dim ond ei darllen ar y rhaglen deledu.
5. ['Kate Roberts'] Ar gyfer achlysur agor Cae'r Gors y cyfansoddwyd y gerdd. Dydw i ddim yn cofio a gyhoeddwyd hi ai peidio - fe gyhoeddwyd ambell beth yn GOLWYG ac ambell beth yn Y CYMRO, ac ambell un yn y WESTERN MAIL.

Cofion caredig,

Gwyn Thomas

**c) Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 19 Hydref, 2009 a 26 Tachwedd, 2009.**

Gan: Gwyn Thomas  
At: Elin Angharad Jones  
Anfonwyd: Hydref 19, 2009 15:29 PM  
Pwnc: Re: Ymholiadau Cyfieithu ayb.

Annwyl Elin

Dyma gynnig ar ateb eich gofynion.

[1. O ran y gweithiau 'animeiddio' Shakespeare a luniwyd gennych, a gomisiynwyd y rheini gan S4C? Ynteu ai syniad gennych chi ydoedd yn wreiddiol?]

Comisiwn gan S4C oedd y gyfres animeiddio Shakespeare.

[2. Sylwais hefyd fod y ffilmiau 'animeiddio' Shakespeare wedi'u cyhoeddi ym 1993 - dair blynedd cyn dyfodiad eich cyfieithiad llawn o Y Dymestl. Beth oedd natur y broses yn y fan hon? Hynny yw, a fu'r ddau brosiect yn cydreddeg, neu ai paratoi'r addasiad ffilm a wnaethoch yn gyntaf?]

Dydw i ddim yn cofio'n iawn, ond rydw i'n tybio fy mod i wedi bod yn gweithio ar y cyfieithiad llawn o'r Dymestl cyn mynd ati i weithio ar yr animeiddiadau - a oeddwn i wedi gorffen y gwaith sydd gwestiwn. Yr wyf wedi cyfieithu BREUDDWYD NOS WŶL IFAN efo comisiwn gan CBAC (y mae hwn wedi ei gyhoeddi), ac yr wyf wedi gorffen cyfieithiad o MACBETH i mhlesio fy hun hefyd.

[3. Cyn mynd ati i gyfieithu Shakespeare, a wnaethoch chi fwrw golwg ar fersiynau rhai o'ch rhagflaenwyr yn y maes?]

Naddo, er fy mod i wedi darllen a gweld amryw gyfieithiadau dros y blynyddoedd cyn imi roi cynnig ar gyfieithu fy hun. Yr eithriad ydi MACBETH: mi wnes i fwrw golwg manwl ar gyfieithiad T. Gwynn Jones o'r ddrama honno.

*[4. Beth yw rôl ac arwyddocâd eich gwaith yn cyfieithu Shakespeare yng nghyd-destun eich gweledigaeth yrfaol?]*

Does gen i ddim 'gweledigaeth yrfaol'.

*[5. Yr wyf ar drywydd drama gennych a erys yn anghyhoeddedig, sef Cwmwl o Dystion (1970au). Tybed a oes gennych gopi o hon? Diolch yn fawr.]*

Yr wyf yn atodi copi o CWMWL O DYSTION. Dydw i ddim wedi sbio ar hwn ers tro byd. Fe welwch fy mod wedi defnyddio ambell ddarn o'r gwaith fel cerddi ar wahân. Fe ofynnodd corff oedd yn cynrychioli Ysgolion Sul yr Annibynwyr yn y gogledd yma imi gyfansoddi gwaith drammatig i wahanol ysgolion Sul fynd ati i gyflwyno gwahanol ddarnau ohono yn un perfformiad cyflawn – dyna pam y mae'r gwaith ar y ffurf y mae o. Fe gyflwynwyd y gwaith am y tro cyntaf mewn capel yng Nghaernarfon - dydw i ddim yn cofio ym mha flwyddyn. Yna fe gyfarwyddodd John Ogwen y gwaith ar gyfer y Gymdeithas Ddrama yn y coleg – am fod John Gwilym Jones wedi ymddeol.

Wrth 'sgrifennu hyn rydw i'n cofio, hefyd, i mi, ac eraill, ysgrifennu gwaith drammatig – gwahanol adrannau gan wahanol rai – i geisio arbed Coleg yr Annibynwyr, Bala Bangor, rhag cael ei gau.

Gobeithio fod hyn o ryw gymorth ichwi.

Cofion caredig,

Gwyn Thomas

---

Gan: Gwyn Thomas  
At: Elin Angharad Jones  
Anfonwyd: Tachwedd 26, 2009 19:45 PM  
Pwnc: Re: Dramâu

Annwyl Elin

*[Tybed a oes copïau ar gael o'r ddrama a grybwyllwyd gennych yn yr e-bost diwethaf (y gwaith a fu'n rhan o'r ymgyrch yn erbyn cau Coleg y Bala)? Byddwn yn hynod ddiolchgar pe bai modd cael copi gennych chi neu gyfeiriad penodol lle y gallwn ddod o hyd i'r ddrama.*

*Hefyd, a gaf i holi pam na chyhoeddwyd Cwmwl o Dystion – a fu rhesymau penodol yn y cyswllt hwn? A wnaed y penderfyniad oherwydd sialensiau technegol?]*

Na does gen i ddim copi o'm rhan i o'r cynhyrchiad am Bala-Bangor. Gan ein bod ni'n sôn am hyn, rydw i'n cofio imi gyfansoddi rhan o sioe – yn Saesneg – yn ymwneud â hanes yr Annibynwyr ar gyfer Cyngres Annibynwyr y Byd a gynhaliwyd ym Mangor, sawl blwyddyn yn ôl, ond does gen i ddim copi o'r rhan honno ychwaith. Fe wnaed recordiad o'r cynhyrchiad a'r cof sydd gen i ydi fod Gareth

Glyn wedi actio rhan Whitgift yn rhagorol yn y pwt a sgrifennais i – wn i ddim a oes ganddo fo gopi o'r recordiad.

Wnes i ddim ceisio cyhoeddi CWMWL O DYSTION ar y pryd, ond mi wnes – ymhen y rhawg – gan anfon copi i Charles Charman yng Ngwasg Gee. Doedd o ddim yn meddwl fod yna fawr o werthiant yn y gwaith; felly dyna'i therfyn hi. Os caf ddweud hynny, roedd y gwaith yn codi cwestiynau am faterion sydd – wedyn – wedi cael sylw mawr: dyna'r amgylchfyd a'r hyn sy'n digwydd iddo, er enghraifft. O ran sialensau technegol, roeddwn i wedi cynllunio'r cyflwyniad theatrig (nid drama) mewn modd na fyddai'n dibynnu ar lawer o gelfi etc. Roedd yn rhaid gwneud hyn am mai ar gyfer Ysgolion Sul y bwriadwyd o. Mewn gwirionedd, fe wnaeth y rheini joban wirioneddol dda o'r peth, gwell na'r cyflwyniad yn y coleg. Pe bai rhywun am gyflwyno'r gwaith, fe ellid gwneud hynny'n syml iawn, neu'n eithaf soffistigedig efo taflunio fideos ar sgriniau ac yn y blaen – a doedd fawr ddim o hynny wedi digwydd yn y cyfnod yr ydw i'n cyfeirio ato ychwaith.

Un peth yr ydw i'n ei gofio gyda gwên oedd fod Alwyn Charles a oedd yn athro ym Mala-Bangor wedi dweud wrthyf, yn ei ddyblau yn chwerthin, fod yr adran (a dim ond yr adran honno) am y boi oedd yn cael cyfathrach efo eliffant wedi ei rhoi i ddosbarth Ysgol Sul o wragedd mewn tipyn o oedran tua Chonwy! Dwn i ddim tebyg i be oedden nhw'n ei feddwl oedd y sioe gyfan o weld yr uned honno.

Gobeithio fod hyn o ryw help.

Cofion caredig,

Gwyn Thomas

**ch) Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 1 Ebrill, 2010.**

Gan: Gwyn Thomas  
At: Elin Angharad Jones  
Anfonwyd: Ebrill 1, 2010 21:44 PM  
Pwnc: Re: Cwestiynau Drama

Annwyl Elin

Dyma fi'n atodi atebion.

Hwyl fawr,

Gwyn

*[1. O safbwynt y dramâu Ewropeaidd a gyfieithiwyd gennych (Trotsci'n Alltud a Diwédgan) sylwais fod cymysgedd o bryd i'w gilydd o ran cyweiriau ieithyddol – h.y. mae rhai llinellau ynddynt yn dafodieithol/lled-lafar tra mae eraill yn dra ffurfiol. A oedd hyn yn rhywbeth bwriadol? Neu ai rhywbeth cwbl anymwybodol ydoedd?]*

Doeddwn i ddim yn ymwybodol o newid cyweiriau iaith – os nad oedd newid cyweiriau yn y gwreiddiol. Dydw i ddim yn cofio am hyn yn *Fin de Partie*, ac yr oeddwn i'n dibynnu ar Ian Hilton cyn belled ag yr oedd yr Almaeneg yn y cwestiwn.

[2. *Gan aros efo'r dramâu Ewropeaidd, ai cyd-ddigwyddiad oedd fod cyhoeddi'r ddwy yn cyd-daro â blynyddoedd tyngedfennol hanes Cymru – Diweddgan yn 1969 a Trotsi'n Alltud yn 1979? A fu i chi ddewis cyfieithu'r dramâu am eu bod yn cyfleu rhyw neges (yn anymwybodol efallai?) a allai gyd-daro â sefyllfa wleidyddol Cymru – e.e. o ran 1969, a Diweddgan, dyma gyfnod yr Arwisgiad (a Chapel Celyn/Tryweryn)? 'Diwedd y gân' yn ddiwylliannol tybed, i'r Cymry?]*

Na, ddim o gwbl.

[3. *Rydych yn nodi yn eich rhagair i Amser Dyn fod rhyw anhawster wedi codi ynglŷn â'i pherfformio yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fflint. A ellwch chi esbonio beth yn union oedd hynny?]*

Yr oeddwn i wedi 'sgrifennu'r gwaith mewn da bryd – gan wybod fod angen dyblu rhannau etc. yn y gwaith. Fe ofynnwyd i David Lynn gyfarwyddo, ond fe roddodd o amcangyfrif andwyol o'r gost! Fe gynigiodd y Dr John Gwilym Jones gyfarwyddo'r gwaith fel drama'r coleg y flwyddyn honno, ond golygai hynny y byddai'r ddrama wedi ei pherfformio cyn yr Eisteddfod, a doedd hynny ddim yn dderbyniol gan awdurdodau'r Eisteddfod. Fe'i perfformiwyd hi dan gyfarwyddyd John Gwilym Jones ym Mangor flwyddyn ar ôl yr Eisteddfod – yn eithriadol o lwyddiannus, os caf ddweud, a heb dorri'r un banc. Yna fe'i perfformiwyd hi yn Eisteddfod Genedlaethol Cricieth gan fyfyrwyr Aberystwyth o dan gyfarwyddyd Emily Davies – yn eithriadol o lwyddiannus, os caf ddweud hynny eto. Wn i ddim a berfformiwyd y gwaith yn unman arall, ar wahan i ysgol yng Nghaerdydd. Fe fu ar faes llafur Drama CBAC am ryw hyd hefyd.

[4. *Yn olaf, o ran diddordeb, a oes yna unrhyw reswm paham nad ydych wedi ysgrifennu mwy o ddramâu?]*

Fe berfformiwyd dramodig o'r enw *Lliw'r Delyn* ar sianel HTV, ond does dim copi ohoni ar ôl hyd y gwn i. Fe berfformiwyd opera gymuned, *Culhwch ac Olwen*, a sgrifennais, gyda Geraint Lewis yn cyfansoddi'r gerddoriaeth, ar gyfer Gŵyl Cricieth rai blynyddoedd yn ôl. Bu honno'n llwyddiant mawr. Hyd yn hyn, rydw i wedi methu perswadio Geraint i osod y cyfan ar gyfer ei gyhoeddi – yn Saesneg, yn ogystal â Chymraeg. Am wn i, mai diffyg diddordeb ym mherfformio'r gweithiau a nodwyd ydi'r rhwystr pennaf i mi. Y mae gen i syniad am ddrama, am Oppenheimer, ond dydw i ddim yn mynd i lafurio ar beth felly ar chwarae bach.

O, gyda llaw, yr ydw i, ers tro bach, wedi cyfieithu *Macbeth*. Rydw i'n credu'n gryf y dylai actorion Cymraeg fynd i'r afael â chlasuron y theatr y mae actorion gwledydd eraill yn eu perfformio: y mae'r ddisgyblaeth yn hanfodol, yn fy marn i.

Rwy'n dymuno Pasg Dedwydd i chwithau. Efallai y gwnawn ni gyfarfod ryw ben.

Cofion caredig,

Gwyn Thomas

d) **Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol,**  
**13 Mai, 2010 a 22 Medi, 2010.**

Gan: Gwyn Thomas  
At: Elin Angharad Jones  
Anfonwyd: Mai 13, 2010 10:16 AM  
Pwnc: Re: Opera gymuned

Annwyl Elin,

Rydw i wedi dod o hyd i'r opera CULHWCH AC OLWEN. Yr wyf yn atodi copi ohoni hi, ond – fel y gwelwch – os ydych yn ei hatgynhyrchu fel rhan o'ch traethawd, does gan neb arall hawl i'w defnyddio hi neu ran ohoni hi heb ganiatâd.

Rydw i wedi bod yn ceisio cael Geraint Lewis i osod ei gerddoriaeth i'r geiriau ers tro byd er mwyn cyhoeddi'r gwaith – yn Saesneg hefyd, oherwydd fe wnes i gyfieithiad Saesneg ar y pryd – ond heb lwyddiant. Wn i ddim a fyddai unrhyw bwrpas i chwi wneud cais iddo am gael copi o'r gerddoriaeth!!! Beth am gynnig – fe gewch ei gyfeiriad gan rywun yn yr Adran Gerdd.

Yr oedd yna sôn am y ffilm O'R DDAEAR HEN, yr ysgriefnais ei sgript, ar y radio fore dydd Llun. Rydw i'n cofio imi wneud sgriptiau Cymraeg i sawl ffilm gan y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg – addasiadau'n bennaf. Y mae'r stwff i gyd yn cael ei gadw yn y Llyfrgell Genedlaethol rwan; mae'n siŵr y gallen nhw ddweud wrthy ch pa sgriptiau a luniais i.

Pob hwyl a chofion caredig,

Gwyn Thomas

---

Gan: Gwyn Thomas  
At: Elin Angharad Jones  
Anfonwyd: Medi 22, 2010 09:33 AM  
Pwnc: Re: Opera gymuned

Annwyl Elin,

Fe dynnodd fy ngwraig fy sylw, yn hwyr neithiwr, at ddau lythyr gen i yn yr adran Drafft (onid Dafft), llythyrau nad oedden nhw wedi mynd i'r sawl a oedd i'w derbyn. Roedd un ohonynt yn llythyr i chwi. Dweud yr oeddwn i nad oeddwn yn cofio'r flwyddyn y perfformiwyd yr Opera Gymuned yng Nghricieth. Y mae'n siŵr o fod tua phymtheng mlynedd yn ôl. Nid wyf wedi gweld neb i gadarnhau hyn, ond mi ddaliaf i chwilio.

Hwyl fawr.

Cofion caredig,

Gwyn (Thomas)



**dd) Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 16 Awst, 2011.**

Gan: Gwyn Thomas  
At: Elin Angharad Jones  
Anfonwyd: Awst 16, 2011 15:09 PM  
Pwnc: Re: Cwestiynau phd

Annwyl Elin Angharad,

Da clywed gennych unwaith eto. Gyda llaw, rydw i'n eich cyfarch wrth eich enw llawn am fy mod yn ei hoffi.

Mae'r atebion i'ch cwestiynau mewn atodiad i'r neges hon.

Gyda'm dymuniadau gorau

Gwyn Thomas

*[1. Beth oedd perthynas eich gweithgarwch yn y saithdegau, yn achos y dramâu, â hynt a helynt/ffawd y theatr genedlaethol ar y pryd?]*

Doedd a wnelo'r un ddrama ddim byd â'r theatr genedlaethol. Roedd y cyfieithiadau'n gynnwys ymdrech i gael ychwaneg o ddefnyddiau ar gyfer cyrsiau drama trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rhan o'm bwriad i gael mwy o destunau fe fu amryw ohonom yn bwrw'r Sul yng Ngregynog, dan nawdd Yr Academi Gymreig, a chyda chefnogaeth cyngor y Celfyddydau – os cofiaf yn iawn – yn cyfieithu amryw ddramâu. Fe gyhoeddwyd nifer ohonyn nhw.

*[2. A ydych yn gweld drama Beckett (Diwéddgan) fel rhybudd ynghylch ffawd bosibl y diwylliant Cymraeg, yn benodol yn y byd modern?]*

DIWÉDDGAN. Y mae a wnelo'r ddrama â hen, hen deimladau sy'n dod dros bobol weithiau nad oes yna fawr o bwrpas yn eu bywydau, ond bod Beckett yn mynegi'r peth i'w gyfnod ei hun. Pwrpas ymarferol – gweler dan 1 – oedd i gyfieithu'r ddrama.

*[3. Beth oedd perthnasedd Trotski yn nrama Peter Weiss i'r hyn oedd yn digwydd oddeutu 1979, yn eich barn chi? A oes unrhyw gyswllt rhwng Trotski a'r sefyllfa yng Nghymru ar y pryd?]*

Dim byd. Pwrpas ymarferol oedd i'r cyfieithu – gweler dan 1 eto. Yr oeddwn yn adnabod Ian Hilton, a oedd yn aelod o staff yr Adran Almaeneg, ac yr oedd yn hawdd cydweithio gydag o. Yr oedd o'n adnabod amryw feirdd modern yn yr Almaen, ac yr oedd yn fwriad ganddo fo a minnau i fynd ati i gyfieithu detholiad o gerddi oedd yn ymwneud â Wal Berlin, ond nid oedd gan unrhyw gyhoeddwr ddiddordeb yn y project.

*[4. A ellwch chi ddweud wrthyf i pa destunau Saesneg/Ffrangeg a ddefnyddiwyd gennych wrth gyfieithu Diwéddgan?]*

Y mae testun Ffrangeg y ddrama'n wahanol i'r un Saesneg. Fe ddefnyddiais i'r testun safonol Ffrangeg o *Fin de Partie* – gan droi hefyd at y testun safonol Saesneg, i gymharu pethau. O'r Ffrangeg

y cyfieithwyd. Fel y nodais yn Rhagair y gyfrol, os byddwn i'n cael trafferth mi fyddwn yn troi at fy nghyfyrdwr, Dr Bruce Griffiths, a oedd ar staff yr Adran Ffrangeg, am ei gyngor a'i arweiniad.

Efallai y dylwn ychwanegu – yn hunangyfiawn – er bod enwau nifer o bobol yn cael eu nodi, ar y dechrau, fel aelodau o Fwrdd Golygyddol Cyfres y Ddrama yn Ewrop, mai fi'n unig a wnaeth yr holl waith golygu ar y gyfres gyfan.

Gwyn Thomas

**e) Sgwrs e-bost rhwng Gwyn Thomas a'r awdur presennol, 21 Medi, 2011.**

Gan: Gwyn Thomas  
Anfonwyd: Elin Angharad Jones  
Anfonwyd: Medi 21, 2011 10:26 AM  
Pwnc: Re: Amser Dyn

Annwyl Elin,

Epigraffau AMSER DYN. THE TEMPEST:

Y mae rhyfeddod y byd a phobol yn sylw Miranda, a doethineb oed a phrofiad yn sylw Prospero. Dewisais y geiriau am fod arnaf eisio i'r ddau beth fod efo'i gilydd yn y gwaith – nid fod un yn dadwneud y llall. Y mae'r cyfan yn dechrau gydag IE, YDYW, Y MAE, sef y cadarnhaol, creadigol, ac er gwaethaf popeth y mae'r cyfan yn gorffen gyda NAGE yn wyneb marwolaeth – ac yr ydym ni, er gwaethaf popeth, yn ôl yn y dechrau, efo rhywbeth cadarnhaol.

Y mae'r dyfyniad o Morgan Llwyd yn golygu ein bod wedi ein cynysgaeddu ag amser, i wneud yr hyn a allwn ni o'n bywydau. Felly, amser John Jones ydi ei fywyd o, yr hyn a wnaeth o o'r amser a roddwyd iddo fo.

Gan obeithio fod hyn yn eglur.

Cofion caredig,

Gwyn Thomas

## ATODIAD II – Sgwrs E-bost rhwng Ifor ap Glyn a’r Awdur Presennol a Darlithiau Ifor ap Glyn, ‘Creu Llunyddiaeth’ a ‘Diod Pigo i Genhedlaeth Newydd’.

### a) Sgwrs e-bost rhwng Ifor ap Glyn a’r awdur presennol, 31 Mai, 2009.

Gan: Ifor ap Glyn  
At: Elin Angharad Jones  
Anfonwyd: Mai 31, 2009  
Pwnc: Re: Gwyn Thomas

31.5.09

Annwyl Elin,

Dyma ymdrech i ateb dy gwestiynau, gydag ymddiheuriad am yr oedi:

*[1. Pa fath o ddylanwad gafodd arloeswr ym maes llunyddiaeth fel Gwyn Thomas arnoch? H.y. a ddylanwadodd arnoch fel cynhyrhydd teledu/fel bardd?]*

Chydig iawn yn anffodus. Wrth ddechrau ymddiddori mewn llenyddiaeth Gymraeg yn fy ardegau, roeddwn i’n sicr yn ymwybodol o Gwyn Thomas y beirniad llenyddol a’r bardd, ac mae ei gerddi wedi dylanwadu arna i heb os (y clod mwya a gefais erioed oedd rhywun yn dweud fod gennyf ddychymyg seicadelig fel Gwyn Thomas ifanc). Gan na fedraf gofio pwy ddywedodd hynny nac ymhle, gobeithiaf nad ffrwyth y dywededig ‘ddychymyg seicadelig’ yn unig mo hyn!

Ond o ran llunyddiaeth, yn anffodus welais i mo’r gerdd deledu ‘Cadwynau yn y Meddwl’ tan ryw ddwy flynedd yn ôl. Doeddwn i ddim yn byw yng Nghymru pan gafodd ei darlledu, ac mae’r gerdd deledu ‘Blaenau’ wedi ei cholli (neu yn hytrach ei chanibaleiddio!) ers blynnyddoedd. Felly heb weld gwaith Gwyn nid oedd modd iddo ddylanwadu arna i fel cyfarwyddwr.

Yn gyffredinol, teimlaf ein bod ni’n ddibris o arbrofion tebyg – yn rhy aml ânt yn angof ac mae’r to nesa yn gorfod ailddarganfod pethau dros eu hunain. Mae’n drueni na fedran nhw o leiaf fanteisio ar waith a wnaed o’r blaen (petai ond i wfftio ato a mynd i gyfeiriad newydd!) Roeddwn i wedi gwneud nifer o gerddi teledu cyn deall fod Gwyn Thomas wedi cydweithio ar bethau tebyg flynyddoedd ynghynt; tybed a fyddwn i wedi mynd ar drywydd creadigol gwahanol petawn i’n ymwybodol ohonynt yn gynt?

Cefais brofiad tebyg fy hun o’r ochr arall fel petai. Siaradais ag Ifan Prys ryw 4-5 mlynedd yn ôl a deall fod o am gydweithio â Lo Cyt a Sleifar i roi cerdd gynganeddol ar drac gyda bit. Syniad diddorol – ond doedd o ddim yn ymwybodol i Iwan Llwyd a finnau wneud yr un peth gyda thrac gan Llwybr Llaethog a’r cywydd ‘Trafferth mewn Tafarn’ nol yn 1988!

*[2. Beth yn eich barn chwi sy’n gwneud cerdd deledu lwyddiannus?]*

Yr ateb slic fyddai 'un sy'n cael ffigurau gwyllo da'. Pan ddarllledwyd y rhaglen *Sioe Gelf* oedd yn cynnwys ein ffilm o'r awdl 'Gwaddol', cafodd ryw 60 mil o gynulleidfa os cofiaf yn iawn, oedd yn uwch na'r cyffredin.

O safbwynt llai ffilistaidd, er mwyn rhoi ateb llawnach fe'ch cyfeiriaf at ddwy ddarlith a rois i ar gerddi fideo (wedi eu hatodi). Mae'r darlithiau yn rhyw hanner brodyr i'w gilydd ac er bod llawer o ailadrodd rhwng y naill a'r llall gall fod ambell i 'berl' (ho, ho) yn un sydd ar goll yn y llall.

[3. A oes lle i 'gerddi teledu' yn arlwy S4C heddiw? A fyddai modd eu poblogeiddio ar wahân, h.y. i gerddi fideo yn yr Eisteddfod Genedlaethol?]

Dros y pymtheng mlynedd ddiwethaf mae'n siŵr mod i wedi gwneud mwy na neb arall yn y maes hwn – nid bod gen i unrhyw ragoriaeth yn y maes ond yn anffodus nid oes fawr o neb arall i weld â diddordeb yn y genre! Michael Bailey Hughes a chwmmi Telegraffiti. Ambell i beth ar *Wedi 7, Babi Pwy?* (*O Flaen dy Lygaid* 2000), *Bol a Chyfri Banc* (1995), *Cerddi'r Cynulliad* (1999). A'r hyn a wnaed ar y *Sioe Gelf* dros y blynnyddoedd.

'Gwaddol' 1997

'Rhyddid' 1998

'Golau yn y Gwyll' 1999

Awdl Llion Jones 2000

'Dadeni' 2001

'Awelon' 2002

'Drysau' 2003

Ynghyd â nifer o gerddi byrrach a ymddangosodd ar yr un gyfres.

Pam nad oes mwy o bobl yn gwneud cerddi fideo?

Bymtheng mlynedd yn ôl, hawdd deall nad oedd llawer am fentro i'r maes. Roedd fideo dal yn gyfrwng cymharol ddud a mynediad at offer golygu drudfawr yn gyfyngedig. Ond yn ystod y cyfnod, mae technoleg newydd a meddalwedd ratach wedi gweddnewid y maes a bellach mae cerddi fideo o fewn cyrraedd pawb. Mae camerâu fideo i'w cael am £150 – neu gallet ti ffilmio ar dy ffôn symudol – ac yna olygu'r cyfan ar dy liniadur. Gellid gwneud cerdd fideo syml drwy Powerpoint heb orfod ffilmio dim hyd yn oed! Yna mae'r we yn d'alluogi i ddarlledu dy gynnyrch heb orfod mynd ar ofyn S4C na darllledwr arall... Ond nid oes neb i weld yn cofleidio'r posibiliadau hyn – sy'n drueni – ond efallai newidith pethau...

Dwi ddim yn siŵr beth yn union ti'n feddwl wrth 'boblogeiddio' cerddi fideo ond fel y dywedais uchod, mae'r dechnoleg yno bellach i 'ddemocrateiddio'r' broses o'u gwneud nhw. Nid oes rhaid bellach i fod yn rhan o gwmni teledu hefo comisiwn gan ddarllledwr cyn y gellir mentro i'r maes – dim ond chydig o offer, a digon o ddychymyg ac amynedd! Mae'r ffigurau gwyllo y cyfeiriaf atynt uchod yn dangos fod cerddi fideo yn gallu bod yn ddigon poblogaidd per se heb boeni am ddewis cerddi yn fwriadol i blesio'r gynulleidfa.

Pan wyt ti'n sôn am gerddi fideo yn yr Eisteddfod, ai'r dehongliadau o ddarnau o'r cerddi buddugol a daflunir ar gefn llwyfan yn ystod y seremoni sydd gen ti? Mae rhai o'r rheini'n eitha difyr – ond efallai y gallai'r Steddfod gynnig arweiniad pellach drwy gynnal cystadleuaeth 'cerdd fideo'? Syniad da iawn!

A dyna ni – rho ganiad os oes rhywbeth yn aneglur, neu os wyt ti eisiau mwy o fanylion.

Yn gywir,

Ifor ap Glyn

b) Copi o ddarlith Ifor ap Glyn, 'Creu Llunyddiaeth' (Traddodwyd yn Y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 30 Hydref, 2004).

[NODYN: Atgynhychir y ddarlith hon yn union fel y'i cafwyd gan yr awdur.]

## Creu Llunyddiaeth

Diolch....

'Books are only a part of what I see as poetry' meddai'r bardd Tony Harrison... a phle dros 'lunyddiaeth' sydd gen i heddiw...

Wrth 'lunyddiaeth' dwi'n golygu cerdd-fideo, ffilm farddoniaeth, cinegerdd, cerdd deledu. Fel y gwelwch chi, mae'n mynd dan sawl alias... y genre yma ydi Howard Marks ein diwylliant (!)... mae'n ddifyr... ond ydi o'n dryst? Faint o groeso dylen ni roi iddo?

'Books are only a part of what I see as poetry'... mae Tony Harrison wrth gwrs, yn fardd sydd wedi 'creu llunyddiaeth' ei hun sawl tro, wrth gyflwyno'i waith ar ffurf cerddi teledu megis 'V' a 'The Shadow of Hiroshima'.

Dwi'n siŵr y byddai llawer o'n prifeirdd a'n prif feirdd yma yng Nghymru hefyd yn cytuno mai 'books are only a part of what I see as poetry', ond yn ogystal â phrint, dwi'n fodlon mentro mai talwrn a chyflwyniadau byw fase ganddyn nhw mewn golwg, yn hytrach na llunyddiaeth. Mae llunyddiaeth yn genre bwysig hefo potensial aruthrol ond yng Nghymru mae'n genre gymharol ddi-sylw...

Galla'i ddeall, i ryw raddau, fod pobl yn amheus o'r busnes 'ma o gyfuno ffilm a barddoniaeth... wedi'r cyfan, tydan ni i gyd wedi dweud ryw dro neu'i gilydd, 'ôn i'n edrych ymlaen at y ffilm, ond doedd hi ddim cystal â'r llyfr'.... ? Ac mae cerddi, fel llyfrau, yn creu cyfres o ddelweddau unigryw yn nychymyg pob darllenydd neu wrandawr... ac 'i be ei di i ddifetha'r rheini trwy gynnig rhyw ddelweddau ffilm neu fideo yn eu lle nhw?' Beirniadaeth ddigon teg...

...ond mae cerddi fideo ar eu gorau yn fwy na hynny...

'They combine the verbal energy of poetry with the visual richness and diversity of experimental cinema', meddai William C. Wees. 'Through a synergy of expressive words and images, successful cinepoems produce associations, connotations, metaphors and symbols that cannot be found in either their verbal or their visual texts taken alone'.

('Cin (E) – Poetry'; William C. Wees, 1997)

Neu fel ddywedodd George Aguilar, 'At its best, the video poem fuses poem and image – just as a song fuses melody and lyrics'. Ar ei gorau, mae'r gerdd fideo yn cyfuno barddoniaeth a delweddau yn yr un modd ag y mae cân yn cyfuno alaw a geiriau.

... rhyw fath o thesis + antithesis = synthesis.

Ond un o'r cwestiynau mawr wrth ymhel â chreu llunyddiaeth yw 'pa mor agos ddylai'r ddelwedd fynd at y geiriau?' Mae'n dipyn fwy o broblem gyda llunyddiaeth nag ydi o hefo caneuon; mae geiriau a cherddoriaeth yn gweithio o fewn parameters eitha gwahanol, ond mae delweddau ar y llaw arall yn **gallu** dilyn geiriau yn agos iawn... sydd ddim i ddweud y **dylen** nhw, ond maen nhw'n **gallu**... wrth gwrs, yn lle ategu'r geiriau, gallant hefyd adlamu oddi wrthyn nhw...

Dyna ddigon o ddamcaniaethu am y tro... yn y clip cynta 'ma, o'r gerdd 'Awelon' gan Aled Jones Williams, mi wnes i drïo sefydlu'r syniad o ddelweddau'n adleisio, i gyfateb i'r ffordd yr oedd ymadroddion a geiriau penodol yn adleisio drwy gerdd Aled... yn bennaf, mi welwch chi ailadrodd siot o sganar sbyty... ac mae'r siot wastad yn symud tuag at y sganar, achos dyna oedd yn symboleiddio orau imi y ddau amser presennol sy'n rhedeg trwy'r gerdd, gyda'r traethydd nid yn unig yn disgwyl cael sgan ond hefyd ar ei wely angau yn disgwyl ei ddiwedd, yn disgwyl pasio trwy 'o' fawr wen y sganar at... at be? Beth bynnag... dyma ddarn agoriadol 'Awelon' gan Aled Jones Williams...

---

### **Dyfyniad 1 : Darn o 'Awelon' Aled Jones Williams**

**(3'00)**

'Awelon' gan Aled Jones Williams...

'...y farwolaeth liwgar tu mewn i mi, yn fasedg o ffrwythau'

---

Mae cerdd fideo yn gallu amrywio tipyn o ran ffurf:

- yn un pegwn, mae gennym y darlleniad neu berfformiad syml gyda'r bardd yn llefaru â'r camera;
- yn y canol mae gennym bob math o bosibiliadau o gyfuno perfformiad y bardd (neu adroddwr) gyda delweddau gweledol ... a cherddoriaeth, fel yn y clip 'dan ni newydd ei weld';
- ac yn y pegwn arall mae gennym y dehongliadau gweledol llwyr lle na chlywir llais y bardd neu adroddwr o gwbl.

Dyna'n wir oedd y ffilmau barddoniaeth cynharaf yn y dyddiau cyn dyfodiad y talkies... Mae'r ffilm fud *Manhattan* o1921 yn cyfuno delweddau o New York gyda rhyngdeitlau o waith Walt Whitman, ac roedd Man Ray a Marcel Duchamp hefyd wedi arbrofi gyda barddoniaeth a ffilm yn y dauddegau.

Tybed pryd oedd y ffilm farddoniaeth gynta yn Gymraeg? Gwelwyd y bardd Cybi fel rhan o ffilm *Yr Etifeddiaeth* yn 1949, ond mae'n debyg mai yn y 60au y cafwyd y cerddi ffilm cynta yn y Gymraeg. Dwi'n gorfod dweud 'mae'n debyg' oherwydd, fel y dywedais i ar y dechrau, genre eitha di-sylw sydd gennym 'dan sylw' yma pnawn ma; mae'r maes dal heb ei fapio yn iawn.

Gwyn Thomas wrth gwrs, biau'r term 'llunyddiaeth', ac mae ei gerdd deledu 'Blaenau', wedi ei gyfarwyddo gan Huw Davies ar gyfer HTV yn y 60au, yn sicr yn un o'r cynigion cynharaf yn y maes. Yn anffodus, fedra'i ddim dangos clip o hwnna heddiw; mae'n debyg fod y lluniau o Blaenau gystal, fel y cafodd y ffilm ei chanibaleiddio er mwyn aildefnyddio'r ffwtej mewn eitemau diweddarach... a does dim copi cyflawn o'r ffilm wreiddiol. Mae elfennau llunyddiaeth yn perthyn i waith Geraint Rees, a John Roberts Williams o'r un cyfnod....ond mae'r gerdd-ffilm gynhara dwi 'di llwyddo cael gafael arni i'w dangos ichi heddiw, yn dyddio o 1969.

Mi ddês i ar draws y ffilm hon yn gwbl ddamweiniol, ar ôl gwneud cais i archif HTV ryw bedair blynedd yn ôl, am gerddi gan Geraint Jarman; ymhlith y cerddi ges i, roedd na ffilm ddu a gwyn o gerdd gynganeddol, heb label na ddim arni, ond yn amlwg nid gwaith Geraint mohoni, felly dyma anghofio amdani'n syth... nes dechrau paratoi ar gyfer y ddarlith hon. Ond tybed pwy oedd yr awdur?

Doedd gen i ddim syniad, felly 'ffonio ffrind' amdani. Os dach chi'n cael cwestiwn barddonol ar 'Miliwnêr' rywbyrd duda wrth y Chris Tarrant 'na bod chi isio siarad hefo Alan Llwyd. Chwarae teg iddo fo, dim ond ar ôl i mi ddarllen yr hir a thoddaid gynta, roedd yr ateb ganddo fo. Cafodd y gerdd ei chyhoeddi yn *Y Genhinen*... a daeth hi'n agos at gipio'r Gadair yn Steddfod Y Fflint yn '69, un o'r cerddi cynta yn Gymraeg (ac mae'n siŵr gen i, yr unig awdl erioed) sy'n delio â dibyniaeth ar heroin. Dyma ddetholiad o 'Yr Alwad' gan John Gwilym Jones...

---

**Dyfyniad 2: 'Yr Alwad' John Gwilym Jones (1'57)**

'Ar wely'n eistedd a'r waliau'n astud...  
...o'r golwg, yn llyncu'r galon'

---

Faint ohonoch chi ddaru nabod y Valmai Jones ifanc, tybed?

Soniais gynnu mai *un* o'r cwestiynau mawr wrth ymhel â chreu llunyddiaeth yw 'pa mor agos ddylai'r ddelwedd fynd at y geiriau?'; cwestiwn mawr arall sy'n codi allan o'r darn diwethaf yw, 'pa mor sydyn elli di fentro cyflwyno'r gerdd?'

Dwi'n deall awydd y cyfarwyddwr i wneud y cyflwyniad mor ddidostur â'r ysfa sy'n cael ei disgrifio yn y gerdd, ond i mi, mae sgileffaith anffodus yn hyn. Dwi ddim yn teimlo mod i'n cael digon o gyfle i gnoi cil ar yr hyn sy'n cael ei ddweud ... a phan fo'r dweud ar gynghanedd, os rhywbeth, dylid caniatáu mwy fyth o amser i gnoi cil.

Mae 'na fiwsig yn y gynghanedd ond mae hynny'n gallu bod yn beryg. Dach chi'n cofio'r stori am yr hogyn bach yn adrodd ei dablau fel hyn: 'ny ny ny; ny ny ny; ny ny ny', (ac yn y blaen) Dyma'r athro'n gofyn iddo be oedd o'n wneud, a'r ateb gafodd-o oedd, 'dwi'n gwbod y tiwn Syr, ond dwi'n methu cofio'r geiriau'.

Wrth greu llunyddiaeth, rhaid rhoi lle i'r geiriau a'r delweddau anadlu...

Dyma gerdd gynganeddol arall, gan Myrddin ap Dafydd tro 'ma, ar achlysur agor y Cynulliad yn 1999...

---

**Dyfyniad 3: 'Does dim byd yn digwydd yma' Myrddin ap Dafydd (1'45)**

'Mor llwm yw dramâu y lle'ma...

...mae rhyw wib eisoes, mae pethau'n bosib'

---

Yn y gerdd honno, wnes i ddefnyddio graffeg i ategu rhai o'r prif bwyntiau, ond hefyd i wneud yn siŵr fod rhai o'r llinellau anoddach na'i gilydd ddim yn cael eu colli. Rwan 'ta, dwi ddim yn

awgrymu fod Myrddin yn fardd astrus – i'r gwrthwyneb, mae rhwyddineb ei arddull yn rhan o'i gamp – ond mae mynegiant cynganeddol yn **tueddu** defnyddio ffurfiau mwy cywasgedig – (ffurfiau cryno y ferf ac yn y blaen) – a'r rheini ddim **bob tro** mor gyfarwydd i'n clustiau ni... ddim ar y gwrandawriad cynta fodd bynnag.

Wrth wrando ar y Talwrn dwi'n siŵr bod ni i gyd, o bryd i'w gilydd, wedi diolch i'r drefn fod Gerallt yn darllen y gerdd eilwaith, am ein bod ni wedi methu rhyw air neu'i gilydd, ar y gwrandawriad cynta...a gyda'r radio does na ddim mynd nôl at dop y tudalen os dach chi 'di methu rhywbeth... na gyda'r teledu chwaith... a cholli'r gwrandawr neu'r gwyliwr yw hunllef penna pob cynhyrchydd rhaglenni.... Un cynnig gewch chi... felly dyna'r rheswm dros ddefnyddio graffeg fel ffordd o oedi'n weledol gyda rhyw ddweud anoddach na'i gilydd... ond mae graffeg yn gallu fod o gymorth i'r gwyliwr mewn ffyrdd eraill hefyd... dyma ddyfyniad o awdl Twm Morys 'Drysau'.

---

**Dyfyniad 4: Darn o 'Drysau' Twm Morys (2'48)**

'roedd dau mhen dyddiau 'di dod...  
...ymhen draw distaw hen dai'

---

Nid defnyddio graffeg i amlygu llinellau 'anodd' oedd y bwriad yma – sdim byd yn anodd am eiriau fel rhedyn, ofn agor a drws – sef y geiriau welwyd yn y clip. Mae sgwennu Twm, fel sgwennu Myrddin, yn syml iawn... ond yn dwyllodrus o syml. Mae'n cuddio llawer iawn o grefft dan rwyddineb yr arddull ac rôn i am dynnu sylw'r gwyliwr at hynny, yn enwedig gan fod perffeithrwydd crefft y gerdd yn wrthbwynt i'r dadfeilio cymdeithasol oedd yn cael ei ddisgrifo gan y gerdd. Mae diwedd pob adran yn cyrchu dechrau'r un nesa, ac mae diwedd y gerdd yn cyrchu nôl i'r cychwyn. Rôn i isio defnyddio graffeg fel ffordd o dynnu sylw'n dawel bach at grefft y gerdd.

Defnyddiais dipyn ar raffeg gyda'r gerdd 'Awelon' hefyd... graffeg i amlygu rhywbeth e.e. un s saxa secisiar

fforestydd fy Nghymreic Tod marwolaeth

Ar un lefel mae'n gweithredu fel troednodiadau i'r sawl sy'n deall y cyfeiriad... ond gobeithio bod hi'n rhoi rhywbeth i'r sawl nad yw'n deall.

Ond yn y darn nesa, o ddiwedd cerdd Aled Jones Williams, 'Awelon', defnyddiwyd graffeg er ei fwyn ei hun, fel petai; wedi'r cyfan, yn ogystal â bod yn gerdd am ddisgwyl marw, mae hefyd yn gerdd am iaith ac annigonolrwydd iaith, felly roedd ond yn iawn i'r geiriau eu hunain ddod i ganol y llwyfan...

---

**Dyfyniad 5 : Darn o 'Awelon' Aled Jones Williams (1'56)**

'Chi sydd nesa...  
...yn fforch yn y lôn'

---

Faint o'i hystyr ddylai cerdd ildio ar y profiad neu'r darlleniad cynta? Bydd eich disgwiliadau yn llai hefo cerdd ganoloesol mae'n debyg, na hefo cerdd gyfoes er enghraifft...



Soniodd Gwyn Thomas wrthyf am ffilm wnaeth Peter Greenaway yn 1989 yn seiliedig ar yr *Inferno* gan Dante; dwi heb gweld hi fy hun, ond mae'n debyg fod na ryw ben bach yn popio fyny bob hyn a hyn ar draws rhediad y gerdd er mwyn egluro y darnau, neu gyfeiriadau, mwy astrus na'i gilydd. Dwi ddim yn meddwl yr hoffwn i fyth dorri ar draws rhediad cerdd ar y sgrîn, ond dwi'n bleidiol iawn i'r egwyddor o gynnig canllawiau i'r gwylwr... yn enwedig o gofio fod y gerdd deledu yn gyfrwng 'unwaith yn unig'. Hynny yw, unwaith yn unig yn ôl pob tebyg y gweli di'r peth... a 'blaw fod hynny ar fideo fydd gen ti ddim ffordd i fynd nôl dros rywbeth ti heb ddeall.

Ond wrth benderfynu p'un ai ydi rhywun am ogwyddo at ddelweddau llythrennol, argraffiadol neu'n ddigyswllt swreal, mae cyfarwyddwr yn ddarostyngedig i ddymuniadau'r bardd. Fo neu hi biau'r dweud gwreiddiol, felly mae'n bwysig iawn fod na ymddiried yn y berthynas rhwng bardd a chyfarwyddwr wrth i'r gerdd esblygu yn gerdd deledu. Dwi wedi bod yn lwcus i weithio hefo beirdd sydd wedi rhoi digon o raff i mi a diolch iddyn nhw am hynny...

Wrth gwrs, hyd yma, dan ni wedi bod yn sôn am ffilmiau a fideos sy'n ymateb i gerddi sydd wedi'u sgwennu eisoes...ond beth am gerddi sy'n ymateb i ddarn o ffilm?

Yn 1936 roedd John Grierson wedi cael comisiwn gan y GPO film unit i wneud ffilm ddogfen o'r enw *Night Mail* am y trê'n nos oedd yn cario llythyrau o Lundain i Gaeredin; ond ar ôl gweld y fersiwn gynta wedi ei thorri, roedd o'n poeni fod enaid y film ar goll. Roedd y ffilm yn dangos sut oedd llythyrau yn mynd o A i B, ond beth am y bobl oedd yn eu sgwennu a'u derbyn? Comisiynwyd cerddoriaeth gan Benjamin Britten a gwahoddiwyd y bardd W.H. Auden i greu sylwebaeth ar gyfer diwedd y ffilm, ar ffurf cerdd. Dyma'r canlyniad...

---

**Dyfyniad 6 : Night Mail**                      **W.H.Auden**                      **(3.18)**

'This is the Night Mail crossing the border...  
...The End'

---

(Mae o fatha rap o'r tridegau, yn tydi!)

Roedd Auden yn sgwennu i gyd-fynd â'r lluniau a'r gerddoriaeth, nid fel arall... felly, roedd llawer o linellau digon tebol yn mynd i'r bin wrth i ddilyniant y lluniau newid, neu wrth i'r sgôr gan Benjamin Britten ddatblygu. Roedd ambell i linell y cael y hwî am fod y ddelwedd yn rhy gryf – roedd Auden wedi disgrifio moelydd yr Alban 'heaped like slaughtered horses' – ddim efallai'r math o ddelwedd roedden nhw am i bobl gofio wrth lyfu'r stamp dosbarth cynta!

Efallai fod gorfod tincran fel hyn hefo'i waith yn awgrymu fod Auden rywsut yn ymylol i'r brif fusnes o wneud y ffilm, ond ddim o gwbl... ar *Night Mail*, nid yn unig mae Auden yn cael credit ar y ffilm am sgwennu'r gerdd sylwebaeth a'i lleisio, mae hefyd yn cael credit fel cynorthwydd camera. Beirdd fel'na sy eu hisio allan ar leoliad!

Ond er fod Auden wedi ieuo ei awen at anghenion y ffilm a'i noddwyr, yn hytrach na thorri ei gwys ei hun, mae'r canlyniad yn gyfanwaith hyfryd, ac mae'n rhoi ogwydd gwahanol i'r ffilm gyfan, gan ei gwneud hi'n ffilm am unigrwydd a'r angen i gyfathrebu, yn ogystal â ffilm syml am gasglu a dosbarthu llythyrau; mae'r gerdd yn dod â dimensiwn arall i'r ffilm...

(ac mae rhythm y trê'n yn dyrnu trwy bob llinell)

Letters of thanks, letters from banks  
Letters of joy from the girl and boy,  
Receipted bills and invitations  
To inspect new stock or visit relations,  
And applications for situations  
and timid lovers' declarations  
and gossip, gossip from all the nations

Mi fues innau un waith yn yr un sefyllfa ag Auden mewn perthynas â ffilm (er faswn i ddim yn rhyfygu dweud fod y cerddi wedi troi allan gystal!). Ron i wedi bod yn gweithio fel cyfarwyddwr ar raglen ddogfen am Ysgol Gymraeg Llundain, rhaglen pry ar y wal, ond yn wahanol i'r ffilm *Night Mail*, hyd yn oed cyn inni ei golygu hi, roedd y cynhyrchydd, Lowri Gwilym, a minnau'n amau fod na rywbeth ar goll. Nid yr elfen ddynol oedd yn brin yn yr achos yma, ond yn hytrach yr elfen ddadansoddol, y thesis os liciwch chi... lle oedd Ysgol Gymraeg Llundain yn ffithio mewn i'r darlun mawr, pam bod hi'n bwysig, pam bod hi'n wynebu problemau? Awgrym Lowri oedd y dylwn i sgwennu nifer o gerddi i geisio cyfleu hyn.

Wrth edrych nôl, dwi'n ama mod i wedi sgwennu'r cerddi ar ormod o frys, ond maen nhw'n berthnasol iawn yn y cyswllt yma, achos mae'r cerddi hyn yn sicr yn gryfach o'u cyfosod â lluniau nag y maen nhw fel testun ar ben ei hun... yn y clip nesa, dwi'n ceisio mynd dan groen y busnes o fynd a'r plant i'r ysgol yn y bore...ac i lawer o rieni'r Ysgol Gymraeg, mae hynny'n dipyn o hen fusnes annifyr...

---

**Dyfyniad 7: 'Wyth Milltir yr Awr'      Ifor ap Glyn      (3'05)**  
'Yn ein stryd ni mae nifer o deuluoedd...  
... yn sagrafennol, wyth milltir yr awr'

---

Ffenomenon sydd wedi cydio dros yr ugain mlynedd ddiwethaf yw'r teithiau barddol. Roedd llawer o'r teithiau cynnar hefyd yn destun rhaglenni teledu – *Cicio'r Ciwcybars* yn 1988, *Dal Clêr* yn 1992, *Bol a Chyfri Banc* yn 1995 – ond dyw hynny ddim yn digwydd mwyach. Mae rywun yn deall fod y 'nofelti' wedi pylu – ond mae dal yn ffenomenon ddylai gael ei chofnodi... heb sôn am y posibiliadau ar gyfer symbiosis allai godi, os oes rhaglen teledu a thaith yn cyddigwydd; hynny yw, gall cerddi fideo gael eu dangos fel rhan o gyflwyniad byw. Dyna ddigwyddodd gydag 'Awelon' a dyna oedd y bwriad gyda *Bol a Chyfri Banc*.

Fel gyda cherddi'r Ysgol Gymraeg, ymdrech oedd *Bol a Chyfri Banc* i ddefnyddio barddoniaeth at ddibenion dogfen... i wthio'r ffiniau rhyw 'chydig. Diawl, os oedd Lucretius yn gallu sgwennu rhyw lun ar atomeic theory ar ffurf hexameters yn oes y Rhufeiniaid, siawns y gallwn ni ddefnyddio barddoniaeth i drafod pynciau mawr y dydd – a'r consumer ethic oedd gennym dan sylw yn *Bol a Chyfri Banc*... dyma Margaret Thatcher ...ac Iwan Llwyd...

---

**Dyfyniad 8: 'Ar ddarllen Brecht yn y Bog'      Iwan Llwyd (2'18)**  
'Let us raise our sights above this or that strike...  
...yn darllen Brecht yn y bog'

---

Fel dywedon ni ar y dechrau, y darlleniad yw'r dull symla o'r gerdd fideo ....ond nid y lleia effeithiol, pan mae'n dal rhyw faint o'r deinamig rhwng perfformiwr a chynulleidfa...

Wrth gwrs, mewn theatr, mewn neuadd, dach chi byth yn siŵr pwy yw'r gynulleidfa. Gallwch chi geisio dyfalu ac addasu'ch deunydd o flaen llaw... weithiau gwnewch chi ddyfalu'n iawn... ond weithiau byddwch chi'n hollol anghywir. Bues i mewn stomp unwaith, a dwy hen ferch yn eu hetiau capel a'u cotiau Dydd Sul yn eistedd yn y cefn yn ddigon ddi-wên, ac rôn i'n gwingo drostyn nhw wrth glywed y naill ar ôl y llall yn adrodd cerddi coch iawn. Ac yna, ar yr egwyl, dyma un ohonyn nhw'n gofyn imi os ôn i 'di clywed y pennill canlynol?

Doethion byd i gyd ofynna,  
i ba beth y gwnaethpwyd ceillia,  
ond i gadw'r coc yn stedi  
wrth ei roid o yn y ledi.

Os ydi hi'n anodd weithiau i nabod dy gynulleidfa ar noson fyw, meddyliwch pa mor anodd ydi nabod y gynulleidfa ar gyfer cerdd deledu? Hynny yw be maen nhw'n dod gyda nhw wrth wrando ar y gerdd? Ai caredigion ein llên ydyn nhw, wedi ei chlywed hi o'r blaen efallai, ac wedi myfyrio ynghylch ei hisystyron? Ynteu rhywun sydd wedi digwydd tiwnio mewn, ac erioed wedi clywed y gerdd o'r blaen? Ar gyfer pwy mae rhywun yn anelu fel cynhyrchydd teledu?

Wel, yr ateb syml yw'r ddau, ond ateb syml o gymhleth ydi hynna, gan fod y ddau wylwr efallai a disgwyladau gwahanol o'r gerdd. Dwi wedi sôn tipyn am estyn 'cymorth' i'r gwylwr; efallai fod na beryg i hynny swnio'n nawddoglyd, ond mae cyfathrebu ac ymestyn y gynulleidfa cyn bwysiced i mi â gwneud datganiad gweledol ylwch chi fi gyfarwyddwr fflash; 'if in doubt, keep it simple'. I fi, mae barddoniaeth Gymraeg wedi dod o'r bobl, ac felly mae'n gorfod cydio yn y bobl. Mae'n draddodiad 'socially engaged', chwedl y Sais. Felly cerddi teledu hefyd, gobeithio. Mae rhai o'r cerddi eisteddfodol sydd wedi'u darlledu wedi denu cynulleidfaoedd o dros hanner can mil; hanner can gwaith mwy na'r rhan fwy o gyfrolau barddoniaeth a deng waith yn fwy na'r *Cyfansoddiadau*.

Hyd yma, 'dan ni wedi sôn am gerddi teledu Cymraeg yng nghyd-destun Cymru yn unig, ond os ydan ni'n sôn am ehangu cynulleidfa, mae'n bwysig peidio anghofio potensial teledu neu ffilm i hyrwyddo a dathlu ein barddoniaeth ni tu allan i'r Gymru Gymraeg; mae prosiect fel *Dal Yma/Nawr* yn neidio i'r meddwl, a mawr obeithiaf nad 'one-off' fydd honno... ond sdim rhaid meddwl yn nhermau cyllideb mawr a dosbarthu yn y sinemau er mwyn defnyddio cerddi ffilm tu allan i Gymru...

Dyma gerdd o'r gyfres 'Golau yn y Gwyll'...

---

**Dyfyniad 9: 'Guinness wedi'r Wlpan' Ifor ap Glyn (2'12)**

'Hanner gwag, 'ta hanner llawn?  
Daw'r argyfwng gwacter ystyr pan fo'r gwydr ar ei hanner  
wedi'r ymgodymu dyddiol â dechreuwy'r Park Place  
hanner gwag ta hanner llawn?  
ydi'r cyfan mor ddiniwed a difudd â'r hogyn bachg dyflwydd  
aeth i nôl y selotêp i drwsio'r crac yn ei fisgedan?  
hanner gwag ta hanner llawn?

pendiliaf yn f'ansicrwydd – gwagio hwn a mynd?  
ynte ceisio gwydraid arall o'r dirgelwch du  
brawd meddwl yw siarad ac mae'r gwydr gwag yn eiriol drosof ar y bar  
Hanner gwag ta hanner llawn...  
mae llawer yn bosib mewn dinas fel hon,  
a phan gofiat y tro y bûm i'n ffôn-ganfasio  
yr unig wyneb gwyn mewn llond stafell o gyfeillion Asiaidd a du  
yn ffonio'u cyd-Gymry er mwyn annog pleidlais 'ie'  
rhaid cyhoeddi'n bendant iawn, nid hanner gwag , ond hanner llawn...'

---

Y pwynt allweddol hefo'r gerdd yna, wrth gwrs oedd yr isdeitlau – maen nhw'n galluogi dyn i gyflwyno'i waith yn yr iaith wreiddiol heb orfod ei ailadrodd wedyn mewn cyfieithiad. Mae'r gerdd fideo yna wedi mynd â fi i Wlad Pwyl, Iwerddon, America a Lloegr, heb sôn am gynulleidfaoedd cymysg neu anghyfaith nôl adre yng Nghymru...

Dwi'n dal yn argyhoeddedig fod na botensial aruthrol i'r dull yma o gyflwyno cerddi Cymraeg i'r byd yn yr iaith wreiddiol... ond sut mae annog y peth yn ei flaen? Sut mae dod â'r arian a'r cyfle ynghyd i feirdd a gwneuthurwyr ffilm?

Yr ateb dwi'n meddwl, yw gŵyl gerddi ffilm. Maen nhw'n digwydd yn Vancouver, Chicago a Berlin...ac mae 'na gynlluniau i lansio un yng Nghaernarfon... ond stori arall yw honna ... wots ddus sbes...

Cyn cloi, ga' i ddiolch i'r beirdd dwi wedi dyfynnu o'i gwaith, ac hefyd i HTV, BBC, S4C a'r GPO film unit am y gwahanol ddarnau o ffilm a fideo dach chi wedi'u gweld heddiw; ga' i ddiolch i Owain Llwyd hefyd am fod mor hael ei amser wrth olygu'r cyfan at ei gilydd. Yn olaf, mi hoffwn i ddiolch i chithau am eich gwrandawriad.

Ond mae'na un gerdd ar ôl:

Ar y dechrau mi ddyfynnais i o eiriau George Aguilar fod y 'gerdd fideo yn cyfuno barddoniaeth a delweddau yn yr un modd ag y mae cân yn cyfuno alaw a geiriau'. Hoffwn i orffen gyda cherdd gan Geraint Jarman, dyn sy'n dipyn o giamstar ym maes geiriau, alaw a delweddau. Dyma ddetholiad o 'Cerdd y Ddinas' a ddarlledwyd gynta ar HTV, nôl yn 1972...

---

**Dyfyniad 10: 'Cerdd y Ddinas' Geraint Jarman**

**(3'30)**

'ac mae'r strydoedd yn parhau ac yn parhau...

... a'r fflamau'n mesur y gwagle rhwng un seren a'r llall'

---

Ifor ap Glyn, 29 Hydref 04

- c) Copi o ddarlith Ifor ap Glyn, 'Diod Pigo i Genhedlaeth Newydd' (Traddodwyd yn y Gynhadledd 'Barddoni Mewn Canrif Newydd' ym Mhrifysgol Bangor, 18 Tachwedd, 2006).

[NODYN: Atgynhychir y ddarlith hon yn union fel y'i cafwyd gan yr awdur.]

## Diod Pigo i Genhedlaeth Newydd

Diolch....

Gair yn gyntaf am y teitl. 'Diod pigo i genhedlaeth newydd'. Fel plant bydden ni'n treulio ein gwyliau hefo Nain a Taid yn Llanrwst, a bob Dydd Iau roedd y lori Corona yn galw, a Nain yn prynu diod pigo – lemon gan amla. Dwi wedi licio'r ymadrodd erioed, ond er ei fod yn fathiad digon cartrefol, tydi hi ddim i weld yn cael ei ddefnyddio ryw lawer, tu allan i gylch cymharol fach o bobl.

Pan oedd Gerwyn [Williams] yn holi am deitl, dyma fi'n meddwl, mae barddoni pim bach fatha 'diod pigo';

**dwi'n** licio fo erioed a dwi'n meddwl fod na werth iddo fo, fod o'n ddefnyddiol, ond sut mae ei ymestyn o tu allan i'w gylch arferol?

Ac yn y sesiwn hon mi hoffwn i edrych ar rai o'r cyfryngau y gellir manteisio arny'n nhw i wneud hynny, be sy'n mynd i roi'r swigod yn y ddiod pigo ar gyfer cenedlaeth newydd.

Beth yw'r cyfryngau yma felly? Sut ydan ni'n cyflwyno cerddi i'r cyhoedd? Llyfrau a chylchgronau a phapurau newydd wrth gwrs, ond dwi am ganolbwyntio heddiw ar y cyfryngau llafar. Mae gennym y talwrn radio, a'r ymryson a'r darlleniad a cherdd dant ... a dan ni wedi gweld nifer o ffurfiau newydd yn cael eu hychwanegu atyn nhw yn y blynyddoedd diwethaf, fel y gornestau beirdd a rapwyr, a'r stomp.

Wrth fynd heibio, galla i hawlio mod i wedi bod yn bresennol yng ngenedigaeth y term hwnnw, 'stomp'. Nid fi oedd y tad, ond fi oedd y bydwraig fel petai! Fersiwn ar y slam Saesneg ydi o wrth gwrs, a rhai blynyddoedd yn ôl, roedd gŵyl Tŷ Newydd wedi penderfynu gwneud slam Cymraeg. Ond roedd slam yn derm digon anghyfarwydd. Dyma un o ngydweithwyr i, Rhianydd Newbery, yn fy holi cyn y digwyddiad:

Gwed tha'i beth yw'r stomp hyn ti'n cymryd rhan ynddo fe te?

Roedd hynny'n fy nhiclo i; dwedais y stori wrth sawl un a chyn pen dim roedd yr enw wedi sticio!

Ond o blith y dulliau newydd o gyflwyno barddoniaeth yn gyhoeddus, sydd wedi codi dros yr ugain mlynedd diwethaf, efallai mai'r un sydd wedi cydio orau yw'r teithiau beirdd. Mae llawer ohonynt wedi bod â rhyw fath o thema iddynt, er enghraifft hanes y seintiau, hanes Glyndŵr... neu yn y clip cyntaf dwi am ddangos ichi, syniadau economaidd!

Roedd taith *Bol a Chyfri Banc* yn 1995 yn ymgais i ddefnyddio barddoniaeth at ddibenion dogfen... i wthio'r ffiniau rhyw 'chydig. Diawl, os oedd y bardd Lucretius yn gallu sgwennu rhyw lun ar atomic theory ar ffurf hexameters yn oes y Rhufeiniaid, siawns y gallen ninnau ddefnyddio barddoniaeth i drafod pynciau mawr y dydd hefyd – a'r consumer ethic oedd gennym dan sylw yn *Bol a Chyfri Banc*.... dyma Margaret Thatcher ...ac Iwan Llwyd...

---

***Dyfyniad 1: r ddarllen Brecht yn y Bog' Iwan Llwyd (2'18)***

'Let us raise our sights above this or that strike...

...yn darllen Brecht yn y Bog'

*(tâp 1 allan – tâp 2 mewn)*

---

Wrth drafod cyfryngau gwahanol ar gyfer cyflwyno barddoniaeth, dyma ni wedi cyrraedd cyfrwng y mae Gwyn Thomas wedi gwneud llawer o waith arloesol ynddi sef ffilm, ac mi hoffwn i aros am dipyn bach rwan ym myd 'llunyddiaeth', os ga'i fenthyg y gair a fathwyd gan Gwyn ei hun...

Wrth 'llunyddiaeth' dwi'n golygu cerdd-fideo, ffilm farddoniaeth, cinegerdd, cerdd deledu. Fel y gwelwch chi, mae'n mynd dan sawl alias... efallai mai'r genre yma ydi Howard Marks ein diwylliant (!)... mae'n ddifyr... ond ydi o'n dryst? Faint o groeso dylen ni roi iddo?

Dwi'n argyhoeddedig bod hi'n genre bwysig hefo potensial aruthrol (be fasech chi'n ei ddisgwyl gan gyfarwyddwr teledu?!) ond yng Nghymru ar y cyfan, mae'n genre gymharol ddi-sylw...

Galla'i ddeall, i ryw raddau, fod pobl yn amheus o'r busnes 'ma o gyfuno ffilm a barddoniaeth... wedi'r cyfan, tydan ni i gyd wedi dweud ryw dro neu'i gilydd, 'ôn i'n edrych ymlaen at y ffilm, ond doedd hi ddim cystal â'r llyfr'.... ?

A gan fod cerddi, fel llyfrau, yn creu cyfres o ddelweddau unigryw yn nychymyg pob darlennydd neu wrandawr... 'i be ei di i ddifetha'r rheini trwy gynnig rhyw ddelweddau ffilm neu fideo yn eu lle nhw?'

Mae'n feirniadaeth ddigon teg efallai...

...ond **mae** cerddi fideo ar eu gorau yn fwy na hynny...

'They combine the verbal energy of poetry with the visual richness and diversity of experimental cinema', meddai William C. Wees.

Neu fel ddywedodd George Aguilar; 'At its best, the video poem fuses poem and image – just as a song fuses melody and lyrics'.

Mae cerdd fideo yn gallu amrywio dipyn o ran ffurf:

- yn un pegwn, mae gennym y darlleniad neu berfformiad syml gyda'r bardd yn llefaru â'r camera; a phan mae'n dal rhyw faint o'r deinamig rhwng perfformiwr a chynulleidfa mae'n gallu bod yn effeithiol iawn, fel y gwelwn ni yn y clip cyntaf...

- yn y canol mae gennym bob math o bosibiliadau o gyfuno perfformiad y bardd (neu adroddwr) gyda delweddau gweledol ... a cherddoriaeth; cawn ni enghreifftiau o'r rheini yn y man
- ac yn y pegwn arall mae gennym y dehongliadau gweledol llwyr lle na chlywir llais y bardd neu adroddwr o gwbl.

Dyna'n wir oedd y ffilmiau barddoniaeth cynharaf yn y dyddiau cyn dyfodiad y talkies... Mae'r ffilm fud *Manhattan* o 1921 yn cyfuno delweddau o New York gyda rhyngdeitlau o waith Walt Whitman, ac roedd Man Ray a Marcel Duchamp hefyd wedi arbrofi gyda barddoniaeth a ffilm yn y dauddegau.

Tybed pryd oedd y ffilm farddoniaeth gynta yn Gymraeg? Gwelwyd y bardd Cybi fel rhan o ffilm *Yr Etifeddiaeth* yn 1949, ond mae'n debyg mai yn y 60au y cafwyd y cerddi ffilm cynta yn y Gymraeg. Dwi'n gorfod dweud 'mae'n debyg' oherwydd, fel y dywedais i ar y dechrau, genre eitha di-sylw sydd gennym dan sylw' yma pnawn ma; mae'r maes dal heb ei fapio yn iawn.

Gwyn Thomas gyda'i gerdd deledu 'Blaenau', wedi ei gyfarwyddo gan Huw Davies ar gyfer HTV yn y 60au, oedd un o'r cyntaf i'r maes mae'n debyg. Yn anffodus, does gen i ddim clip o hwnna i'w dangos heddiw; mae'n debyg fod y lluniau o Blaenau gystal, fel y cafodd y ffilm ei chanibaleiddio er mwyn ail defnyddio'r ffwtej mewn eitemau diweddarach... a does dim copi cyflawn o'r ffilm wreiddiol.

Mae'r gerdd-ffilm gynhara dwi 'di llwyddo cael gafael arni i'w dangos i chi heddiw, yn dyddio o 1969.

Mae'n ddarn o gerdd a ddaeth yn agos at gipio'r Gadair yn Steddfod Y Fflint ac mae'n un o'r cerddi cynta yn Gymraeg (ac mae'n siŵr gen i, yr unig awdl erioed) sy'n delio â dibyniaeth ar heroin.

Dyma ddetholiad o 'Yr Alwad' gan John Gwilym Jones...

---

**Dyfyniad 2: 'Yr Alwad' John Gwilym Jones (1'57)**

'Ar wely'n eistedd a'r waliau'n astud...  
...o'r golwg, yn llyncu'r galon'

---

Faint ohonoch chi ddaru nabod y Valmai Jones ifanc, tybed?

Un o'r cwestiynau mawr wrth greu llunyddiaeth yw, 'pa mor gyflym elli di fentro cyflwyno'r gerdd?' Wrth edrych ar y gerdd ddiwethaf, er deall awydd y cyfarwyddwr i wneud y cyflwyniad mor ddidostur â'r ysfa sy'n cael ei disgrifio yn y gerdd, mae 'na sgileffaith anffodus yn hyn, os ga i fentro beirniadu. Dôn i ddim yn teimlo mod i'n cael digon o gyfle i gnoi cil ar yr hyn oedd yn cael ei ddweud ... a phan fo'r dweud hwnnw ar gynghanedd hefyd, os rhywbeth, dylid caniatáu mwy fyth o amser i gnoi cil.

Mae 'na fiwsig yn y gynghanedd ond mae hynny'n gallu bod yn beryg. Dach chi'n cofio'r stori am yr hogyn bach yn adrodd ei dablau fel hyn: 'ny ny ny; ny ny ny; ny ny ny' (ac yn y blaen). Dyma'r athro'n gofyn iddo be oedd o'n wneud, a'r ateb gafodd-o oedd 'dwi'n gwbod y tiwn Syr, ond dwi'n methu cofio'r geiriau'.

Wrth greu llunyddiaeth, rhaid rhoi lle i'r geiriau a'r delweddau anadlu...

Dyma gerdd gynganeddol arall, gan Myrddin ap Dafydd tro 'ma, ar achlysur agor y Cynulliad yn 1999...

---

**Dyfyniad 3: 'Does dim byd yn digwydd yma' Myrddin ap Dafydd (1'45)**

'Mor llwm yw dramâu y lle'ma...

...mae rhyw wib eisoes, mae pethau'n bosib'

---

Yn y gerdd honno, wnes i ddefnyddio graffeg i ategu rhai o'r prif bwyntiau, ond hefyd i wneud yn siŵr fod rhai o'r llinellau anoddach na'i gilydd ddim yn cael eu colli. Rwan 'ta, dwi ddim yn awgrymu fod Myrddin yn fardd astrus – i'r gwrthwyneb, mae rhwyddineb ei arddull yn rhan o'i gamp – ond mae mynegiant cynganeddol yn **tueddu** defnyddio ffurfiau mwy cywasgedig – (ffurfiau cryno y ferf ac yn y blaen) – a'r rheini ddim **bob tro** mor gyfarwydd i'n clustiau ni... ddim ar y gwrandawriad cynta fodd bynnag.

Er enghraifft:           mor llwyd ei lenni  
                                  Wrth aros Godot

Cyn bod y cynganeddwyr yn eich plith yn dechra hogi'r cyllyll amdana'i, dwi'n siŵr bod ni i gyd weithiau, wrth wrando ar y Talwrn, wedi diolch fod Gerallt yn darllen y gerdd eilwaith, am ein bod ni wedi methu rhyw air neu'i gilydd, ar y gwrandawriad cynta...ac wrth gwrs gyda'r radio does na ddim mynd nôl at dop y tudalen os dach chi 'di methu rhywbeth... na gyda'r teledu chwaith... a cholli'r gwrandawr neu'r gwyliwr yw hunllef penna pob cynhyrchydd rhaglenni.... Un cynnig gewch chi... felly dyna'r rheswm dros ddefnyddio graffeg fel ffordd o oedi'n weledol gyda rhyw ddweud anoddach na'i gilydd...

ond mae graffeg yn gallu fod o gymorth i'r gwyliwr mewn ffyrdd eraill hefyd... dyma ddyfyniad o awdl Twm Morys 'Drysau'.

---

**Dyfyniad 4:           Darn o 'Drysau'   Twm Morys (2'48)**

'roedd dau mhen dyddiau 'di dod...

...ymhen draw distaw hen dai'

**(Tâp 2 allan, tâp 3 mewn)**

---

Nid defnyddio graffeg i amlygu llinellau 'anodd' oedd y bwriad yma – sdim byd yn anodd am eiriau fel rhedyn, ofn agor a drws – sef y geiriau welwyd yn y clip. Mae sgwennu Twm, fel sgwennu Myrddin, yn syml iawn... ond yn dwyllodrus o syml. Mae'n cuddio llawer iawn o grefft o dan rwyddineb ei arddull ac rôn i am dynnu sylw'r gwyliwr at hynny, yn enwedig gan fod perffeithrwydd crefft y gerdd yn wrthbwynt i'r dadfeilio cymdeithasol oedd yn cael ei ddisgrifo gan y gerdd. Mae diwedd pob adran yn cyrchu dechrau'r un nesa, ac mae diwedd y gerdd yn cyrchu nôl i'r cychwyn. Rôn i isio defnyddio graffeg fel ffordd o dynnu sylw'n dawel bach at grefft y gerdd.

Cerddi caeth yw'r rhan fwyaf o'r rheini fu dan sylw gennym hyd yma, ond wrth gwrs mae na grefft yn perthyn i waith y beirdd rhydd hefyd! A oes modd defnyddio dulliau 'llunyddol' i dynnu syw at grefft gwahanol eu cerddi nhw?

Yn y clip nesa, o'r gerdd 'Awelon' gan Aled Jones Williams, mi wnes i drïo sefydlu'r syniad o ddelweddau'n adleisio, i gyfateb i'r ffordd yr oedd ymadroddion a geiriau penodol yn adleisio drwy gerdd Aled... yn benodol, mi welwch chi ailadrodd sïot o sganar sbyty... ac mae'r sïot wastad yn symud tuag at y sganar, achos dyna oedd yn symboleiddio orau imi y ddau amser presennol sy'n rhedeg trwy'r gerdd, gyda'r traethydd nid yn unig yn disgwyl cael sgan ond



hefyd ar ei wely angau yn disgwyl ei ddiwedd, yn disgwyl pasio trwy 'o' fawr wen y sganar at... at be? Dyna gwestiwn mawr y gerdd... Beth bynnag... dyma ddarn agoriadol 'Awelon' gan Aled Jones Williams...

---

**Dyfyniad 5 : Darn o 'Awelon' Aled Jones Williams (3'00)**

'Awelon' gan Aled Jones Williams...

'... y farwolaeth liwgar tu mewn i mi, yn fasedged o ffrwythau'

**(Tâp 3 allan tâp 1 nôl mewn)**

---

Faint o'i hystyr dylai cerdd ildio ar y profiad neu'r darlleniad cynta?

Ac hefo cerdd deledu sy'n gyfrwng 'unwaith yn unig'. (Hynny yw, unwaith yn ôl pob tebyg y gweli di'r peth.) I ba raddau y dylid trio helpu'r gwylwr i ddeall?

Achos dyna broblem arall – pwy yw'r gwylwr? Mewn cyflwyniad mewn neuadd neu dafarn, mae'n ddigon anodd weithiau i nabod dy gynulleidfa; meddyliwch felly pa mor anodd ydi nabod y gynulleidfa ar gyfer cerdd deledu? Hynny yw, be maen nhw'n dod gyda nhw wrth wrando ar y gerdd? Ai caredigion ein llên ydyn nhw, wedi ei chlywed hi o'r blaen efallai, ac wedi myfyrio ynghylch ei hisystyron? Ynteu rhywun sydd wedi digwydd tiwnio mewn, ac erioed wedi clywed y gerdd o'r blaen? Ar gyfer pwy mae rhywun yn anelu fel cynhyrchydd teledu?

Wel, yr ateb syml yw'r ddau, ond ateb syml o gymhleth ydi hynna, gan fod y ddau wylwr efallai a disgwyladau gwahanol o'r gerdd. Dwi wedi sôn am estyn 'cymorth' i'r gwylwr; efallai fod na beryg i hynny swnio'n nawddoglyd, ond mae cyfathrebu ac ymestyn y gynulleidfa cyn bwysiced i mi â gwneud datganiad gweledol ylwch chi fi gyfarwyddwr fflash; 'if in doubt, keep it simple'. I fi, mae barddoniaeth Gymraeg wedi dod o'r bobl, ac felly mae'n gorfod cydio yn y bobl. Mae'n draddodiad 'socially engaged' chwedl y Sais. Felly cerddi teledu hefyd, gobeithio. Mae rhai o'r cerddi eisteddfodol sydd wedi'u darlledu wedi denu cynulleidfaoedd o dros hanner can mil; hanner can gwaith mwy na'r rhan fwy o gyfrolau barddoniaeth a ddeng waith yn fwy na'r *Cyfansoddiadau*.

Hyd yma, 'dan ni wedi sôn am gerddi teledu Cymraeg yng nghyd-destun Cymru yn unig, ond os ydan ni'n sôn am ehangu cynulleidfa, mae'n bwysig peidio anghofio potensial teledu neu ffilm i hyrwyddo a dathlu ein barddoniaeth ni tu allan i'r Gymru Gymraeg; mae prosiect fel *Dal Yma/Nawr* yn neidio i'r meddwl, a mawr obeithiaf nad 'one-off' fydd honno... ond sdim rhaid meddwl yn nhermau cyllideb mawr a dosbarthu yn y sinemau er mwyn defnyddio cerddi ffilm tu allan i Gymru...

Dyma gerdd o'r gyfres 'Golau yn y Gwyll'...

---

**Dyfyniad 6: 'Guinness Wedi'r Wlpan' Ifor ap Glyn (2'12)**

'Hanner gwag, 'ta hanner llawn?

Daw'r argyfwng gwacter ystyr pan fo'r gwydr ar ei hanner

wedi'r ymgodymu dyddiol â dechreuwyr Park Place

hanner gwag ta hanner llawn?

ydi'r cyfan mor ddiniwed a difudd â'r hogyn bachg dyflwydd

aeth i nôl y selotêp i drwsio'r crac yn ei fisgedan?

hanner gwag ta hanner llawn?

pendiliaf yn f'ansicrwydd – gwagio hwn a mynd?

ynte ceisio gwydraid arall o'r dirgelwch du

brawd meddwl yw siarad ac mae'r gwydr gwag yn eiriol drosof ar y bar  
Hanner gwag ta hanner llawn...  
mae llawer yn bosib mewn dinas fel hon,  
a phan gofiat y tro y bûm i'n ffôn-ganfasio  
yr unig wyneb gwyn mewn llond stafell o gyfeillion Asiaidd a du  
yn ffonio'u cyd-Gymry er mwyn annog pleidlais 'ie'  
rhaid cyhoeddi'n bendant iawn, nid hanner gwag , ond hanner llawn...'

---

Y pwynt allweddol hefo'r gerdd yna, wrth gwrs oedd yr isdeitlau – maen nhw'n galluogi dyn i gyflwyno'i waith yn yr iaith wreiddiol heb orfod ei ailadrodd wedyn mewn cyfieithiad.

Mae'r gerdd fideo yna wedi mynd â fi i Wlad Pwyl, Iwerddon, America a Lloegr, heb sôn am gynulleidfaedd cymysg neu anghyfiaith nôl adre yng Nghymru... a dwi'n falch iawn o allu gwneud hynny heb Saesneg. Dwi'n gwybod fod Saesneg yn iaith ryngwladol, dwi'n gwybod bod hi hefyd yn iaith Gymreig... ond mae hi hefyd yn iaith drefedigaethol ac yn gyfrwng darostyngiad y Gymraeg. Mae isdeitlau Saesneg yn fymryn llai o gyfaddawd na llefaru'r cyfieithiad ond wrth gwrs o ran egwyddor gallai'r isdeitlau fod mewn unrhyw iaith.

Dwi'n dal yn argyhoeddedig fod na botensial aruthrol i'r dull yma o gyflwyno cerddi Cymraeg i'r byd yn yr iaith wreiddiol... ond sut mae annog y peth yn ei flaen? Sut mae dod â'r arian a'r cyfle ynghyd i feirdd a gwneuthurwyr ffilm?

Yr ateb dwi'n meddwl, yw gŵyl gerddi ffilm. Maen nhw'n digwydd yn Vancouver, Chicago a Berlin...ac mae sôn wedi bod am lansio un yng Nghaernarfon... ond hyd yma sdim llawer o ddiddordeb wedi ei ddangos.

Wrth imi ofyn 'pam hynny?' i fi fy hun... mewn rhyw ffordd wydroedig mae'r diffyg diddordeb 'ma yn destun llawenydd, achos dan ni ddim angen ffilm. Mae'r rhan fwyaf o gyflwyniadau cyhoeddus o gerddi yn gyflwyniadau i gynulleidfaedd Cymraeg. Yn wahanol i Iwerddon lle mae cyflwyno cerddi yn ddwyieithog yn fwy o norm erbyn hyn, yma yng Nghymru mae'r critical mass dal gynnon ni, does dim rhaid inni hogi'r arfau gweledol, er mwyn cyflwyno ein gwaith i gynulleidfaedd anghyfiaith.

Neu tybed a oes rhaid? Dwi'm yn dweud am funud y dylai beirdd wneud llai yn Gymraeg yn unig – hir y parhaed y teithiau a'r stomps a'r ymrysonau gyda'r Gymraeg yn sofran. Ond tybed a ddylen ni wneud mwy?

Dwy stori fach i ddarlunio'r pwynt. Bedair blynedd yn ôl mi fues i ar daith o gwmpas Cymru fel rhyw fath o warm-yp barddonol i'r band Fernhill ac am y tro cynta dyma fi'n cael fy hun bob noson yn cyflwyno fy ngwaith i gynulleidfa Saesneg eu hiaith; roedd yn her ac mi aeth pethau'n reit dda, ond roedd hi'n andros o agoriad llygaid. Yn Theatr Mwldan, Aberteifi dyma Sais clên yn dod i fyny ata' i ar ôl y sioe a dweud:

I really enjoyed that; I had no idea that Welsh was such a living language.  
Diolch yn fawr iawn, me fi, are you here on holiday?  
No no I live here.  
Oh have you just moved here then?  
No I've been living here for five years

Dan ni'n byw yn yr un wlad â'r cyfaill 'ma – ac eto dan ni ddim...

Mae'r ail stori'n ymwneud â'r *Western Mail*. Mae'r ddrama *Branwen* yn teithio ar hyn o bryd, a dyma'r cyfarwyddwr Ian Rowlands yn ffonio i drïo trefnu cael rhywun i 'w adolygu. 'It's our policy not to review Welsh language productions', medden nhw. Heb sôn am y ffaith fod na fwy o Saesneg yn y ddrama na sydd o Gymraeg, pa fath o agwedd ydi hynny beth bynnag? Efalla nad ydi llawer o'u darllenwyr yn debygol o fynd i wylïo'r ddrama, ond o fynd ag agwedd fel 'na i'r pen, waeth ti stopio adrodd am yr hyn sy'n digwydd yn Irac, am nad oes llawer o ddarllenwyr y WM yn debygol o fynd yno!

Mae'n bwysig fod pob agwedd ar y profiad o fyw yng Nghymru yn cael ei mapio gan ein cyfryngau; fel arall, mae'na beryg i'r Gymru Gymraeg droi yn rhyw fath o *parallel universe* sy'n gwbl anweledig i weddill poblogaeth ein gwlad. Dyna lle mae'r beirdd yn dod mewn. Dwi'n credu'n gryf mewn creu ein cyfryngau ein hunain; dyna i raddau yw'r teithiau barddol mwya llwyddiannus, fel *Syched am Sycharth*, am eu bod nhw'n fodd i ni hawlio ein hanes yn ôl. (Achos fel y gwyddom mae na ddigon o Brydeineiddio'n mynd ymlaen o fewn y Gymraeg heb sôn am Gymru gyfan.)

Ac yn yr un modd credaf y gallwn ni greu ein cyfryngau ein hunain i gyflwyno diwylliant Cymraeg i'n cyd-Gymry. Sut ydan ni'n mynd o'i chwmpas hi? Mae hynny'n dibynnu ar y beirdd unigol. Ond mae angen ei wneud o.


Echnos ron i hefo Geraint Løvgreen ac Iwan Llwyd yng Nghanolfan y Mileniwm yn gwneud cyflwyniad yn seiliedig ar hanes Y Gododdin ac yn ymdrin, ymhlith petha eraill, â phwysigrwdd y bardd yn y gymdeithas oedd ohoni. Yn niffyg sefydliadau a chyfryngau eraill yn y Gymru gyfoes sy'n cyflwyno'n diwylliant i drwch poblogaeth ein gwlad, wrth inni edrych ymlaen i'r unfed ganrif ar hugain, baswn i'n dweud fod barddoni yn bendant yn fwy na 'rywbeth i wneud'. Mae cymaint o angen beirdd ar ein cymdeithas rwan ag oedd na mil a hanner o flynyddoedd yn ôl.

Diolch yn fawr

Ifor ap Glyn, 18 Tachwedd 06


### ATODIAD III – Darluniau Ecffrastig

- a) ‘Titw’ – Gwyn Thomas a Ted Breeze Jones, *Anifeiliaid y Maes Hefyd* (Penygroes, 1993), 7.




- b) 'Tynnu fy Llun' – Gwyn Thomas a Ted Breeze Jones, *Anifeiliaid y Maes Hefyd* (Penygroes, 1993), 9.

## T Y N N U F Y L L U N



"Ie . . . am dynnu fy llun i?  
Iawn. Ond 'rhoswch chi,  
Rhowch eiliad fach i mi  
Gael gwneud fy mhlu  
A thwtio, orau medra'-i,  
Fy smotiau a gosod fy ngwyn  
Yn weddol weddus, fel hyn . . .  
Ie, dyna ni, mae hyn'na'n eitha'.  
Sut y bydd hi os edrycha' i  
Arnoch chi fel'ma?"

- c) 'Tylluan Wen' – Gwyn Thomas a Ted Breeze Jones, *Anifeiliaid y Maes Hefyd* (Penygroes, 1993), 24.




*Port de bras en haut, a  
Mynd ymlaen i entrechat,  
Ac olion ei symudiadau  
Yn wyn hyd y nos ac, yn ddiau,  
Yn gerddoriaeth weladwy, liwgar  
Rhwng nefoedd a daear.*

d) 'Dau Gyw Tylluan' – Gwyn Thomas a Ted Breeze Jones, *Yli* (Penygroes, 2003), 3.



dd) 'Rŵan-ta Ted' – Gwyn Thomas a Ted Breeze Jones, *Yli* (Penygroes, 2003), 5.



## Rŵan-ta Ted

"Rŵan-ta, Ted,  
Yn eno'r dyn  
Tria edrych  
Fel chdi dy hun.

"Alla' i, yn wir, yn fan'ma  
Ddim tynnu llun o ddim sut  
a chdiitha  
Yn sbio i bobman ond  
llygad y camera.

"A thria, wir ddynd-i, tria roi gwên,  
Tria ymddangos yn ddymunol a chlên;  
Tria, fel y deudis i, dy osod dy hun  
Yn naturiol hollol ar gyfer y llun;  
Da chdi, tria dy ora fod yn chdi dy hun.

"A meddylia, wrth dro,  
Am yr adar lu  
A'r holl greaduriaid hynny a fu  
Mor ufudd was'naethgar pan oeddet ti  
Yn tynnu dy luniau ohonom ni!"



- e) 'Tryweryn' – Gwyn Thomas a Ted Breeze Jones, *Yli* (Penygroes, 2003), 25.

## Tryweryn



Dŵr ydi-o, dŵr ydi-o.  
Ie dŵr, ond hefyd amdo.


O dan y tonnau  
Fel pysgod gwelwon  
Y mae drychiolaethau  
Yn y tawelwch mawr.

Yn siglo yn y dyfnderau,  
Fel gwymon angau,  
Y mae darnau o genedl.

O fudandod du y dŵr  
'Ddaw dim un ynganiad  
Yn ôl i fyny i'r goleuni.

Y mae yna, yn siŵr,  
Yn y dŵr  
Ryw fywyd a fu farw.

- f) 'Anheddau/Ruins' – Gwyn Thomas a Jeremy Moore, *Blaenau Ffestiniog* (Llandysul, 2007), 24-5.



- ff) 'Jeriwsalem/Jerusalem' – Gwyn Thomas a Jeremy Moore, *Blaenau Ffestiniog* (Llandysul, 2007), 38-9.




- g) 'Menyg Segur/Gloves' – Gwyn Thomas a Jeremy Moore, *Blaenau Ffestiniog* (Llandysul, 2007), 56-7.



ng) Darluniau Vincent Van Gogh:

- ❖ Caeau Gwenith ger Arles (1888)



- ❖ Y Bwytawyr Tatws (1885)



- ❖ Glaw yn Auvers (1890)



## ATODIAD IV – Cerddi Bardd Cenedlaethol Cymru 2006-08

Gweler isod gasgliad o'r cerddi – y mwyafrif yn eu manau cyhoeddi gwreiddiol – a gyfansoddodd Gwyn Thomas yn rhinwedd ei swydd fel Bardd Cenedlaethol Cymru. Dynoda \* fod y gerdd wedi'i chynnwys hefyd yn *MTChT* (2010).

- ‘Canmolwn yn Awr’\* (a'r cyfieithiad Saesneg: ‘Let Us Praise’)
- ‘Kyffin’\*
- ‘Diolch Byth am Richard Brunstrom’\*
- ‘Y Coleg ar y Bryn’ (a'r cyfieithiad Saesneg: ‘The College on the Hill’)
- ‘Meredydd + Phyllis’\*
- ‘R. Williams Parry’\*
- ‘Robot Gruffydd’\*
- ‘Ray Gravell’\*
- ‘William Samuel Jones’\*
- ‘Hafod Eryri’
- ‘Kate Roberts’\*
- ‘Glyndŵr’\*
- ‘The Battle Fought at Newport’
- ‘The Way To Do It: The F.A's Winning Ways’
- ‘Upon Westminster Bridge’
- ‘Hanner-canmlwyddiant Ysgol Gymraeg Llundain’\*
- ‘Cysylltiadau Cyhoeddus: Methodoleg, Rhai Esiamplau’\*
- ‘Gwanwyn’\*

Isod, ceir detholiad o gerddi a luniodd Gwyn Thomas yn ystod ei gyfnod fel Bardd Cenedlaethol 2006-2008, ond nid yn rhinwedd y swydd honno.

- ‘Adenydd Colomen: Dyheadau Dyn, Dwy Fil a Chwech’
- ‘Mabiaith’
- ‘Darllen – a Deall?’\*
- ‘Pan Euthum yn Ddyn’
- ‘Man Gwyn, Man Draw’
- ‘Tomos Leitning Lewis’\*
- ‘Diwrnod Du yn y Tir Cras’\*
- ‘Ar yr Awr Ni Thybiom’
- ‘Dwyn Ein Gwaith i Ben’
- ‘Y Gelfyddyd Gain o Ymgomio’\*
- ‘Ymarweddiad Post-Gristnogol’\*
- ‘Tyfu'n Gymro’

**cerdd gynta' bardd cenedlaethol 2006/07**

# Canmolwn yn awr

Cyfeirir yma at Danielle Cording a fu farw ar ôl cael ei chicio gan geffyl. Ei tymuniad oedd rhoi ei horganau i eraill. Derbyniodd geneth ifanc, Natalie Acott, aren, a achubodd ei bywyd. Y mae'r gair 'dynion' yma, fel erioed, yn golygu'r ail ddynol.)



Gyda'r cof am alanustra  
Y seithfed dydd o'r seithfed mis  
Y flwyddyn ddiwetha  
Yn ailymddangos  
Yn lluniau o fws coch wedi'i stumio  
A cherbydau mewn tywyllwch  
Drylliedig, tanddaearol  
Yng nghonglau ein cartrefi,  
Daeth y newydd diweddera  
Am laddfa fwy fyth yn India.  
Ac yna fe ddaeth, unwaith eto,  
Gŵn am herwgipio  
A bomio yn y Dwyrain Canol.

Mae pob dim yma a gofnodwyd  
Yn atgof hen gyfarwydd  
Y gigyddiaeth dynion.

Yn ar y trydydd dydd ar ddeg  
Yr seithfed mis  
Y flwyddyn yma  
Daeth i'n cartefi stori  
Y barodd syndod inni -  
Iae yna yn y byd ddaioni,  
Iae yma o hyd rai a all,  
Yng ngalar profedigaeth enbyd,  
Darganfod mewn marwolaeth fywyd.

Yn ochr inni yma,  
Yn anmol yn awr  
Yn daioni dynion.

Gwyn Thomas,  
Bardd Cenedlaethol Cymru



# National poet sees goodness of people in world of tragedy

Claire Hill

claire.hill@wme.co.uk

## Gwyn Thomas inspired by story on news

THE first poem from Wales' new national poet is a message of hope in a world filled with the "butcheries of man".

Professor Gwyn Thomas was so inspired by a story of humanity on the news recently that he sat down to write his first occasion poem in his new role.

It was the death of 12-year-old Danielle Cording, who saved another schoolgirl's life after her parents donated organs, that moved the poet to pen *Let Us Praise*.

He said, "I just happened to see this item on the ITV news and it was such a powerful item and so different from all the damaging stories on the news at the time that it just struck a chord with me."

## Gwyn Thomas' first poem as National Poet

LET US PRAISE

With the memory of the devastation  
Of the seventh day of the seventh month  
Last year reappearing  
As images of a red bus buckled  
And carriages in the broken darkness  
Of an underworld  
In the corners of our homes,  
The latest news came  
Of even greater destruction in India;  
And we were told, yet again, of abduction  
And bombing in the Middle East.

All incidents reported are  
Moments too familiar  
Of the butcheries of men.

But on the thirteenth day  
Of the seventh month  
Of this year  
Into our homes came a story  
Which surprised us -  
There is goodness here still,  
There are here some who can,  
In the pain of the hardest adversity,  
From death bring forth life.

Let us now then  
Praise the goodness of men.



LINK Danielle Cording, above, and Professor Gwyn Thomas, below

ygda ac mae y Cynniun Iaitn Gymraeg  
diwygiedig wedi cael ei gymeradwyo  
gan Fwrdd yr Iaitn Gymraeg yn ddi-  
weddar pryd y llongyfarchwyd y  
Cyngor ar y camau cadarnhaol a

hgiurodd  
ddod yn yr  
adau yn yst  
wyd â'r yst  
awyddus ia'

## \* Cerdd i gofio 'Kyffin' \*

TALWYD sawl teyrnged i'r arlunydd  
Syr Kyffin Williams, a fu farw ar 1  
Medi gyda'r cyfan yn tanlinellu ei  
boblogrwydd fel unigolyn ac fel  
arlunydd ynghyd â pharch Cymru  
gyfan at ei waith.

Yma cawn gerdd gan Gwyn Thomas.  
Cyfansoddodd y gwaith fel Bardd  
Cenedlaethol Cymru 2006-7 - cynllun-  
a drefnir gan yr Academi Gymreig  
gyda nawdd Cyngor Celfyddydau  
Cymru.

Kyffin

(Syr John Kyffin Williams, RA,  
Pwllfanogl, Ynys Môn, 1918-2006)

Ger Pwllfanogl, ar y Fenai,  
Yn y dŵr yr oedd aderyn;  
Alarch ydoedd, alarch clauerwyn.

O Bwllfanogl, ger y Fenai,  
Aethai oddi yno Kyffin;  
Ni ddychwelai yno wedyn.

Mae y drws yn gaead yno,  
Ac nid yw Kyffin yn ei stiwdio -  
Dim arlunydd, dim arlunio.

Dacw gyffro mawr adenydd  
Wrth i'r alarch dorri o'r dyfroedd,  
A dyrchafu fry i'r nefoedd.

Ond gadawodd yn y meddwl  
Ei bresenoideb gwyn, rhyfeddol,  
Fel darn o rywbeth sy'n dragwyddol.

Kyffin yntau a aeth ymaith;  
Ond ni all t'wllwch du marwolaeth  
Ddifa lliwiau ei fodolaeth.

Gwyn Thomas

C  
O'N  
cyf  
Rhy  
y r  
Cyr  
ddi  
By  
Cyn  
dyl  
adt  
gor  
arc  
elv  
ym  
gei  
rye  
cr  
pe  
ary  
Ffe  
ari  
A  
da  
ie  
ie  
f  
yn  
Pr  
ar  
ph  
yv  
m  
Se  
on  
â  
ge  
ni  
w  
C  
g  
o  
a  
c  
h  
C





Gwyn Thomas

## *Kyffin*

→ (Syr John Kyffin Williams, R.A.,  
Pwllfanogl, Ynys Môn, 1918-2006)

Ger Pwllfanogl, ar y Fennai,  
Yn y dŵr yr oedd aderyn:  
Alarch ydoedd, alarch claeuwyn.

O Bwllfanogl, ger y Fennai,  
Aethai oddi yno Kyffin;  
Ni ddychwelai yno wedyn.

Mae y drws yn gaead yno,  
Ac nid yw Kyffin yn ei stiwdio –  
Dim arlunydd, dim arlunio.

Dacw gyffro mawr adenydd  
Wrth fr alarch dorri o'r dyfroedd,  
A dyrchafu fry fr nefoedd.

Ond gadawodd yn y meddwl  
Ei bresenoldeb gwyn, rhyfeddol,  
Fel darn o rywbeth sy'n dragwyddol.

Kyffin yntau a aeth ymaith;  
Ond ni all rŵllwch du marwolacth  
Ddifa lliwiau ei fodolaeth.

**Gwyn Thomas**  
**Bardd Cenedlaethol Cymru**

Gwyn Thomas, 'Kyffin', A470, 41

(Tachwedd/Rhagfyr, 2006), 4.

## Y gerdd / The poem

### Diolch byth am Richard Brunstrom *Thank heaven for Richard Brunstrom*

Amser a fu

Pan nad oedd y Gymraeg yng Nghymru  
Yn iaith swyddogol yr Heddlu.

Amser a fu

Pan oedd y Gymraeg yng Nghymru  
Yn iaith a allai'n peryglu!

Amser a fu

Pan allai'r Gymraeg yng Nghymru  
Ein hisraddio hyd anallu.

Yna fe ddaweth

Sais yn Brif Gwnstabl, ac fe wnaeth  
Fyd sylweddol o wahaniseth.

Gŵr ydoedd o

Na themlai raid i gywilyddio  
Am ein hiaith – yr oedd hi yno,  
Meddai o, f'w defnyddio.

Diolch amdano,

Diolch amdano –

Mae eisiau mwy o Saeson

\*Run fath â Richard Brunstrom,

A llai o'r Cymry hynny sy'n dyfeisio problemau  
Er mwyn cau y Gymraeg dan gaedau biniau.

Gwyn Thomas, Bardd Cenedlaethol Cymru  
(*Cynllun Academi*)



Time was

When Welsh in Wales  
Was not, officially, Police.

Time was

When Welsh in Wales  
Could be extremely dangerous.

Time was

When Welsh in Wales  
Could be debilitating.

Then there came

One Chief Constable, an English man,  
Who made a world of difference.

He was a man

Who felt no need to be embarrassed  
For our native tongue – it was, said he,  
Here for our use.

We should be grateful for him –

We need more English like him.

Richard Brunstrom,

And fewer of the sort of Welsh

Who invent impediments

To shut our language in  
Some foul and stonewalled box.

Gwyn Thomas



Gwyn Thomas, 'Y Coleg ar y Bryn

/The College on the Hill',

Bangoriad, (2007), 20-21.

mis iynwyd y gerdd hon yn arbennig gan  
 ywysog Charles i ddathlu canmlwyddiant Gosod  
 rreg Sylfaen y Brifysgol. Darllenwyd y gerdd yn  
 od y seremoni gan Gwyn Thomas.

**Y COLEG AR Y BRYN**

g a osodwyd ar fryn ydyw tiwn,  
 n na ellir ei goddio.

ddwyd ydyw,  
 ydyw

ceiriodd goleuni  
 peddyllau dynion -  
 diau da o Gymry -  
 ohonynt yn nhywllwch  
 egrwch creigiau hen,  
 eraill, trwy aeafau a hafau,  
 yn ymrafael ag elfennau hen y weryd  
 anol anifeiliaid.

ar gwragedd, hynny -  
 aniau arwrol ni -  
 cario a magu eu plant  
 rig llawd aelwydydd  
 a y gwir busnes  
 l rai eraill hynny  
 dynt yr awyddhyd  
 pethau.

calonnau yr oedd yna olau,  
 ar ddysg a llawyrch doethineb;  
 d'yna, yn eu moddyllau, weledigaethau  
 ll amgylchiadau ac amgenach bywyd  
 nt a effeddeai eu byd.

es eu gwledigaethau

Trwy goiniogau, trwy ddyonwch cyfrantadau  
 Yn feini ac yn furiau ar fryn,  
 Wale, yma, ran o brifysgol yng Nghymru  
 A wireddal yr hen ddyheadau hynny  
 A wawriodd ym meddwl Glyndŵr.

A llanwyd yma feddyllau â goleuni dysg  
 A thysorau doethineb a deall -  
 Hynny trwy  
 Astudiaethau o eiriau a ielloedd,  
 Creadigaethau llen a pheroriaeth cerdd,  
 Hanesion hen oesoedd,  
 Gosgeiddwydd a chyfaredd rhifau,  
 Archwilio flydd yr anifeiliaid  
 Arloesi meysydd, arloesi coedydd;  
 Ac ymchwiliadau i bdynderau yr eigion,  
 Dirlgelwch yr elfennau, pwerau y cread,  
 Cyfrinachau eneidiau, a chredoau dynion

Yma y bu, ac y mae, ac y bydd,  
 Fel yn holl britysgolion yr oesoedd,  
 Y tyndra bywiol hwnnw rhwng  
 Selydlogrwydd ystyriol traddodiad  
 Ac egnion cyfnewidiol feuentid.

Dyma, yma, i ni freuddwydion  
 Y cwyd ohonynt oleuni,  
 A'i osod ar fryn, lle na ellir ei goddio  
 I lawyrchu o hyd  
 Ar Gymru a'r byd.

Gwyn Thomas

HRH Prince of Wales commissioned this poem to  
 celebrate the centenary of the Laying of the  
 University's Foundation Stone. The poem was read  
 by Gwyn Thomas during the ceremony.

**THE COLLEGE ON THE HILL**

This is a college that is set on a hill  
 And is one that cannot be hidden.

It is a dream,  
 It is a vision.

A light kindled  
 In the minds of men -  
 Our goodly Welsh grandfathers -  
 Some of them in the darkness  
 And the harshness of ancient rocks;  
 And others who struggled,  
 In winters and summers,  
 Against a recalcitrant earth  
 Among their animals.  
 And then there were the women -  
 Our resilient grandmothers -  
 Who bore and raised children  
 On meagre hearths.  
 And there were businessmen and others  
 Who had within them a desire  
 To make things better.

In their hearts there was a light,  
 A love of learning and the shining of wisdom;  
 There were, in their minds, visions  
 Of better things, a more abundant life  
 For the children who would inherit their  
 world.

And their visions,  
 Penny by penny, subscription by subscription  
 Became stones and great walls on a hill.  
 Behold, here, a part of a university in Wales

That made substantial those ancient yearnings  
 That lit the mind of Glyndŵr.

And here minds were filled with the light of  
 learning  
 And the treasures of wisdom and  
 understanding, -  
 This by studies of  
 The words and the languages of men,  
 The creations of literature, the enchantment  
 of music,  
 The stories of times past,  
 The elegance and fascination of numbers,  
 The ways of the animals,  
 The cultivation of forests and fields,  
 The hidden things of the great deep of oceans,  
 The mysteries of the elements, the powers of  
 the universe,  
 The secrets of souls, and the beliefs of men.

Here was, and is, and will be  
 As in universities over the ages  
 That dynamic tension between  
 The sagacious stasis of tradition  
 And the passion and energy  
 Of innovation and youth.

Here there are dreams  
 Out of which came forth light  
 That was set on a hill,  
 Where it cannot be hidden  
 To shine still  
 On Wales and the world.

Gwyn Thomas

## MRÊD

Yn Nhanygrisiau mae hen enwau  
Sydd i ti'n dynodi darnau  
Gwerthfawr, gwerthfawr o dy fyw a'th fod –  
Cyfnodau dy ieuenctid, dy blentyndod.

Dywedaf,  
'William Morris Williams, Dwalad Roberts,  
Siôn Gwyndy, a Jac Pant',  
Ac atgyfodant hwy, a deuant  
Trwy len annelwig amser  
O'u gorffennol creadigol  
Yn ôl, yn ôl i dy bresennol.

Dywedaf fi,  
'Y Foel, Graig Dipiau, Dolau Las,  
Y Beudy Mawr, a'r Mochwyn',  
Neu dywedaf,  
'Bethel, Carmel, a Bryn Mair',  
A daw'r byd difyr oedd yn bod  
Yn ôl yn fyw, ddiddarfod.

Mae haenau hen o Danygrisiau –  
Yn bobol, manau, ac amserau –  
Yn nyfnderau dy fodolaeth.

Gwyn Thomas, 'Cerdd: Meredydd + Phyllis' yn  
HARPER, Sally a THOMAS, Wyn (goln.), *Cynheiliaid  
y Gân: ysgrifau i anrhydeddu Phyllis Kinney a Meredydd  
Evans*, (Caerdydd, 2007), tt. 20-24.

## MRÊD

In Tanygrisiau there are names  
That, for you, signify  
Precious fragments of your life –  
Times of youth and times of boyhood.

I say,  
'William Morris Williams, Dwalad Roberts,  
Siôn Gwyndy, and Jack Pant',  
And they are resurrected, come  
Through time's dim veil  
Out of their creative past  
Again, again into your present.

I say,  
'Y Foel, Graig Dipiau, Dolau Las,  
Y Beudy Mawr, and Mochwyn.'  
Or say,  
'Bethel, Carmel, and Bryn Mair',<sup>2</sup>  
And the wonder of the world that used to be  
Comes back alive, unending.

Tanygrisiau: there are old layers of it –  
People, places, times gone by –  
Deep, deep inside your being.

<sup>1</sup> Names of people that Meredydd would have known in his native Tanygrisiau, a Welsh slate-quarrying town.

<sup>2</sup> Names of places in Tanygrisiau. His home was called 'Bryn Mair'.

PHYLLIS

Yr ochor draw i dy fyd di, Meredydd Evans,  
 Yr oedd 'na bobl, yr oedd mannau  
 Nad oedden nhw yn bod i ti, yn Nhanygrisiau –  
 Ar wahân i ffilmiau.  
 Ac yn y byd pell hwnnw yr oedd hi  
 Yn enethig, Phyllis Kinney.

Roedd hi yn unig blentyn, ond nid yn blentyn unig  
 Yn nhiriogaethau hen yr Indiaid Cochion:  
 Ei chynefin hi oedd Pontiac, a Detroit,  
 Chicago, a Lake Michigan,  
 Ac, wrth gwrs, Adventure Island.  
 A gwyddai hi, a'i mam  
 Tra bu'n anhwylyd, am  
 Florida a'i heulwen deg – a'i hawyr laith;  
 Ac wedyn gwyddent am  
 Wres sych ac ardderchowgrwydd Tucson,  
 A grymsterau cochion y Grand Canyon.

Cymeriadau ei hieuenctid hi?  
 Dyna'i mam hi, Lois, a'i byd yn llawn  
 O lyfrau fyrdd a llên;  
 A James, ei thad, a weindiai, dro, o'r gramaffon  
*Tannhäuser* Wagner, a  
     *Nos Wyl Ifan* Mendelssohn.  
 A dyna'i Nain a âi â hi i'r pictjiwrs  
 I weld dau Lun Mawr – y *double features*!  
 Ac a'i dygai i gefnogi  
 Y Chicago White Sox, ac a'i cyfarwyddodd hi  
 Ynglŷn â *Ladies' Day* a'r *Double Headers*,  
 Ac a ganai iddi hi emynau mawr y diwygiadau –  
 '*Washed in the Blood of the Lamb*'.  
 A dyna yntau, Dewyrth Skipper, morwr hy  
*Boys' Camp* Adventure Island.

PHYLLIS

On the other side of this, your world, Meredydd Evans,  
 There were people, there were places  
 That, in Tanygrisiau, for you had no existence –  
 Save in cinemas and films.  
 And in that far place, there was she,  
 A young girl, Phyllis Kinney.

She was an only child, but not a lonely child  
 In the old homelands of Red Indians:  
 Her familiar places were Pontiac, and Detroit,  
 Chicago and Lake Michigan,  
 And, of course, Adventure Island.  
 And she knew, her mother knew  
 When she was ailing, of  
 Florida, its pleasant sunshine – and its humid air;  
 And then they came to know  
 The drier heat and the magnificence of Tucson,  
 And the crimson might of the Grand Canyon.

The people of her youth?  
 There was her mother, Lois, her world  
 Full of literature and books;  
 Her father, James, who would, at times, unwind  
 Wagner's *Tannhäuser* from the gramophone,  
     and the *Midsummer Night's Dream* of Mendelssohn.  
 And then there was her grandmother who took her to the pictures  
 To see two big films, called Double Features!  
 Who took her to support  
 The Chicago White Sox, and who taught her  
 About their Ladies' Day and Double Headers,  
 And who sang to her the great hymns of Revival –  
 'Washed in the blood of the Lamb'.  
 And there was he, her Uncle Skipper, the bold sailor  
 Of Boys' Camp, Adventure Island.

Dyma nhw: eu dau fyd, dau fath o bobol.  
Ond dyma ddau yn un a dynnwyd – yn briodol!  
Dyma ddau 'oedd ar wahân  
Ond a wnaed yn un  
Gan gynghanedd ac ymgeledd Cân.

Here they are: their two worlds, two sorts of people.  
But here are two who were made one – harmoniously.  
Here are two who were apart  
Made one  
By the art and love of Song.

## cerdd gan gwyn thomas

# R Williams Parry

1884-1956

wn oedd yn enaid ar wahân,  
un â'i gân yn iasol,  
ns gwyddai o am dro y rhod  
dry pob bod yn farwol.

bod deniadau natur werdd  
ewn llawer cerdd ysgytwol,  
oedd diddymdra yr holl sioe  
hwn yn wae parhaol.

Ym mhob cymdeithas felys, fwyn  
A rydd ei swyn i'n dyddiau  
Fe welai o y cysgod du  
Ysy'n dynodi angau.

Roedd hiraeth am y rhai a fu  
Yn gry rhag mud anghofrwydd,  
Ond chwythir hiraeth gan y gwynt  
Ddaw ar bob hynt yn ebrwydd.

Un gaeaf noeth fe'i rhoddwyd o  
Yn ddwfn i'r gro yng Nghoetmor,  
Ac yno yn y pridd mae'r bardd:  
Dan wahardd angau rhagor.

Ond mae ei gân o hyd yn fyw:  
O clyw, mor fyw o'r beddrod!  
Ar y geiriau bu'n eu gweu  
Ni bydd dileu na darfod.

Gwyn Thomas



Gwyn Thomas, 'R. Williams Parry 1884-1956', *Golwg*, 22 Chwefror 2007, 23.

**n Thomas - cerdd i Robat Gruffudd**

dd Gwyn Thomas wrth anrhydeddu Robat Gruffudd am ei gyfraniad i fyd cyhoeddi Cymraeg.

**BAT GRUFFUDD**

ae yna'n sicir fyrd  
 'n eu tro.  
 geisio peintio'r byd yn wyrdd -  
 roes y gorau iddi  
 barchuso, gan-heneiddio  
 thio i rigolau cyffordduswydd.

mid efo, nid Robat Gruffudd,  
 diniweidrwydd dur y rheini Y mae ganddynt weledigaeth - a direidi -  
 lliodd Robat Gruffudd wrthi  
 o unrhyw gallio dof.  
 o unrhyw gyffordduso,  
 o pob heneiddio,  
 i Loffa creodd o  
 a roddai inni oll ddiddanwch.  
 dai weithiau ryw arveiniad,  
 wnai i ni bendroni  
 oeon bywyd, neu eiriau 'fyddai  
 ell waith am ein haddysgu,  
 bydd i'w gilydd, gyrrai eiriau  
 osetiai trwy siwtiau du'n parchusrwydd.

ddwydiwr hoff, yr ydym ni  
 olch iti am fynd ati  
 io llunio inni Gymru  
 dai'n wlad gwerth trigo ynddi.  
 a dyfal ac amryfal fyrd.  
 intiaist ti ein byd ni'n wyrdd.  
 a Thomas

rch i ddychwelyd i'r stori

[About the BBC](#) | [Help](#) | [Terms of Use](#) | [Privacy & Cookies Policy](#)

<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/robat-cerdd.shtml>

'Robat Gruffudd' gan Gwyn Thomas,  
 <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/robat-cerdd.shtml>>; cyrchwyd 20  
 Mehefin 2009.



## cofio grav 1951-2007

Roedd diwylliant Cymru a'r Gymraeg yn agos at galon Ray Gravell. Felly pa well deyrnged iddo na cherdd gan Fardd Cenedlaethol Cymru a nifer o brif feirdd eraill.

# RAY GRAVELL

Roedd ffrwydriadau ar y sgrin -  
Grav oedd yno yn ymdrin  
Â rygbi.

Roedd cynhesrwydd yn y radio;  
Fo oedd yno yn ymgomio -  
Felly'r oedd o.

Roedd gwisgo jersi goch yn tanio  
Ynddo genedl hen y Cymro -  
Haleliwia.

Roedd o yno'n gawr cyhyrog  
Yn dal y cledd uwch bardd y Steddfod -  
Dyna fo.

Roedd egni angerdd ein Cymreictod  
Yn gryfach ynom o'i adnabod -  
Dyna Grav.

Roedd calonnau pawb yn curo  
Yn llawenach o gael sgwrsio  
Gydag o.

Roedd 'na olau yn ei galon  
A wna'i ni, bob un ohonom,  
Deimlo'n well.


Mae hi'n Dachwedd yma heno,  
Du, digofus; gaeaf eto  
Arnom hebdo.

Mae mudandod ar y sgrin,  
Grav nid yw yno i ymdrin  
Â'n bywydau.

Ond ni wna'i angerdd o ddadfeilio,  
Ni wna'i afiaith o ddim peidio,  
Ni wna'i ysbryd o edwino,  
Tra bôm ni sydd yma'n cofio.

Roedd 'na rywbeth a oedd ynddo  
Oedd yn cyffwrdd ac yn deffro  
Grym graslonrwydd:  
Diolch iddo.

Gwyn Thomas  
Bardd Cenedlaethol Cymru 2007/08



Gwyn Thomas, 'Ray Gravell', *Golwg*, 8 Tachwedd 2007, 12.

Gwyn Thomas, 'William Samuel Jones 1920-2007',

*Y Cymro*, 30 Tachwedd 2007, 8.

# Bardd Cenedlaethol Cymru yn cofio Wil Sam



**WILLIAM SAMUEL JONES**  
**Tyddyn Gwyn, Rhoslan**  
**1920 - 2007**

Y mae lleisiau yn Eifionydd  
Sy'n ymddangos yn dragywydd  
Eu Cymreictod a'u Cymreigrwydd.

Yn y fro rhwng môr a mynydd  
Mae murmuron hen, aflonydd  
O'r gorffennol yno beunydd.

Yn iaith Wil Sam yr oedd na haenau  
A dreiddiodd drwedd o'r hen bethau,  
Yr hen iaith a'i chyraeddiadau;

Ynddi'n treiglo roedd profiadau  
Rhai fu yma'n gymeriadau  
Hyd y fro dros genedlaethau.

Y cyfoeth hwn oedd yn ei eiriau,  
Y gwaelod hwn o hen amserau,  
A dyfeisiadau ei athrylith loywaf yntau.

Creodd fydoedd, pobloedd lawer  
A digrifwch grasol, tyner  
Sy'n dangos inni'i led a'i ddyfnder.

Tua'r diwedd, dyma fu -  
Iddo ddwedyd wrth ei deulu,  
"Ar fy ôl i ymorolwch  
Na fydd na ddim hen snwfflan, dalltwch."  
A doedd y tristwch ddim yn farwol;  
Yr oedd o yn dristwch bywiol.

Y gwron o Eifionydd, gollyngwch  
Yn dyner, ar deryn ei ddydd,  
Ei lwch i'r dwfn dawelwch -  
"Dwi'n dweud dim, deud dim;  
Deud dim."

Ond, ond,  
"Deud dw i.  
Yr ydw i'n dywedyd,  
Dywedyd; dywedyd."

Mae ei iaith a'i eiriau'n bod,  
A thrwyddyn nhw y mae efo,  
Wedi marw, yma yn llefaru eto.

Gwyn Thomas

Anfonwyd at yr awdur presennol drwy e-bost gan Gwyn Thomas, 22 Gorffennaf, 2009.

## HAFOD ERYRI

1.

Copa'r Wyddfa:  
Yr ydych chiwi, yma,  
Yn nes at y nefoedd.

The summit of Snowdon:  
Here, you are nearer  
To heaven.

2.

Y mae aeonau o greu  
Yn y creigiau hyn.

These rocks record the aeons  
Of creation.

3.

Ein tasg ni ydi  
Gwarchod y gogoniant hwn.

It is our duty  
To guard this glory.

4.

Edrychwch a gwelwch  
Ryferthwy a heddwch  
Eryri.

Here you will see  
Tempests and tranquillity.

5.

O'n cwmpas ni y mae  
Camp a gwae  
Hen, hen genedl.

All around us are  
The grandeur and the anguish  
Of an old, old nation.

Anfonwyd at yr awdur presennol drwy e-bost gan Gwyn Thomas, 22 Gorffennaf, 2009.

**KATE ROBERTS**

(Cerdd ar gyfer Agoriad Swyddogol Cae'r Gors.)

Hyhi, o gors y bryniau, greodd  
O adfyd a chaledi'i dyddiau  
Storiâu a wnaeth i ninnau  
Ddod i rannu ei phrofiadau.

Hyhi, ar ffriddoedd garw Arfon,  
Astudiodd rawd gythryblus dynion,  
A chroniclodd eu hymdrechion  
Yn erbyn grymusterau creulon.

Hyhi, yn nhegwch ei hieuentid,  
A deimlodd lid ynfydrwydd rhyfel;  
Fe ddaeth o bell i fro y chwarel  
Sôn am frawd o'r farw-fedel.

Hyhi, 'n ne Cymru a'i ddyffrynnoedd  
Ar adeg hirlwm a diweithdra  
A nododd olion mall segura  
Ar ddefnydd dynion yn y llymdra.

Hyhi, yn noddfa anghyddfurfiaeth,  
A welodd yno ffydd a chredo  
Yn teneuo ac adfeilio,  
A dywedodd: 'Tywyll heno'.


Hyhi a fu yn ngwewyr Cymru  
Yn fawr ei hymdrech trwy'r blynyddoedd  
Gan ddal ati trwy derfysgoedd –  
Canys triw a dewr iawn ydoedd.

Hyhi, athrylith ydoedd yn tywynnu;  
Fe dreiddiodd hi i'r cyflwr dynol  
A dangosodd yn y lleol  
Olion dyfnion y tragwyddol.

Gwefan 'Academi', 'Glyndŵr' (Cerdd gan Gwyn Thomas a ddarlledwyd ar Radio Cymru i ddathlu diwrnod Owain Glyndŵr), <<http://www.academi.org/archif/i/128889/n/401/>> Cyrchwyd ym Mehefin 2009.

### GLYNDŴR

(Cerdd gan Gwyn Thomas, Bardd Cenedlaethol Cymru, a ddarlledwyd ar Radio Cymru i ddathlu diwrnod Owain Glyndŵr)



#### I

Rhagfyr oedd hi,  
Pwll du y gaeaf oedd hi,  
Mil Dau Wyth Dau oedd hi  
Pan laddwyd y tywysog, Llywelyn,  
'Ein Llyw Olaf' fel y dywedwyd wedyn;  
Hon oedd yr awr, fel y nododd rhywun,  
'Y bwriwyd holl Gymru i'r llawr'.

#### II

Ar y llawr sut le ysydd?

Lle ydyw i'r distadl, a'r efrydd,  
Y rhai sydd yn byw mewn cywilydd,  
Y digarennnydd, a'r di-ffydd:

Dyma inni y rhai hynny a gollodd eu tir;  
Dyma inni yr uchelwyr a deimlai, yn wir,  
Eu bod, oherwydd eu hil,  
Heb gyfle i gynnal dim swyddi;  
Dyma inni'r masnachwyr heb hawliau mewn trefi  
I fynd a dod, a phrynu a gwerthu;  
Dyma inni'r clergwyr oedd yn cael eu cynddeiriogi  
Gan rym o'r tu allan oedd yn eu rheoli.  
A hyn i gyd, hyn i gyd  
Oherwydd gormes a dig  
Y rhai a alwai yr hanner cenedl hon  
Yn 'elynion Seisnig', yn 'estron'.

Yr estron a fu yn ein gwlad ni yn corddi  
Y rhai hyn oedd ar lawr,  
Eu corddi nhw i deimlo eu bod nhw,  
O'r newydd, yn Gymry:  
Ac wele, ac wele fe ddaeth yr awr.

#### III

Medi oedd hi,  
Dechrau'r hydref oedd hi,  
Un Fil Pedwar Dim oedd y dyddiad  
Pan ddaeth yr awr.

Yn nhywyllwch a düwch difodiant  
Oedd yn cancro ein cenedl ni  
Daeth fflach a daniodd nwy ein diddymiant  
Nes bod yn ein gwlad ni eto  
Wybren a glaw, a heulwen a thyfiant;  
Ac wele yma bren gobaith da yn blodeuo.

Daeth yr awr, a daeth y dyn,  
Fe gyrhaeddodd olynydd Llywelyn -  
'Gur meingryf, gorau mangre':  
Owain ydyw o Lyndyfrdwy.

Lle bu meiwyr yn gorwedd  
Cynheuwyd cynddaredd;  
Deffrowyd gan hynny  
Unwaith eto y Cymry,  
Y genedl sydd yma yn awr.

Ddiysgog dywysog, diolch.

#### IV

Diolch am beth, am beth?

Am obaith.

Ond, ond  
Nid yw gobaith yn para am byth.  
Oni phallodd ein goleuni,  
Onid aethom ni, sawl gwaith,  
Yn ôl i'n hen aeaf  
I fod yn ddiynni a chlaf,  
Onid aethom ni yn eger  
Yn ôl i lyn cysgod Lloeger?

Do, a buom yno,  
Buom ni yno yn i'hir.  
Aethom eto i gywilyddio  
Am ein bodolaeth.

Ond nid oedd bedd,  
Nid oedd un bedd  
Lle y gallai neb ddywedyd,  
"Yma y mae'n gorwedd y g?r;  
Yma yn farw y gorwedd Glynd?r."

Aeth ei fodolaeth  
Ac aeth ei obaith  
I awyr ein Cymru ni:  
A bu, ymhob oes wedyn,  
Rai o hyd a anadlai yn gyndyn  
Rym ei ysbrydoliaeth.

Yr hydref oedd hi,  
Mil Naw Naw Saith oedd hi,  
A phrawf oedd hi ar ein gobaith.

Ac yn neuadd deledu y BBC  
Daeth eto awr  
Pan ddyrchafwyd, yn y diwedd un, gri,  
Gan y gymysgedd ohonom ni  
Sydd erbyn hyn yn Gymry:  
"Yr hyn a ddymunwn," meddem ni,  
"Bobol y darn hwn o dir ydi,  
Nid bedd cyfforddus,  
Ond bywyd i'n pobol ni,  
Bywyd i ni trwy fod yma eni  
Yr hyn a fydd, ryw ddydd,  
Yn Senedd i ni."

Ddisygog dywysog, diolch.

**h. Gwyn Thomas, Bardd Cenedlaethol Cymru**

Anfonwyd at yr awdur presennol drwy e-bost gan Gwyn Thomas, 22 Gorffennaf, 2009.

## **THE BATTLE FOUGHT AT NEWPORT**

The lights shone bright on Newport  
And on the snooker hall  
As forty eight came to the fray  
To fight with cue and ball.  
From earth's four corners there they came  
To feud in this most testing game.

Our own Welsh warriors gathered  
With all their skill to fight,  
Our Matthew, Mark and Ryan Day!  
Into the darkest night  
They are with other warriors cast!  
But sixteen make it to the last.

Eight men are left in Newport  
Still standing by the green;  
And of them he, O'Sullivan,  
Among these greats is seen.  
But in the end will he have won  
Or this unknown called Higginson?

Four doughty knights, unyielding,  
On queue come to the hall  
To combat for true honour:  
A semi-final fall  
For any super class of warrior  
Is nothing short of lowly failure.

The green is full of colour  
And it's the final scene;  
In this Titanic clash of cues,  
None better will have been.  
Will Robertson, who's great of might,  
Or Higginson, who's full of fight,  
Be best in Newport on the night?



Anfonwyd at yr awdur presennol drwy e-bost gan Gwyn Thomas, 22 Gorffennaf, 2009.

## **THE WAY TO DO IT THE F.A.'S WINNING WAYS**

(With the memories of what happened to Zidane and Rooney in the World Cup competition still fresh at the beginning of the new football season, club managers will have to review their winning tactics. Sessions spent learning the most telling insults etc. will be compulsory. The exact wording of the most prevalent insults have here been largely sanitized and organized.)

Now then, now then,  
This is what you'll do  
When you come out onto the field.

All of you will seek agreement  
And select just one approved opponent,  
And then concentrate on him.

It will be to your advantage  
To infer a severely limited comprehension  
Of our sovereign English tongue  
On account of his intelligence  
Not being up to even  
The lowliest expectation.  
Tell him his ignorance is swinish,  
And for this purpose such phrases as, 'Hell,  
You're a fornicating, ignorant, snorting pig',  
Or, 'What excrement is that you speak?'  
Will serve our purpose well.

Then there is  
The Category A of insults  
That refers to your opponent's  
Ancestors and family,  
And you must learn by rote  
These phrases that you all can quote:  
'You look to me  
Reminiscent of  
A self-abusing monkey.  
Pray tell me when did you descend  
From the trees, my furry friend?'  
Or, 'What's your father,  
You disgusting, brutish copulator?'  
Aim a reference at his spouse,  
Reveal a close acquaintance  
With his house and bed,  
For this may help to cause  
A mild explosion in his head:

'I enjoy your family life,  
And I love to procreate  
On occasion with you wife.'  
A casual reference to his sister  
May help him on his way  
To absolute disaster,  
'Your sister is a nympho bitch  
And is well known for preferring  
Lascivious beasts; in short, she is  
Absolutely bloody disgusting.'  
But the most telling insult of them all  
Is one aimed at his mother,  
Say she is: 'The repulsivest harlot of the ages,  
With whom at least three generations –  
Not to mention umpteen battalions –  
In their time have had a ball.'

If none of this makes your opponent yield  
So that he will viciously attack you  
And be red-carded from the field,  
Then I shall deem  
It an absolute necessity for you to join  
Our Olympic Diving Team  
For many a session  
Of the most intense tuition.

Anfonwyd at yr awdur presennol drwy e-bost gan Gwyn Thomas, 22 Gorffennaf, 2009.

**UPON WESTMINSTER BRIDGE  
2008**

It is always a mistake  
For politicians on the make  
To think the gravy train  
Will never ever come again  
When some reporter puts his snout  
In their affairs and finds them out -  
That with some claims  
They've been inventive,  
And with all of them excessive,  
And that their family employees  
Are all non-operative.

Nil desperandum: don't despair  
For we, the voters, do not care;  
Why, given half a chance, we would  
Do what they, so blithely, could.

We get, as all wise men observe,  
The politicians we deserve;  
And, whatever happens, still  
This river glideth at her own sweet will.

Gwyn Thomas, 'Hanner-canmlwyddiant Ysgol Gymraeg Llundain', *Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet* (Barddas, 2010), 80.

## **HANNER-CANMLWYDDIANT YSGOL GYMRAEG LLUNDAIN**

Ynghanol môr o Saesneg  
Mae ynys fechan werdd  
Sy'n pefrio o Gymreictod,  
Gan eiriau, rhifau, cerdd.

Ni ddaeth fawr ddim heb ymdrech –  
A hynny nid yw'n syn:  
Oherwydd llafur beunydd  
Mae ysgol yn 'fan hyn.

Athrawon a rhieni –  
Â sêl y bu y rhain  
Yn cadw'u hetifeddiaeth  
Rhag mynd rhwng cŵn a brain.

Afallon yw hon, felly,  
Lle mae y bywyd sy  
Yn rym yn y presennol,  
Yn dod o'r hud a fu.

Gwyn Thomas, 'Cysylltiadau Cyhoeddus: Methodoleg, Rhai Esiamplau', *Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet* (Barddas, 2010), 87-9.

## CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS: METHODOLEG, RHAI ESIAMPLAU

*(Ar gyfer Gŵyl y Gelli Gandryll)*

Mae pethau yn gwella  
Yn gwella o hyd  
Ac i mi y mae'r diolch am hynny.

Ond rwyf fi yn eistedd yma  
A 'nghluniau i yn grinjian  
Yn fawr fy mhoen  
Yn disgwyl – o un chwe mis i'r llall –  
Am alwad imi gael fy nhrin.  
I mi mae'r arian – meddan' nhw – a wariwyd  
Ar ein hiechyd cenedlaethol  
Yn wastraff gan nad oes, i mi,  
Unrhyw leddfu ar fy loes.

Nawr te, frawd, nid yw hi'n ddoeth  
I gwyno fel yma'n barhaol  
Am boen nad ydyw, wedi'r cyfan,  
Yn ddim ond poen bersonol.  
Ystyria di'r sefyllfa gyfan  
Ddatgelir gan ein hymchwil ni  
Sy'n dangos fod 'na fwy a mwy  
O gleifion nag erioed o'r blaen  
Yn cael eu trin  
Trwy'r system sydd ohoni.  
Am hynny felly, a wnei di,  
Fod yn fwy ystyriol  
A pheidio â chwyno yma fel hyn  
Yn hunan-dosturiol  
A chyfan gwblw hunanol.

Rwy'n byw mewn ofn beunyddiol  
Heb feiddio mentro o'r tŷ 'ma'n y nos –  
Mae heidiau o lafnau hyd y lle  
A does dim plisman yn ein tre.  
I ble yr aeth cymdogaeth dda,  
Pam 'peidiodd cariad brawdol?  
A pha fath fywyd ydi hwn  
Yn ofni cylllell, dwrn a gwn,  
A hynny yn dragwyddol?

Nawr te, frawd, ynglŷn â hyn

Yr wyt ti'n cyfeiliorni  
Gan anwybyddu'n sicir-ddiau  
Yr hyn a brofa'r ystadegau:  
Y ffaith amdani yw'n bod ni  
Yn fwy diogel – ffaith i ti –  
Nag y buom ni ers oesoedd.

Irác, Irác,  
Anfonwyd fy mab,  
Fy mab nad oedd o ond ugain,  
I Irác ar wasanaeth milwrol.  
'Ddaeth o ddim yn ôl;  
A ddaw o ddim, byth mwy, yn ôl.  
Rydw i am wybod pam.

Y mae'r sefyllfa wel'di, frawd,  
Yn fwy cymhleth nag a dybi.  
Yr ydym ni o hyd yn chwilio –  
Does dim amheuaeth nad ydyn nhw yno –  
Am Arfau Eithafol eu Grym;  
A phan, o'r diwedd, y darganfyddwn ni nhw,  
Wel, yna mi fydd pethau  
Mor glir i ti  
Ag y maen' nhw, yn sicir, i mi.

Yn y rhan o'r wlad lle'r ydw i'n byw  
Roedd hi unwaith yn bosib i rywun fel fi,  
Sy'n gweithio mewn ffatri,  
Fedru prynu tŷ  
Iddo fo ei hun a'i deulu.  
Ond rwan alla' i  
Byth bythoedd wneud hynny.  
Bydd yn rhaid imi ennill anferthol o swm  
Ar y Loteri cyn gallu prynu cwt bychan,  
Bychan, llwm.  
Pe gallwn i, ryw sut, gael morgais  
Fe fyddai rhyw rai yn dal i dalu,  
A hynny am ddegawdau,  
Ar ôl i mi fynd 'lawr i'r bedd  
I huno at fy nhadau.

'Thâl hi ddim i ti, fy mrawd,  
Feddwl am bethau fel yna.  
Oeda ennyd ac ystyria  
Faint sydd wedi'i gwneud hi'n iawn,  
A magu sglein a magu graen –  
Mewn ystyr economaidd, 'te –  
Wrth fentro ar y farchnad dai  
Tra oeddet ti yn cwyno.  
Bydd lawen gyda nhw, oblegid nhw

Yw'r math o ddeiliaid y mae arnom ni  
Fel cenedl eu heisio,  
Ac nid tuchanwr fel tydi.

Mae pethau yn gwella  
Yn gwella o hyd  
Ac i mi y mae'r diolch am hynny.

Gwyn Thomas, 'Gwanwyn', *Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet* (Barddas, 2010), 90.

## GWANWYN

*(Ar gyfer Cymorth yr Henoed)*

Mae rhywun wedi troi ei drigain  
Yn cael ei demtio i daro ei glun i lawr  
A'i draed i fyny  
Ac eistedd yn gyfforddus yn syllu  
Ar ddiffeithderau diderfyn rhyw sgrîn  
A'r gwacterau duon hynny ynddi  
Ysydd ar raddfa gosmig,  
Ac yn barod i sugno o'r syllwr –  
I grombil ddiwala – unrhyw lygedyn o fywyd,  
Unrhyw osgo at smic o wreiddioldeb.  
Ac os na fydd dyn yn ofalus  
Fe all ei gael ei hun yn marwol olwyno  
Yn llyfn a digyffro  
Mewn amdo du o ddiffyg dychymyg  
I fedd i gael ei briddo,  
Neu i ffwrnais i'w losgi yn golsyn.

Hynny ydi, os nad oes yn rhywun  
Yr ewyllys i beidio â gollwng ei afael  
Ar wanwyn tragwyddol y dychymyg.  
Felly, dowch allan, gymrodyr, a dawnsiwch,  
Canwch, cyfansoddwch;  
Mynnwch brofi o hyd  
Holl ryfeddod diderfyn y byd.  
Mynnwn ddangos i bawb  
Ein bod ni yma, a'n bod ni yn fyw.



## **Adenydd Colomen: Dyheadau Dyn, Dwy Fil a Chwech**

*Adenydd colomen pe cawn? –  
Buasai un gyfan yn well:  
Yn bryd yn y popty fe'i rhown  
Er gwybod nad âi hi ymhell.  
Tu allan i wydyr y ffwrn  
Fe'i gwyliwn hi'n rhostio, yntê,  
Gan roi iddi ambell i dwrn –  
Gor-gwcan ni fydd 'na; no wê!*

---

Ac wedyn traflyncwn y lot  
Gan ysu hyd esgyrn y cig,  
A rhown i'r gweddillion i Mot  
I'w crensiân yn lân, ddistryffig.  
Â'r blât o fy mlaen i yn wag  
Fe rochiwn i wedyn mewn hedd  
Yn folrwth, mewn rhemp di-nacâd  
Heb ofni nac uffern na bedd.

Adenydd colomen pe cawn? –  
Ni hedwn, ni chrwydrwn ymhell,  
I gopa bryn Nebo nid awn:  
Byw yma'n fy nghnawd sydd yn well.  
Â'm llygaid yng nghafnau fy chwant  
Mi dreuliaf holl ddyddiau fy oes  
Heb 'run delyn nefol na thant,  
Heb falio am farw ar Groes.

*Gwyn Thomas*

Gwyn Thomas, 'Adenydd Colomen – dyheadau dyn dwy fil a chwech', *Barddas*, 288  
(Mehefin/Gorffennaf, 2006), 18.

## mabiaith

Y mae yna, yn ddiau, adegau  
Pan fydd ymadroddion fel,  
'Paid â byta dy sgidia,'  
Neu  
'Rho'r gora i gnoi'r mat 'na,'  
Yn gwbl resymol,  
Yn gwbl naturiol,  
Ac yn gwbl, gwbl ystyrlon.

Y mae geiriau y Gymraeg,  
Fel geiriau pob iaith arall  
A fu, ysy'n bod, neu a fydd  
Yn symud i fyd,  
Neu i ryw ysbaid od –  
Yn symud i fywyd babanod.

Galwer yr ysbaid hon –  
Ryfeddol, orfoleddus, O mor fer –  
Yn Fabiaith.  
Dyma ydi'r iaith ysydd,  
Trwy oesoedd maith bodolaeth,  
Yn golchi geiriau,  
Yn rhoi sgrwb o'r newydd i deimladau,  
Yn gloywi ein meddyliau,  
Ac, o hyd ac o hyd,  
Yn adnewyddu, adnewyddu'r byd.

# Dwy Gerdd gan Gwyn Thomas

## Darllen – a Deall?

(Addysgu un sydd yn flwydd a hanner)

Llyfr: fe'i hagoraf.

Llun CEFFYL: fe'i gwelaf.  
CEFF-YL: dywedaf.  
Yna, i nodweddu'r creadur,  
Gweryraf.

Llun CEFFYL: gwêl yntau.  
CEFF-YL: ni ddyweda,  
Eithr gweryra.

Llun CWNINGEN: fe'i gwelaf.  
CWN-ING-EN: dywedaf.  
Yna, i nodweddu'r creadur,  
Cliciaf fy nhafod.

Llun CWNINGEN: gwêl yntau.  
CWN-ING-EN: ni ddyweda,  
Eithr gweryra.

Mae hyn yn peri imi amau  
Nad ydi o ddim cweit  
Wedi deall pethau.

## Pan Euthum yn Ddyn

"Yr holl bobol hynny yn sefyll yn y glaw,  
Pob un ohonyn nhw mewn cotiau du  
A'r awyr i gyd yn dywyll.  
A'r dynion hynny yn dod wedyn  
Ac yn cydio mewn pethau tebyg i raffau  
Ac yn dechrau gollwng Taid mewn bocs  
I lawr i lawr i'r pridd du  
A sŵn y pren yn crafu  
Yn erbyn cerrig y ddaear wlyb."

Yn ei wely y noson honno  
'Roedd o yn cofio rhoi ei ben o dan y dillad  
A dymuno, yn angerddol,  
"I bethau fod yn iawn".

Ond ddaru nhw ddim y tro hwnnw,  
Nac amryw droeon ar ôl hynny hefyd,  
A bu'n rhaid iddo sylweddoli  
Mai peth fel'na ydi bywyd.

Gwyn Thomas, 'Darllen – a deall?'  
a 'Pan euthum yn ddyn',  
Barddas 291 (Chwefror/  
Mawrth, 2007), 29.

## **Man Gwyn, Man Draw**

Os ydych chwi  
'Run enw â mi,  
Yna mae Fan Hyn  
I chwi, fel i mi,  
Yn Fan Gwyn,  
Yn fan yr ydw i  
Yn digwydd bod yno.

Ac os af i, ysgatfydd,  
Draw oddi yno, wedyn  
Mae fan'no, yn ei thro,  
Y dod yn 'Fan Gwyn' –  
'Man Gwyn Man Draw'.

Fe all hyn arbed cryn bendroni  
Ar sut yn hollol y mae dehongli  
Ystyr ac arwyddocâd  
Ambell hen ddywediad.

Gwyn Thomas, 'Man Gwyn, Man Draw', *Barddas* 291 (Chwefror/Mawrth, 2007), tt. 36.

---

## Tomos Leitning Lewis

I'r rhai anhrenus yn ein plith -  
Y mae eu nifer tebygol o rif y gwllith  
A'r rheini nad ydynt yn injaniys  
Esboniaf fi mai injan drên  
Odidog, las ydyw Tomos.

Wrth yr angharfarwydd fe ddywedaf  
Mai car yw Lightning McQueen;  
Ac ychwanegaf mai fo yw'r cyflymaf  
Ac, ar hynny, y medrusaf  
O'r holl geir rasio sydd yna  
Yn Unol Daleithiau America.

Yn rhinwedd ei berchenogaeth  
O ddiffidâs tra lliwgar ac anturus  
Yr oedd yr wybodaeth hon -  
Ac yntau yn dair -  
Yn gyfarwydd a gwybyddus  
I Iestyn Caradog Lewis.

Ac yntau'n rhyw ddygymod  
Â'r newydd - a oedd yn rhyfeddod -  
Eu bod yn disgwyl,  
Ryw dro yn y dyfodol,  
Ychwanegiad at y teulu  
Fe gymerodd o, ar untu,  
Un dydd ei dad a dywedyd:

"Yr ydw i wedi meddwi  
Am enw i babi tŷ ni."  
"Da iawn," meddai ei dad,  
"A be ydi hwnnw?"  
"Yr enw ydi Tomos."  
Dyweddodd y tad ei fod, yn ddi-os,  
Yn cymradwyo yr enw Tomos.  
"Y mae yna enw arall,"  
Meddai Iestyn wedyn.  
"A be ydi'r enw hwnnw?"  
"Yr enw ydi Leitning."

Oeddodd y tad am ennyd yn syfrdan,  
Yna lled-ofynnodd, "Ond . . . ym . . . beth . . .  
Beth petai'n babi newydd ni'n hogan?"

Gwyn Thomas

Gwyn Thomas, 'Tomos Leitning Lewis', *Barddas* 293 (Mehefin/Gorffennaf, 2007), 15.

Gwyn Thomas, 'Diwrnod Du yn y Tir Cras' (cyfeirir ati yn 'Gwyn Thomas – Blwyddyn Bardd', Sgwrs rhwng Gwyn Thomas a Dei Tomos, nos Sul 15 Gorffennaf, 2007 ar BBC Radio Cymru <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/gwyn-thomas-07.shtml>>; cyrchwyd 20 Mehefin 2009).

## DIWRNOD DU YN Y TIR CRAS

'Heddiw', meddai Chris,  
'Am ychydig o ddoleri  
Fe fydda i, unwaith eto,  
Yn fy ngalw fy hun yn 'Cwmwl Gwyn',  
Fy enw i mewn Nafaho;  
Fe beintia i fy hun â lliwiau rhyfel,  
Fe wisga i blu,  
Eisteddaf ar fy ngheffyl llwm,  
Dywedaf hen eiriau fy nghyndadau  
Ac actio bod yn fi fy hun'.

'Fe ga i dynnu fy llun,  
Fy saethu gyda fideo,  
Fe wna i ychydig driciau  
Ac yna, yna  
Mi a' i'n ôl i'r tiroedd cadw.'

Yn y wlad ddolerus hon,  
Yma, a minnau'n Gymro,  
Fe gydia yn fy nghalon  
I iasau oer o ofn –  
Pryd y bydd hyn yn digwydd i mi,  
A phryd y bydda i yn fo.

## ar yr awr ni thybiom

A beth a ddywedwn ni am y pethau hyn?  
Ystyriwn, a gofynnwn,  
'A oes yna, ynof fi,  
Ddefnydd un a allai  
Gau'r drysau ar fodolaeth,  
Ac agor pyrth dioddefaint  
Ac adwyau marwolaeth?

'A allwn i fod yn ddi-feind  
O beri poen i 'nghyd-ddyn;  
Neu, wedi lladd, a allwn i  
Droi eto at fy mhethau  
A mynd ymlaen i fyw a bod?'

Y peryg – argoel arswydus ein dyddiau – ydi  
Y gallwn ni ddarganfod  
Fod yna fwy a mwy ohonom ni  
Yma yn ein byd yn bod  
A allai wneud hyn oll  
Na ddar'u inni erioed ei ddychmygu.

Am hynny, am hynny  
Gwylw'n, gwylw'n  
Canys yn yr awr ni thybiom . . .

## dwyn ein gwaith i ben

Ar ôl i'n gweddïau ni fethu  
Fe aethom ni ati i brynu  
Gynnau a bomiau  
A phethau felly.

## Y Gelfyddyd Gain o Ymgomio

"Welist ti'r peth 'na,  
Y be ti'n galw 'na  
Y noson o'r blaen?"

"Ar y teli ti'n feddwl?"

"Sâl. Sobor o sâl, a'r bôl 'na,  
Be 'di enw fo – ti'n gwbod –  
Y bôl tew 'na sy ar bob dim ..."

"Hwnnw sy 'di prodi honno  
Oedd ar y peth 'na bob wnos."

"Na chdi, hwnnw.  
Ddim yn gallu actio mwy na llo."

"Uffar gwirion sa ti'n gofyn i mi."

"Dyna fo, hwnnw."

"Na welis i mono fo,  
Na'r be ti'n galw 'na."

"Ti'n lwcus.  
Watjis inna mono fo i gyd.  
Wâst o amsar.  
'Sw'n i'n gallu gneud yn well 'yn hun."

"Sa pawb. Dim problem.  
Pres am jam."

"Ac am fod yn jami."

"Jami. Ti'n iawn.  
Llawar gwell bod yn fa'ma."

"Dyna ydw inna'n ei ddeud,  
Y sywaeth."

Gwyn Thomas



## Ymarweddiad post-Gristnogol

"Ceisiwch, da chi," meddai'r Pregethwr  
Wrtho fo, yn un o dri,  
"Ddangos dipyn bach o frawdol,  
A chwaeryddol, gariad.  
Yn yr hen fyd yma, da chi,  
Ceisiwch wneud y pethau bychain.  
Er enghraifft, ceisiwch ar daith bywyd  
Gyfarch eich cyd-fforddion  
A thrwy hymy, ond odid,  
Leihau ychydig ar eu gofid,  
Goleuo dŵch eu tywyllwch,  
Lliniaru eu hunigrwydd.  
Dyna'n ddiau ein dyletswydd."

A dyma yntau y bore Llun canlynol  
Yn gweld, ar yr heol, fel y tybiai,  
Ryw druan bach di-wên, trallodus,  
Unig, unig a gofidus.

"A sut ydych chi 'ta, bora 'ma?"  
Meddai.  
Edrychodd y truan di-wên, trallodus,  
Unig, unig a gofidus arno  
Yn waeth na demi-Gorgon;  
Pocrodd fflemsan felan a dywedodd wrtho -  
Mewn Saesneg neu Espedwarecceg  
Am "Rywiol gyfathrachu ymaith",  
Neu eiriau annwyl i'r un perwyl.

"Os felly y mae i dallt hi,"  
Meddai yntau, ac anogaethau'r Sul  
Yn pylu i'r gorffennol,  
"Cym'hon'na ynta'r bastad mul,"  
Gan estyn iddo fo, ar flaen ei drwyn,  
Swadan deilwng o'r Pedwerydd Rambo  
A'i dododd o mewn gwely  
Am dridiau mewn ysbyty  
I fyfyrrio peth mor ffôl  
Yw hi i fyw yn ôl  
Ymarweddiad post-Gristnogol.

*Gwyn Thomas*

Gwyn Thomas, 'Ymarweddiad Post-Gristnogol', *Barddas*, 297 (Mawrth/Ebrill, 2008), 47.

## Tyfu'n Gymro

Pan oeddwn i, unwaith, yn fy nghrud  
Yr oeddwn i tua throedfedd o hyd,  
Ac roeddwn i'n amau - fel rydw i'n cofio -  
    Yr adeg hynny  
    A oeddwn i'n Gymro,  
    Er fy mod i yng Nghymru.

Wedyn fe dyfais, o fodfedd i fodfedd,  
Nes bod o ran hyd, yn ddiau, ddwy droedfedd.  
A minnau'r maint hwnnw yr oeddwn i'n dwedyd  
    Geiriau Cymraeg,  
    Cymalau Cymraeg,  
    Ac ati.  
Rhwng un a dwy droedfedd y bu i mi  
Dyfu yn Gymro: Q.E.D.

*Gwyn Thomas*

Gwyn Thomas, 'Tyfu'n Gymro', *Barddas*, 296 (Ionawr/Chwefror 2008), 14.

## ATODIAD V – *Cwmwl o Dystion*

Gwyn Thomas, *Cwmwl o Dystion* (anghyhoeddedig, c.1977)

***D.S: MAE'R HAWLFRAINT AR Y GEIRIAU HYN YN EIDDO I GWYN THOMAS AC NI CHANIATEIR EU DEFNYDDIO NA'U HATGYNHYRCHU HEB EI GANIATÂD EF, NEU ETIFEDDION YR HAWLFRAINT.***

---

CWMWL O DYSTION

(Tract i'r amserau wedi ei osod fel cyflwyniad dramatig.)

gan

GWYN THOMAS

## YR YMCHWILIAD

*[Argraff o ystafell foethus gyda bwrdd graenus. Mae'r Cadeirydd a'r Comisiynwyr yn eistedd wrth y bwrdd ac yn wynebu'r gynulleidfa. Mae'r cymeriadau a enwir yn y Warant, dogfen swyddogol iawn yr olwg, i godi neu i gael golau arbennig arnynt fel y'u henwir.]*

## Y WARANT SENEDDOL AR RAN Y CENHEDLOEDD UNEDIG

### CYHOEDDWR:

**B. Kesh Anan**, Prif Weinidog Talaith Prydain Fawr a chanddo hefyd ofal dros diriogaeth Ei Mawrhydi yng Ngogledd Iwerddon, ar ran Pwyllgor Cyflawn y Cenhedloedd Unedig, At Ein Hufudd a Charuaidd:

**Syr David Potiffar Wynne**, Marchog Gadlywydd o Dra Ardderchog Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig, Cyn-lywydd Cymdeithas y Gyfraith;

**Syr Henry Mara**, Marchog Gadlywydd o Dra Ardderchog Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig, Is-ganghellor Prifysgol yn Ne-ddwyrain Lloegr;

**Ms Mary Mabel Mackenzie**, Swyddog o Dra Anrhydeddus Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig, a Chadeirydd Eglwysi Rhyddion Yr Alban;

**Dr Oswald Balaam**, Athro Cymdeithaseg Prifysgol yn Ne-ddwyrain Lloegr,

Cyfarchion.

YN GYMAINT ag inni farnu ei bod yn addas fod Comisiwn i gael ei gyhoeddi rhag blaen i ymchwilio i'r Mater a oes ynteu nad oes arwyddion yn y cyfnod diweddar fod Duw yn bod

GWYBYDDWCH ein bod ni, gan fawr ymddiried yn eich gwybodaeth a'ch gallu, wedi awdurdodi a phenodi, a'n bod trwy'r Hysbysiad hwn yn eich awdurdodi chwi, o dan Gadeiryddiaeth y dywededig Syr Potiffar Wynne, i fod yn Gomisiynwyr inni at bwrpas yr Ymchwil a nodwyd:

AC er mwyn hwyluso bwriadau'r Comisiwn hwn, yr ydym trwy'r Hysbysiad hwn yn rhoddi i chwi, neu unrhyw dri ohonoch, lawn awdurdod i alw ger eich bron unrhyw berson y byddwch chwi'n barnu a fydd yn debyg o gyfleu ichwi unrhyw wybodaeth ysgrifenedig, lafaredig, neu gyflwynedig mewn dull arall, a hefyd i alw am, a chaffael mynediad at a hawl i archwilio unrhyw ffeithiau a digwyddiadau a allo roddi ichwi'r wybodaeth lawnaf yngylch y Mater dan sylw.

EIN dymuniad yw eich bod chwi, gyda chyn lleied o oedi â phosibl, yn cyfleu inni eich barn ar y Mater a gyflwywyd yma i chwi ei ystyried er mwyn inni gael cyflwyno eich Adroddiad ar y cyryw Fater i Senedd Ei Mawrhydi.

RHODDWDYD yn San Steffan  
y Dydd Cyntaf Hwn  
o Fis Ionawr, 1999

B. KESH ANAN

*[Mae'r Cyhoeddwr yn symud o'r neilltu. Mae'r Comisiynwyr yn eistedd o gwmpas y bwrdd yn wynebu'r gynulleidfa. Mae Ysgrifenyddes yn bresennol hefyd.]*

WYNNE:

Gyfeillion, fe welwch fod ein gorchwyl – fel y diffiniwyd ef yn ein Comisiwn – yn mynd i fod yn un eithriadol o anodd. ‘Ymchwilio i’r Mater a oes ynteu nad oes arwyddion yn y cyfnod diweddar fod Duw yn bod’. Dyma ofyn inni edrych ar ein byd a cheisio penderfynu, o’r hyn a welwn ni, a ydi Duw yn bod neu beidio. Mae rhywun yn gofyn iddo’i hun ymhle y dylem ni ddechrau.

BALAAM:

Mi ddylem ni ddechrau efo’r gair ‘Duw’ a gofyn – ‘Pa Dduw’?

MACKENZIE:

Pa Dduw wir! Rydw i’n gobeithio nad ydym ni, Meistr Cadeirydd, ddim am gael ein tynnu i gors o fanion. Fe welith pawb y mae ganddo fymryn o synnwyr cyffredin mai am yr un hwnnw y mae pobol yn honni mynd i’w addoli mewn eglwysi a chapeli Cristnogol yr ydym ni i fod i ymchwilio.

BALAAM:

Ond ...

MARA:

Rhaid imi ddweud fy mod i’n cytuno â Mrs Mackenzie yma. ‘Dawn ni ddim i ‘nunlle os awn ni ati i ddechrau diwinydda, a stryffaglio i gymharu crefyddau. Mae cyfyngu ein sylw i Dduw y Cristnogion yn fwy na digon o dasg i fodau meidrol – ac rydw i’n cymryd ein bod ni, i gyd, yn fodau meidrol.

*[Mae Oswald Balaam yn siapio i ateb]*

WYNNE:

Cyn inni fynd i ddechrau dadlau, i fawr o bwrpas, gyfeillion, hwyrach y byddai hi lawn cystal inni ystyried yr hyn a welwn ni ac a glwyn ni wrth edrych ar ein byd ni yn y cyfnod diweddar yma a gweithio o fan’no, gan gymryd yn ganiataol – dros dro beth bynnag, yr Athro Balaam – mai ynglŷn â rhywbeth tebyg i’r hyn y gallwn ni ei alw’n llac yn ‘syniad Cristnogol am Dduw’ y byddwn ni’n ymhel.

Rydw i yn barod yn barod iawn, i gyfaddef fod y syniad hwn yn un llawer rhy annelwig i fodloni athronwyr, ieithyddwyr, diwinyddion, a chymdeithasegwyr – heb sôn am ddilynwyr crefyddau eraill – ond fe gofiwch chi mai ymchwilio i’r mater o Dduw ar gais gwleidyddion yr ydym ni wedi cael ein cynnull ynghyd, ac mai pethau sydd yn ddealladwy ac uniongyrchol i’r cyhoedd ydi eu diddordeb nhw. Felly, a gawn ni fynd yn ein blaenau gan gadw hynny mewn cof. Fe ddylem ni ddilyn delfrydau ein gwleidyddion a meddwl mewn modd cyffredinol, anarbenigol, dealladwy.

BALAAM:

Wel os mai fel yna’r ydych chi a gweddill y panel yma yn ei gweld hi, mi fydd yn rhaid i mi gydymffurfio, ond rydw i am fynnu nodi yma fy anghytundeb ffurfiol â’r dull annigonol hwn o fynd o’i chwmpas hi.

WYNNE:

Ar bob cyfrif. [*Gan droi at yr Ysgrifenyddes*] Nodwch hyn'na i gael sylw arbennig, Miss Jones.

BALAAM:

Gyda'ch caniatâd, Meistr Cadeirydd, mi hoffwn i glywed darllen y cofnod yna yn ei ôl imi, er mwyn imi fod yn hollol dawel fy meddwl ynghylch y mater yma o'r dechrau un.

MACKENZIE:

Neno'r tad, mi fyddwn ni yma hyd dragwyddoldeb ...

MARA:

Pryd y setlir y mater o fodolaeth Duw drosom ni, yn derfynol!

MACKENZIE:

... os mai fel hyn yr ydym ni am fynd o'i chwmpas hi.

WYNNE:

Gyfeillion, dipyn o ras, os gwelwch yn dda. Miss Jones, wnewch chi ddarllen eich cofnod o'i eiriau yn ôl i'r Athro.

MISS JONES:

Nododd yr Athro Balaam ei fod yn anghytuno â'r dull annigonol o ddiffinio Duw a dderbyniwyd gan y panel.

WYNNE:

Wnaiff o'r tro?

BALAAM:

Iawn. Diolch.

WYNNE:

Dyna ni ynteu. Mi awn ni yn ein blaenau.

MACKENZIE:

I ddechrau.

WYNNE:

Ie, Mrs Mackenzie, i ddechrau. Fel y dwedais i gynnau, mae hi'n anodd i ddyn wybod ymhle y mae dechrau ond, gyfeillion, y mae'r dechrau wedi'i roi inni, ar blât. Y mae gen i yma lythyr gan Gadeirydd y Bwrdd Masnach a Hysbysebu yn gofyn am gael dod ger ein bron. Rydw i wedi bod mor hy â gofyn iddo fo ddod yma heddiw er mwyn inni gael gweld be sydd gan y gŵr yma i'w ddweud. Gyda'ch caniatâd chi, gyfeillion, a gawn ni alw arno fo i ddod i mewn?

*[Mae pawb yn nodi eu cydsynied]*

Diolch. Miss Jones, wnewch chi ofyn i Miss Vaughan anfon Mr Howard Hawk i mewn, os gwelwch yn dda.

*[Mae Miss Jones yn siarad i gysylltffon. Daw Howard Hawk i mewn. Mae'n ddyn busnes, bob blewyn ohono, wedi'i wisgo'n raenus mewn siwt ddu a chyda sglein*

*lachar ar ei esgidiau duon. Mae Wynne yn ysgwyd llaw ag o, ac yn ei gyflwyno i aelodau'r panel.]*

Mr Howard Hawk – Mrs Mary Mackenzie, Syr Henry Mara, Yr Athro Oswald Balaam. Eisteddwch.

*[Mae Hawk yn eistedd. Dylai fod ar led ochor fel ei fod yn gwbl weladwy.]*

Rhaid imi gyfaddef, Meistr Hawk, nad ydi hi ddim yn gwbl eglur i mi pam y dar'u chi fod mor eiddgar o wirfoddol i ddod gerbron y panel hwn. Ond dyna fo, mi gewch chi esbonio inni.

HAWK:

*[Tueddu i sarad yn gyflym, slic, ond cwbl eglur.]*

Mae'n dda, yn dda iawn gen i, ar ran y Bwrdd Masnach a Hysbysebu, fod wedi cael y cyfle hwn i ddod yma. Ychydig fuasai'n meddwl – fel yr ydych chi wedi nodi eich hun, Meistr Cadeirydd, mewn ffordd – fod a wnelo'n Bwrdd ni fawr ddim â mater eich ymchwiliad chi ond, ac y mae hwn yn OND mawr, y mae gan ein Bwrdd ni dystiolaeth, yn wir tystiolaethau, a fydd, fel y gwelwch chi, o bwys sylweddol i chi yn eich trafodaethau. Y mae gan ein Bwrdd, sy'n wastad yn barod i estyn cymorth i unrhyw – a phwysleisiaf unrhyw – gorff a all fod, mewn unrhyw fodd, o les i'r gymdeithas yr ydym ni'n byw ynddi.

MARA:

Gyda phob parch, Mr Hawk, beth yn hollol sydd a wnelo Duw â sebon? Beth sydd a wnelo Duw â marjarîn?

HAWK:

Mae'n dda gen i eich bod chi wedi gofyn y cwestiwn yna, yn dda iawn gen i eich bod chi wedi'i ofyn o; y mae o'n gwestiwn a ddylai, ar bob cyfrif, gael ei ofyn ...

MARA:

Wel?

HAWK:

Wel, fel hyn y mae hi, mewn gair: i ni, i'n Bwrdd ni, y mae Duw'n bod neu ddim yn bod yn ôl barn y bobol. Hynny ydi, y mae o'r pwys mwyaf i ni a ydi Duw'n bod neu beidio er mwyn busnes a marchnata a, wyddoch chi, y pethau cyntaf, y pethau sylfaenol – bara beunyddiol ac ati. A dweud y gwir, y mae ein hymchwilyr ni wedi bod wrthi'n nodi, fel petai, be ydi ysbryd yr oes, yn ôl barn y bobol, a hynny ers tro byd, ac yn dra rheolaidd, tra rheolaidd. A chyda'ch caniatâd chi, mi fyddai'r Bwrdd yn falch, yn wir yn fwy na balch, o gyflwyno i'ch sylw chi ein tystiolaeth ni am farn y bobol, a hyn yn rhad ac am ddim.

WYNNE:

Purion. Dydw i ddim yn meddwl fod yna neb yma a fyddai'n gwrthwynebu eich cais. *[Gan edrych ar ei gyd-banelwyr]* Yn wir, yr ydym yn diolch ichwi am eich parodrwydd i gynnig ffrwyth eich llafur inni fel hyn.

*[Distawrwydd]*

Wel, Mr Hawk, beth amdani; beth am y dystiolaeth, neu'r tystiolaethau? Oes gennych chi rywbeth penodol i'w ddweud wrthym ni, neu rywbeth yr hoffech chi inni ei ddarllen?

HAWK:

O oes, mae gen i dystiolaethau ein Bwrdd i'w gosod ger eich bron, ond does gen i ddim byd i'w ddweud wrthych chi rwan, na dim byd ichwi i'w ddarllen.

WYNNE:

Ond roeddwn i'n meddwl fod y tystiolaethau hyn ar gael!

HAWK:

O, y maen' nhw ar gael. Ond nid ar gael yn y ffordd arferol. Rydych chi'n gweld, yr ydym ni, fel pobol fusnes, yn gweithio trwy hysbysebion i'r fath raddau fel y byddai'n well gennym ni, yn llawer gwell gennym ni, gael cyflwyno ein tystiolaethau ichwi yn ein dulliau arferol – mi wyddoch sut y mae hi.

MARA:

Sut yn union y mae hi?

HAWK:

Wel, fel y dwedais i, rydym ni, fel aelodau o'r Bwrdd Masnach, wedi arfer, wedi hen arfer, gweithio trwy gyfrwng hysbysebion – dyna'n dull ni o gyfleu gwybodaeth i'n holl brynwyr-posib – maddeuwch imi – i aelodau'r cyhoedd, i'r gymdeithas. O ganlyniad, fe hoffem ni gyflwyno ichwi ein tystiolaethau ni yn ein ffordd arferol ni, sef, ar lun hysbysebion – ffordd sy'n cyfleu llawer iawn mewn ychydig, os ca i ddweud. Crynoder ac uniongyrchedd ydi ein nod ni.

MACKENZIE:

A ydw i'n eich deall chi'n iawn? Ar ffurf hysbysebion yr ydych chi am gyflwyno inni dystiolaethau eich Bwrdd?

HAWK:

Yn union, Madam – dyna fyddai'n fwyaf naturiol inni. Wrth gwrs, os nad ydi hyn yn dderbyniol gennych chi a'ch cyd-banelwyr fe fyddem ni, wrth reswm, yn barod, yn fwy na pharod, i'w cyflwyno nhw mewn ffordd arall a fyddai'n fwy derbyniol gennych chi.

WYNNE:

Does dim rheid, mi dderbyniwn ni eich tystiolaethau chi yn y ffordd y don' nhw.

HAWK:

Diolch yn fawr, yn fawr iawn.

*[Distawrwydd]*

WYNNE:

Wel, ble mae'r tystiolaethau yma, ynteu?



HAWK:

Ie, wel ... Fel y gwyddoch chi, ein dull ni o weithio ar y gwasanaeth teledu – a'r radio, o ran hynny – y dull mwyaf effeithiol, fel y mae ein hymchwil i ymateb y cyhoedd yn dangos yn eglur, ydi rhoi pytiau yma ac acw. O weithio fel yma y mae'r neges yn cael ei chyfleu'n gryno a chwbl eglur. Gyda'ch caniatâd chi, unwaith eto, fe hoffem ni gyflwyno ein tystiolaethau ichwi yn ein dull arferol, sef yn fyr a chryno a darluniadol rhwng pa bynnag dystiolaethau eraill y byddwch chi'n eu derbyn.

BALAAM:

Mae hyn yn dra anarferol.

WYNNE:

Ydi, y mae o. Ond, wedyn ... wel, os nad oes yna neb yn gwrthwynebu? [*Edrych ar aelodau'r panel. Does dim gwrthwynebiad.*] Wel, fe ganiatawn ni eich cais chi.

HAWK:

Un peth arall. Gyda phwnc sydd, neu a all fod o bosib, yn sanctaidd, y mae ein pobol ni wedi dangos – ac rydw i'n siwr y cytunwch chi – chwaeth anarferol o dlws a sensitif trwy osod allan ein tystiolaethau ni am ysbryd yr oes, fel petai yntê, mewn perthynas â'r Beibl. Roeddem ni'n meddwl y byddai rhwy gyffyrddiad bach fel'na'n dderbyniol ac yn dangos chwaeth dda.

WYNNE:

Dyna'r cyfan felly, Mr Hawk?

HAWK:

Ie, mewn ffordd o siarad, dyna, yn sicir, y cyfan.

WYNNE:

Diolch yn fawr ichi, a chyflewch – os gwnewch chi – ein diolch i'ch Bwrdd hefyd. Fe ddisgwyliwn ni eich tystiolaethau chi yn y modd y dar'u chi ddweud eich bod chi am eu cyflwyno nhw.

HAWK:

Diolch yn fawr iawn i chi i gyd, a phnawn da, felly, ichi i gyd.

[*Exit*]

WYNNE:

Wel, dyna ni ddechrau ar bethau. Mi awn ni, rwan, yn ein blaenau i edrych ar ein byd ni yn y cyfnod diweddar hwn ac i chwilio ynddo fo am arwyddion o fodolaeth Duw, neu o ddiffyg bodolaeth Duw.

## Y DYSTIOLAETH GYNTAF

*[Dylid ei gwneud hi'n eglur, un ai trwy blacard yn dweud hynny, neu, yn well, trwy Gyhoeddiad, mai hon yw 'Y Dystiolaeth Gyntaf'. Dylid gwneud hyn gyda phob Tystiolaeth a Hysbyseb arall hefyd.]*

*[Dylid cyfleu argraff glinigol o Labordy]*

GWYDDONYDD: *[Mewn cot wen]*

Pa beth yw dyn?

Dywedaf – asiad o esgyrn ac organau,  
gwythiennau, nerfau, gwaed a chroen;  
y mecanyddwaith perffaith.

Bellach y mae'r byd yn gwybod  
am drawsblannu calonnau o'r naill berson i'r llall  
ac am gyfnewid arenau.

Yn ôl pob tebyg,  
nid ydyw hyn ond dechrau.

A da ydyw.

Da ydyw yn wir –

os ydych chi mewn lle i'w fforddio.

Eithr y mae yna broblemau, diddorol.

Yn ein dynol wead y mae yna weithgaredd –  
sy'n deillio, y mae'n fwy na thebyg, o'r gland thymis,  
wrth fôn y gwddw –

sy'n ystyfnig o bendant am gadw

dyn a dynes yn fo, neu yn hi, ei hun.

Mae'r gland yn dra llygadog,  
yn adnabod croen ei pherchennog,  
yn ffyddlon i'w arenau,  
ei galon a'i holl organau.

Ond,

mewn arbrofion ar anifeiliaid

mae symud y gland dan sylw

yn dileu'r ymateb hwnnw.

Ac y mae yna hefyd, wyddoch,

gyffuriau sy'n medru lleihau gwrthodedigaeth y corff.

Fe welwch y posibiliadau.

Yn ôl y dull hwn o drawsnewid

y mae, wrth reswm, yn rhaid

cael gwahanol organau i gyflawni y gwahanol ofynion.

Bydd yn angenrheidiol cael pobol weddol ifanc

a'r rheini newydd farw –

a rhai heb farw o salwch a allai effeithio

ar yr organau a dynnir ohonyn nhw.

Er enghraifft, ystyriwch galonnau:

rhai a fu'n eiddo i greaduriaid a fu farw  
o glefydon sydd ddim yn tarfu ar y galon,  
y rheini a fyddai yn addas,  
neu rai o gyrff heb oeri o ddamweiniau.  
Diau y gellir, cyn bo hir,  
gasglu y cyfryw rai i ganolfannau –  
neu galonfannau, os maddeuwch chi'r gair –  
sef mannau nid annhebyg i fanciau  
a fyddai, wedyn, yn rhannu calonnau  
yn ôl y galw.  
'Mae 'nghalon yn eiddo i Blodwen' –  
fuaswn i ddim, yn y dyfodol,  
yn cynghori neb i ganu'r geiriau yna'n or-hyderus:  
does gan neb le i fod yn rhy 'galonnog' – os ca i ddweud –  
yn y pethau hyn.  
Ond, wedyn, y fath orchestwaith  
fydd y cwbl!

Ystyriwch yn awr bethau mor gyffredin â rhyfeloedd –  
mae yna rywun byth a hefyd yn yr hen fyd yma  
yn ceisio lladd rhywun arall, ac yn llwyddo;  
wel ystyriwch y cyfle a fydd yna o bethau felly:  
llaw yma,  
troed acw,  
pennau.  
Yna gweithio y rhain i'w gilydd,  
asio'r elfennau a chreu dyn newydd!

Ffôn yn canu!  
A dyna ein dyn newydd yn dywedyd rhif ei ffôn.  
Llais ar y pen arall yn holi,  
'Efo pwy rydw i yn siarad, plis?'  
Ateb: 'Y Capten Ffred Henry,  
Lifftenant Joe Anderson,  
Sarjant Martin O'Grady,  
Y Preifat Huw Jones.'  
Mi fydd yn anodd i rywun wybod  
a ydi o'n siarad efo dyn  
ynteu efo rhan o fataliwn,  
neu gynrychiolaeth o'r Cenhedloedd Unedig!

Maddeuwch y mymryn ysgafnder,  
ond y mae'n rhaid i ddyn wrth hiwmor on'd oes,  
neu sut le fyddai yna ar yr hen ddaear yma, yntê?

Nid dyna'r unig ddull,  
nid dyna'r unig ddull  
o roi dyn wrth ei gilydd.  
Meddyliwch chi am gar:  
mi ellwch chi wneud car o wahanol ddarnau

o geir sydd wedi malu,  
er nad dyna'r ffordd ddelfrydol,  
ac nad fel'na y byddai  
y rhan fwyaf ohonom ni eisio  
ein ceir.  
Ond ystyrwch eich ceir –  
Os bydd y deinamo wedi mynd tu hwnt i unrhyw drwsio,  
be wnewch chi ag o?  
Wel galw yn y garej a chael yno ddeinamo newydd.  
Pam, pam na chawn ni garej gyrff?  
Fe ellir, wyddoch chi, dyfu organau  
o gnodwe embrionig.  
Yn Lloegr, yn barod, y mae esgyrn mân morddwyd,  
wedi eu tynnu o embryo,  
wedi tyfu i faintioli llawer mwy  
na'u maintioli gwreiddiol –  
a dyna inni ddefnydd purion i'r holl fabanod hynny  
y terfynir eu bodolaeth cyn eu genedigaeth.  
Yn Ffrainc fe dyfwyd manwe embrionig  
a ddatblygodd yn groen!  
Y maen nhw yno'n awr yn gweithio  
ar dyfu llygaid.  
Ellwch chi weld gardd o beirianyddwaith cyrff,  
gydag esgyrn yn tyfu fel cwcwmerau,  
a llygaid yn magu fel letus?  
A'r cwbl i gynhyrchu rhannau sbâr i'n cyrff!

A! Y fath ddarn o waith yw dyn!  
Mor gain gymalog!  
Mor gymhleth ei organau!  
Ei siâp a'i symud sy'n gysact a theg ragorol!  
Wrth ei waith, – yn well na watj!  
O ran ei ddeall, – fel compiwtor!  
Coron yr holl gread, y peirianyddwaith pur, perffeithiaf!

## HYSBYSEB UN

*[Dylid cael cerddoriaeth a synau hysbysebol priodol, a lluniau priodol trwy dapio hysbysebion addas – yma hysbysebion teiars]*

### LLAIS:

Mae yna fwy o sgôp

I'r dyn sy'n mynd ar DYNLOP.

Dyma ydi'r teiars

Sydd ar Gerbyd yr Iachawdwriaeth!

## YR AIL DYSTIOLAETH

*[Ystafell antiseptig a gwyn yr olwg. Mae Carcharor yn eistedd mewn cadair. Mae'n edrych yn gwbl naturiol, ond ei fod, trwy gydol yr olygfa, yn ddista, ond pan y mae'n ateb y Carcharydd. Y mae ei Garcharydd yn gwmpas wrth siarad â'r gynulleidfa.]*

### CARCHARYDD:

Dyma ichi garcharor.

Dyma ichi elyn y Wladwriaeth.

Dyma ichi ŵr sydd wedi sgrifennu llenyddiaeth oedd yn groes i ddaliadau ein Llywodraeth.

Dyma ichi ddyn anystywallt,

dyn anodd iawn ei drin,

dyn efo'i feddyliau a'i deimladau ei hun.

Y mae yna bobol felly –

ddim cymaint rwan ag oedd yna unwaith –

ond y mae yna rai'n bod o hyd.

Bygythiwch chi eu bywoliaeth nhw

oni fyddan nhw'n barod i ufuddhau i orchymynion

cwbwl resymol a llesol y Wladwriaeth,

cadwch nhw dan warchae yn eu tai,

tynnwch nhw oddi wrth eu teuluoedd,

brwiwch nhw i garchar,

ac fe fynnan nhw ddal ati –

yn groes i bob rheswm –

yn eithafol o wahanol i deimladau a chysur y mwyafrif.

Be wnewch chi efo pobol fel hyn?

Eu lladd nhw?

Wel, y mae hynny'n bosib –

fel y bu hynny, bob amser, yn bosib –

ond y mae yna rywbeth yn wag mewn ennill felly.

Ac fe ellwch chi greu merthyron –

er nad oes yna fawr o beryg i hynny ddigwydd bellach.

Ond fe wyddoch chi sut y mae pobol,

yn holi ble mae rhywun ac ati.

Rydym ni wedi arfer clywed am yr holl holi sydd yna

am greadur fel hwn, yn fan'ma,

a'r holl gyhuddo a sôn am heddlu cudd –

yr ydym ni wedi hen arfer delio efo pethau felly,

ond fe all y gorau ohonom ni fethu.

A phetaem ni'n methu,

wel, fe fyddai yna'r posibilrwydd

o gael rhai eraill tebyg i hwn,

rhywun gwahanol,

rhywun yn teimlo'n gryf dros ryddid,

chwedl yntau,

dros ffordd o feddwl, dros ddilwylliant –

yr un hen arferol bethau hynny –

ac yn creu ychydig gynnwrf.  
Dydym ni ddim yn hoffi cynnwrf.  
Wel, bellach, ateb eithafol,  
heb fod yn angenrheidiol,  
ydi cael gwared o ddyn.

Wedyn meddylwch am eraill o'r hen ddulliau –  
arteithio,  
tynnu ewinedd rhywun efo gefail,  
ei bastynnu o ar bolyn,  
ei ymestyn o ar glwyd,  
a phethau eraill gwaeth na'i gilydd –  
hyd yn oed rostio pobol er mwyn eu newid nhw,  
eu cadw nhw heb gwsg a heb ddŵr,  
neu geisio'u hennill nhw efo dulliau seicolegol.  
Hen ffasiwn bellach,  
Heb sôn am fod yn ddi-chwaeth.

*[Saib. Dangos gwifren.]*

Dyma ichi wifren – electrod.  
Mae hi'n rhy fain, efallai, ichi ei gweld hi,  
oni bai eich bod chi'n cael cip ar ei disgleirdeb hi  
yn y golau.

Efo sment deintyddol  
fe ellir cysylltu gwifren fel hon  
wrth soced yn asgwrn y benglog,

*[Dangos yr union fan ar wegil y Carcharor]*

ac wedyn gyrru llif bach o drydan i rannau arbennig o'r ymennydd.

Fe synnech chi'r gwahaniaeth y mae'r wifren fechan hon  
yn ei wneud i feddwl dyn.

Fe alla i, er anghraifft,  
wneud i hwn fod yn gwbl eofn efo llew,  
ac arswydo rhag llygoden.

Mae'r wifren,  
rydych chi'n gweld,  
yn newid meddwl dyn.

Gwrandwch. *[Troi at y Carcharor a gofyn iddo]* Beth, rwan, am y Wladwriaeth?

CARCHAROR: *[Mae'n siarad yn gwbl naturiol]*

Y Wladwriaeth ydi'n mam ni  
ac y mae hi, yn wastadol,  
yn gweithredu o blaid y bobol.  
Gwedd allanol ar ein hewyllys ni ydi hi, mewn gwirionedd;  
ei hawdurdod hi ydi'n hawdurdod ni,  
ei dymuniadau hi ydi'n dymuniadau ninnau,  
ei bywyd hi ydi'n bywyd ninnau.  
Hi ydi ffynnon ein ffyniant.

CARCHARYDD:

Dyna fo. ‘Mam’ a ‘ffynnon’ –  
A!, wel, llenor rydych chi’n gweld,  
Yn dal i lefaru yn ei hen ffordd.  
Fe sylwasoch chi, hefyd, ar ei frawddeg cysact, cymesur,  
ar odlau ac yn y blaen –  
llenor ydi hyn’na rydych chi’n gweld.  
Pe bai o’n ffermwr neu’n drydanwr  
mi fyddai ei eiriau o’n wahanol,  
ond mi fyddai o’n dal i ddweud y pethau pwysig.

Cwbwl naturiol, welwch chi;  
dim rhwy wifrau o gwmpas ei ben,  
dim cap gwyn,  
dim golwg gwag ar ei wyneb o,  
dim dieithrwch.  
Fe aiff o’n ei ôl at ei bobol  
ac fe fydd popeth yn iawn,  
popeth o’r gorau.

Rydych chi’n gweld nad oes dim angen distrwyio dyn.  
Rhyw ymwybod ffug-foesol oedd yn blino hwn –  
wel, doedd ar y Wladwriaeth ddim eisio ei ddifetha fo  
na’i ddawn lenyddol o,  
na’i fywyd teuluol o,  
ddim eisio ei garcharu o chwaith:  
dydi pethau fel’na ddim yn rhesymol.  
Rwan mi fydd yn ddyn hapus.  
Yn wir, synnwn i ddim nad ydi ei ben o,  
y funud yma,  
yn berwi o gynlluniau am storïau byrion, neu nofel,  
neu rywbeth felly.

Dyna ni, tyrd rwan, frawd,  
mae hi’n bryd iti fynd adre.  
*[Mae’r carcharor yn codi a mynd allan. Y Carcharydd yn ei ddilyn. Cyn mynd o’r  
golwg, y mae’n aros.]*  
Dymunol. Dymunol iawn wir.  
*[Gwenu. Yna mynd allan.]*



## HYSBYSEB DAU

### LLAIS 1:

Gwae fi, canys darfu amdanaf,  
oherwydd gŵr halogedig ei wefusau ydwyf fi,  
ac ymysg pobol halogedig o wefusau yr ydywf yn trigo.

*[Jingl o gerddoriaeth lon. O bosib llun mawr o ddannedd.]*

### LLAIS 2:

Yr hyn sy arnoch chi i gyd ei eisiau  
ydi ES AR,  
ES AR i belydru eich gwenau  
a hyfrydu eich geneuau;  
a hynny am ddeuddeg awr ar y tro.

ES AR ydi'r sebon i'ch dannedd a'ch geneuau chi:  
ES AR, ES AR, ES AR.

## Y DRYDEDD DYSTIOLAETH

*[Datgan neu ddangos yn eglur mai hon yw'r Drydedd Dystiolaeth. Gellir dangos fideo o gofnodion am bob un o'r trychinebau y cyfeirir atynt yn y Dystiolaeth hon.]*

### LLAIS 1:

Gorffennaf, Un Naw Pedwar Dau hyd ddiwedd Un Naw Pedwar Tri: un o'r canolfannau crynhoi carcharorion a sefydlwyd gan y Natsiaid yng Ngwlad Pwyl.

Ar ôl i'r tren ddadlwytho yn y seidin

roedd y carcharorion yn cael eu cynnull i un man

lle'r oedd yn rhaid iddyn nhw dynnu amdany'n,

tynnu eu dillad, tynnu eu hesgidiau.

Gwnâi'r dynion hyn yn yr iard,

a'r gwagedd a'r plant mewn cwt gerllaw.

Yna roedd gwallt y merched i gyd yn cael ei eillio,

ac wedyn byddai'r rheng gyfan,

yn wragedd, a dynion, a phlant –

a hwythau yn awr yn noeth ac wedi eu cneifio –

yn cael eu gyrru ar hyd y ffordd i'r siamberi nwy,

a'r cwblw ohonyn nhw yn meddwl eu bod yn mynd i gael bath.

Pan gyrhaedden nhw'r siamberi marwol

fe'u gyrrid nhw i mewn gyda'u dwylo uwch eu pennau –

fel y gellid cael cymaint fyth ag y gellid ohonyn nhw i mewn.

Roedd y plant yn cael eu codi a'u llwytho dros bennau u bobol mewn oed.

Weithiau roedd y rhai bach yn cael eu lladd i ddechrau.

Roedd un aelod o'r S.S. yn arbenigwr ar hyn;

byddai'n gafael yn y bychain gerfydd eu coesau

ac yn eu lladd ag un ergyd i'w pennau yn erbyn y wal.

Parhai'r broses o fygu y dyrfa yn y siamberi nwy

am ryw chwarter awr,

a phan ystyrid eu bod nhw i gyd wedi marw

fe agorid y drysau ac fe orfodid

y criw o weithwyr Iddewig i mewn

i'wsymud nhw, a pharatoi'r siamber

am lwyth arall.

*[Saib]*

### LLAIS 2:

Am chwarter wedi wyth yn ôl amser Japan,

ar fore y chweched o Awst, Un Naw Pedwar Pump,

uwch Hiroshima y gwelwyd fflach lachar, lachar

a seriodd i hanes y byd.

### LLAIS 3:

Gwŷr, gwagedd, plant –

Tirgain mil: lladdwyd.

### LLAIS 2:

Gwŷr, gwragedd, plant –  
Can mil: clwyfwyd.

LLAIS 3:  
Porthladd,  
Dinas o chwarter miliwn o eneidiau: difawyd.

LLAIS 2:  
Rhedodd Meistr Tanimoto yr holl ffordd,  
ac ar ôl croesi Pont Coi a Phont Cannon  
gwelodd fod y tai i gyd wedi eu chwalu,  
a bod llawer ohonyn nhw ar dân.  
Roedd y coed yn noeth ac yn ddu.  
Ceisiodd fynd i mewn i rai o'r adfeilion,  
ond methodd oherwydd y fflamau.  
Roedd yr awyr yn llawn o sgrechian.  
Cloffai ac ymlusgai pobol wedi eu clwyfo  
heibio i'r holl drueni, yn gweiddi.  
Fel Cristion, roedd Meistr Tanimoto'n cael ei lethu gan dosturi  
wrth y rhai oedd wedi eu dal yn y distryw,  
ac, fel Jiapanead, roedd yn cael ei lethu gan gywilydd  
am ei fod o yn ddianaf.  
Fel y rhedai, gwaeddai,  
'Duw helpa nhw,  
a thynna nhw o'r tân'.

LLAIS 4 [*Geneth tua deuddeg oed sy'n llefaru*]  
Y diwrnod cyn y bom mi es i i weld y môr,  
ac mi gefais i gnau mwnci.  
Roedd yn ddiwrnod braf iawn.  
Y bore wedyn mi welais i olau mawr,  
mi gafodd fy chware bach ei thaflu am fy mhen i.  
Bu'n rhaid inni ddisgwyl nes i'r bobol ein cael ni'n rhydd,  
ac wedyn 'allwn i ddim gweld ddim pellach na'r tram.  
Mi helpais i Mam i hel ein pethau ni at ei gilydd.  
Roedd pobol yr oeddem ni'n eu nabod yn cerdded o gwmpas  
wedi llosgi ac yn gwaedu.  
Gofynnodd Hataia-sân imi redeg i ffwrdd efo hi,  
ond mi ddwedais i fod arna i eisio mynd efo Mam.  
Mi aethom ni i'r parc.  
Cododd yn wynt mawr.  
Yn y nos, roedd y tanc nwy'n llosgi,  
ac mi wleais i ei lun o yn y dŵr.  
Mi ddaru ni aros yn y parc y noson honno.  
Y bore wedyn, mi es i at y bont a chyfarfod fy ffrindiau,  
Cicwci a Mwracami.  
Roedden nhw yn chwilio am eu Mamau.  
Ond roedd Mam Cicwci wedi brifo,  
A ddaeth neb o hyd i Fam Mwracami.  
Mae'n siwr ei bod hi wedi marw.

[Saib]

LLAIS 2:

Awst yr Ugeinfed, Un Naw Chwech Wyth: Czechoslofacia.

LLAIS 3:

Yn ystod y nos symudodd milwyr yr Undeb Sofietaidd  
a'u Cynghreiriaid  
i mewn i Czechoslofacia.

Arestiwyd arweinydd y Blaid yn y wlad, Dubcek;  
arestiwyd Prif Weinidog y wlad, Cernik, ac aelodau eraill o'r Llywodraeth;  
cadwyd Llywydd y wlad, Svoboda, o'r neilltu mewn castell.

Daeth tanciau i styrdoedd Prâg.

Cafodd y rhai a fu'n curo tanciau –

â'u dynau noeth –

y cysur o glywed y geiriau hyn yn cael eu llefaru gan

Arlywydd yr Undeb Sofietaidd, Kosygin SIEC:

LLAIS 2:

'Dros dro y mae milwyr yr Undeb Sofietaidd  
i aros yn y wlad,

a hynny er mwyn sicrhau ei diogelwch hi

a diogelwch ei buddugoliaethau sosialaidd,

ac i gadw yn ddiogel fuddiannau yr holl gymuned sosialaidd  
rhag ymyrraeth gan luoedd Imperialaeth ac Adwaith'.

[Saib]

LLAIS 1:

Datganiad gan Wasanaeth Gwybodaeth Unol Daleithiau America, Ionawr Un Naw  
Saith Dim.

Ystadegau ynglŷn ag Americanwyr yn Fiet-nam hyd ddiwedd Mil Naw Chwe Naw.

LLAIS 3:

Lladdwyd: Tri Deg Naw o Filoedd, Naw Cant, Saith Deg a Naw.

LLAIS 2:

Anafwyd: Dau Gant Chwe Deg a Dau o Filoedd, Pum Cant, Dau Ddeg a Chwech.

LLAIS 3:

Carcharwyd: Pedwar Cant, Dau Ddeg a Dau.

LLAIS 2:

Collwyd: Naw Cant, Tri Deg a Dau.

LLAIS 1:

Ystadegau ynglŷn â milwyr De Fiet-nam.

LLAIS 3:

Lladdwyd: Naw Deg a Naw o Filoedd, Pum Cant, Pedwar Deg a Phedwar.

LLAIS 1:

Ystadegau ynglŷn â milwyr y Gelyn.

LLAIS 2:

Lladdwyd: Pum Cant ac Wyth Deg a Chwech o Filoedd, Pum Cant, a Phedwar Deg a Thri.

CÂN

Yn Chwe Deg Naw,  
Yn Chwe Deg Naw, yn hwyr  
Ar noson braf o Fai,  
A hynny mewn bocs awyr,  
Daeth Harri Abraham yn ôl,  
Yn ôl o Fiet-nam,  
I wlad ei dad, i wlad ei fam,  
Yn Chwe Deg Naw.

Yn Chwe Deg Naw  
Yn Chwe Deg Naw, yn hwyr  
Ar noson braf o Fai,  
Daeth eroplên o'r awyr,  
Daeth mab i dad, a mab i fam  
Yn ôl o Fiet-nam  
Yn dawel, fud, diwybod,  
Yn Chwe Deg Naw.

Yn Chwe Deg Naw,  
Yn Chwe Deg Naw, yn hwyr  
Ar noson braf o Fai,  
A hynny mewn bocs awyr,  
Daeth un o'r Deugain Mil yn ôl,  
Yn ôl o Fiet-nam  
I orwedd yn y ddaear oer,  
Yn Chwe Deg Naw.

*[Saib]*

LLAIS 1:

Awst, Un Naw Saith Naw: Belfast.

LLAIS 3:

Plant.

Plant bach yn chwarae – John a Joanne;  
Ac Andrew, y baban,  
Y baban bach gyda hwy.

Rhyngddynt, rhwng y tri ohonynt,

Yr oedd yno ddeng mlynedd  
A chwech wythnos o einioes:  
John a Joanne,  
Ac Andrew, y baban.

A daeth rhai  
Yn haearn a gwydyr a phlastig eu modur  
Yn cario gynnuau,  
Bwledi, gwifrau bomiau,  
Pwdrwr du,  
A'u dwylo eisoes yn goch gan angau;  
A daeth rhai i ddileu plant;  
John a Joanne,  
Ac Andrew, y baban.

Yna aethant,  
Yn ôl i'r concrit a'r gwydyr,  
I'r ddinas archolledig  
I fwyta, i gysgu, i fyw  
Fel pe na bai yn eu calonnau  
Angau John, angau Joanne,  
Angau Andrew, y baban bach;  
Plant.

Ac uwch galar y tyrfaoedd,  
Uwch y rhai a oedd  
Yn plygu dros y marw  
Yr oeddynt hwy yno eto  
Yn chwifio baneri eu cynddaredd,  
Y rheini sy'n medru bwyta,  
Yn medru cysgu, yn medru byw  
Ar ôl lladd plant.

[Saib]

LLAIS 1:  
Detholiad yn unig o drychinebau  
ydi hyn.  
Fe ellid, fel y da gwyddom ni,  
fod wedi amlhau enghreifftiau.  
Mae hynny yn ddibwrpas  
gan mai sefydlu rhai o batrymau sylfaenol  
ein hymddygiad dynol  
a wna'r holl achosion unigol  
a grybwyllwyd yma.

Newidiwch enwau,  
newidiwch amserau,  
a bydd gennych ddigonedd o enghreifftiau –

o amser a fu,  
o amser ysydd,  
o amser a ddaw, am oesau –  
i gadarnhau'r egwyddor  
a ddynodwyd ichwi yma:  
Natur dyn ydi difa.

HYSBYSEB TRI

LLAIS:

Duw a drugarhao wrthym,  
a ninnau wedi anghofio ordro FUM.

Heb FUM, heb ddim.



## Y BEDWAREDD DYSTIOLAETH

*[Mae'r Dystiolaeth hon wedi ei gosod mewn Stafell Oruchwyllo Teledu – efo amryw fonitorau – yn America. Trafod y ffordd orau o gyflwyno gwleidydd i gael ei ethol fel Arlywydd yr Unol Daleithiau y mae'r ddau yn y Dystiolaeth hon. Enwau'r ddau ydi Joe Truman ac Al Vero.]*

JOE:

Fe allai pethau fod yn waeth, Al.

AL:

Ar y rhaglen 'Man Cyfarfod' yma?

JOE:

Man cyfarfod Arlywydd nesaf America.

AL:

O bosib, Joe – er mai Truman ydi dy gyfenw di – o bosib. Mae llawer iawn, iawn yn dibynnu arnom ni.

JOE:

Mi wn i hynny, mi wn i hynny, Mr Vero: y mae ein cyfrifoldeb ni'n fawr.

AL:

Yn fawr iawn, ein tasg ni ydi cyflwyno'r dyn, yr ymgeisydd anrhydeddus hwn, fel y bydd ganddo fo obaith ennill lecsiwn.

JOE:

Abe Jackson: dyma fo y Dyn, dyma fo Arlywydd nesaf Unol Daleithiau America ...

AL:

O bosib ...

JOE:

... yn wynebu'r bobol yn eu tai trwy'r cyfrwng cyfathrebu mwyaf pwerus a fu erioed, y teledydd, yn y rhaglen fwyaf sylweddol, fwyaf poblogaidd yn y wlad!

AL:

Gwir y gair, ond y mae'n rhaid inni fod yn felltigidig o ofalus. Doeddwn i ddim yn meddwl fod yr hen Abe yn edrych yn rhy estra yn ambell un o'n siotiau cyntaf ni. Doedd uchder y camera ddim yn iawn; roedd ei ben o'n edrych fel petai o'n mynd yn big yn y siotiau o'r tu ôl iddo fo. A does neb, hyd yn oed yn America, yn mynd i bleidleisio i garotsyn.

JOE:

Sôn am ei fam a phethau felly – roedd hynny'n dda!

AL:

Ddim yn ddrwg o gwbl. Roedd yr hen Abe yn fwy cynhesol nag y buaswn i wedi'i obeithio. Argraff gynhesol – dyna y mae'n rhaid inni ei chael drosodd, dim o'r hen geg

siarp yna a phen fel ffrij. Mae'n rhaid inni ei dwymo fo hyd yn oed yn fwy nag yr ydym ni wedi'i wneud yn barod. Ond, o leia rwan y mae o'n edrych fel rhywun y byddai'n bosib iddo fo fod wedi cael mam. [*Saib feddylgar*] Eto doedd rhai o'r siots yna o'r tu ôl iddo fo ddim yn gweithio.

JOE:

Ydi popeth yn barod?

AL:

Fwy neu lai. Mi gawn ni gynulleidfa ddethol o gefnogwyr – rhai gurith eu dwylo beth bynnag ddwedith o: mae o wedi dod i ddisgwyl clap bach ar ôl pob ateb i bob cwestiwn erbyn hyn. Mi fyddai peidio â chael clap yn ei fwrw fo oddi ar ei echel.

JOE:

Beth am y cwestiynau?

AL:

Run fath ag arfer. Mi fydd Sam Batten wedi rhifo a geirio bwndel o gwestiynau y bydd ein 'digymar Abe Jackson, Arlywydd nesaf yr Unol Daleithiau' wedi ei hyfforddi i'w hateb. Wedyn, pan ffonith yna rywun y stiwdio yn ystod y rhaglen i ofyn cwestiwn, mi fydd yna rif yn cael ei sibrdw trwy'r cyswllt i glust Abe. Mi atebith yntau yr hyn y mae o wedi'i ddysgu yn rhwydd ac yn rhugl – mi fedrai wneud hynny yn ei gwsg erbyn hyn.

JOE:

Iawn. Ond y mae yna beryg i Abe ddechrau swnio go-iawn fel pe bai o'n ateb y cyfan yn ei gwsg.

AL:

Yn hollol. Gwaith y dynion-camera fydd rhoi'r argraff fod y cwbl yn fyw a phwysig a thyngedfennol ac ati. Gwaith Abe ydi edrych yn agos-at y bobol – yr holl bleidleisiau yna sydd yn eistedd yn eu cadeiriau esmwyth gartre'n bwyta cwcis ac yn hanner-gwyllo. Dydi o ddim ots pa rwtj ddywedith o mewn gwirionedd, ond iddyn nhw gael yr argraff ei fod o yn hen fôl iawn.

JOE:

Dyna sut y mae hi arnom ni, bobol y cyfryngau yntê – galwedigaeth o baratoi stff ar gyfer cynulleidfa o swêj sydd gennym ni.

AL:

Y ffactor gyffredin, bob gafael; crafu'r gwaelodion isaf un. Pobol ydi'n cynulleidfa ni efo cyffredinedd yn tyfu trwy'u clustiau nhw fel gwlydd tatws. Mae'n gwestiwn gen i a ydi eu hanner nhw'n gwybod y gwahaniaeth rhwng yr hysbysebion a'r rhaglenni.

JOE:

Beth am y camerâu?

AL:

Mi fydd yn rhaid inni gadw un camera bron yn wyneb Abe, rhag ofn iddo fo feddwl ei fod o mewn cyfarfod 'cyhoeddus' go-iawn, ac anghofio cadw at yr agosatrwydd yna y mae'n rhaid inni ei gael os ydi'r hen greadur i gael ei gyflwyno'n debyg i rywbeth.

JOE:

I be y mae'r ddesg yna'n dda?

AL:

Ydi'r ddesg yna'n dal yna? [*Cymryd cip ar un monitor, rhoi ebychiad, ac yna codi i edrych i mewn i'r stiwdio trwy ffffenest*] Be maen' nhw'n drio'i wneud yn y lle yma! [*Siarad trwy'r llinell sy'n cysylltu â'r stiwdio*] Symudwch y ddesg yna rywun. Cadair, cadair esmwyth ddu efo cefn uchel, dyna sy ei eisio. Ac y mae ei heisio hi rwan. Symudwch! [*Gorffen siarad trwy'r system-gyswllt*]

JOE:

Beth am roi Abe i ryw hanner-eistedd ar y ddesg yna efo un droed ar lawr – ystum cartrefol braf?

AL:

Mae yna olwynion o dani hi. Weli di mo'nyn nhw? Petai o'n pwysu'n ôl ar y ddesg yna mi fyddai â'i beglau i fyny. Mi fydd yn ddigon iddo fo fod ar ei din pan fydd o'n Arlywydd, heb sôn am fod felly pan mae o'n ymgeisydd hefyd!

JOE:

Ymhle y gosodwn ni ei wraig o, a'r mab?

AL:

Efo'i gilydd, rywle yn agos i'r blaen.

JOE:

Beth am i Abe ddod at ei wraig wrth ddod i mewn a'i chusanu hi, ac ysgwyd llaw efo'r mab, rhywbeth teuluol felly?

AL:

Mi wela i be sy gen ti: awgrymu'r wyt ti y byddai'n well iddyn nhw fod ar eu pennau eu hunain yn y blaen un, reit o flaen y llwyfan?

JOE:

Pam nad ar y llwyfan?

AL:

Mae'n well cadw hwnnw'n glir. Mae gweld y teulu'n rhan o'r gynulleidfa'n taro'n well hefyd – mi gawn ni'r darn teuluol reit yn y blaen, yn y dechrau un fel rwyt ti'n wedi awgrymu. Wedyn mi aiff Abe i'r llwyfan ar ei ben ei hun – awgrymu unigrwydd y swydd, rhoi awgrym o unigolyn yn cario cyfrifoldeb y byd ar ei ysgwyddau ac ati.

JOE:

Iawn. Mi rown ni griw o genod go siapus yn weddol agos at y teulu, yn agos at flaen y gynulleidfa.

AL:

Ardderchog. Ond mi fydd yn rhaid dewis y rheini efo cylllell a fforc; dydym ni ddim eisio chwythiad o ddim byd bethma – rhaid iddyn nhw fod yn lân glws, a golwg iachus

arnyn nhw. A rho ddau neu dri o wynebau duon yn y siot lydan ar y teulu hefyd; mi awgrymith hynny nad ydi Abe ddim eisio cicio'r blacs o dan y bwrdd. Ond paid â gadael iddyn nhw fod yn rhy amlwg chwaith; does arnom ni ddim eisio i neb feddwl ei fod o am roi gormod o ddim byd iddyn nhw.

JOE:

Roedd o'n chwysu mewn un neu ddwy o'r siots agos yn y rhagbrawf cynta – ti'n cofio? Mi fydd yn siwr dduwch o fod yn chwysu mewn rhaglen awr go-iawn.

AL:

Mi fydd yna gyfle iddo fo newid ei grys yn sydyn ryw dair gwaith yn ystod y sioe, mi wnawn ni'n siwr o hynny. Yr hyn y bydd yn rhaid iti ofalu amdano ydi fod yna rywun o fewn cyrraedd efo hances wedi'i socian mewn *eau de cologne* pan fydd o'n dod at y darn diffuant-diffuant hwnnw ar y diwedd un. Mi wnawn ni gawl o bethau os bydd o'n chwysu yn fan'no, achos dydi'r camera ddim yn codi'r diffuantrwydd yn debyg i ddim pan fydd o'n chwysu.

JOE:

Wyt ti eisio rihysal terfynol?

AL:

Mi aiff y lle'n rhy boeth efo rihysal eto heddiw – rydym ni wedi rihysio hen ddigon beth bynnag. Mi deledwn ni heddiw heb ychwaneg o ymarfer Mae pawb yn gwybod be maen' nhw i fod i'w wneud. Mi chwythwn ni awyr oer trwy'r system awyru tan amser dechrau'r rhaglen fyw.

*[Saib, i gymrychioli amser yn mynd heibio. Gellir defnyddio goleuadau i gyfleu hyn. Mae Joe ac Al wrthi'n gwrando ar lais yr Arlywydd-i-fod gan edrych ar ei berfformiad ar un o amryw fonitorau.]*

LLAIS ABE JACKSON:

Gwladgythryblus ydi America heddiw, ond gwlad gythryblus am reswm arbennig. A'r rheswm hwnnw ydi – nid fod gennym ni yma wlad o bobol fethedig, o Americanwyr methedig, ond bod gennym ni wlad â'i harweinwyr hi'n fethedig, rhai sydd wedi methu, methu, methu.

Gadewch inni edrych ar America, agwrando ar America heddiw. Acw fe welwn ni Americanwyr ifainc, blaenffrwyth ein cenedl yn cael eu lladd ar feysydd rhyfel estron. Gartref, fe welwn ni Americanwyr yn casau ei gilydd, yn ymladd yn erbyn ei gilydd, a hyd yn oed yn difa ei gilydd ar strydoedd eu mamwlad. Clywch y gweiddi; clywch y rhegi croch o'r strydoedd, clywch y seirenau'n ddychryn yn y nos. Dyma'r sŵn y mae llawer o bobol yn meddwl ydi llais America.

Ond y mae yna lais arall yn ein gwlad ni, y mae yna olwg arall ar ein pobol ni. Llais a golwg y mwyafrif mawr ohonom ni ydi'r rhain – dyma'r bobol nad ydyn nhw'n crochlefain, y rheini nad ydyn nhw ddim yn tragwyddol brotestio. Y rhain ydi'r bobol sy'n gweithio yn ein ffatrioedd ni, y rhain ydi'r bobol sy'n rhedeg busnesau ein gwlad ni, y rhain ydi'r bobol sy'n barod i wasanaethui eu gwlad, ac yn barod i aberthui dros eu gwlad os bydd rhaid. Y rhain ydi'r bobol sydd am weld America yn rhydd ac yn ffyniannus. Y rhain ydi'r bobol sydd yn gwneud America yn fawr ac yn anrhydeddus.

Pleidlais i chi eich hunain, bobol dda America, fydd pleidlais i mi. Mi welwch fi yma, mi glywch chi fy ngeiriau, mi sylweddolwch chi yr hyn ydw i. Dyma fi: dyma Americanwr sydd yn credu ym mhobol dda ei wlad, ac yn nyfodol disglair ei wlad. Un ohonoch chi, bobol dda America, ydw i; bwriwch eich pleidlais i mi; y mae pleidlais i mi yn bleidlais i chi eich hunain. Nos da, bobol dda America.

*[Saib fer. Cymeradwyaeth frwdrydig ac uchel, yna fe glywir anthem genedlaethol America.]*

JOE:

Iawn. Da iawn. Rydw i'n meddwl fod hyn'na'n ddigon da byth i roi Abe yn swydd bwysicaf y byd.

AL:

Ie ... Wel ... Ddaru o ddim chwysu yn y darn olaf yna. Mi ddylai popeth fod yn iawn. Rydw i'n sicir ein bod ni wedi gwneud joban go lew wir, ac y bydd popeth yn iawn. *[Saib fer]* Henffych well, Abe Jackson. Arlywydd newydd Unol Daleithiau America.

## HYSBYSEB PEDWAR

*[Cerddoriaeth jinglaidd, briodol. Mae Cyflwynydd yr Hysbyseb hon i ddal torth fawr sydd mewn papur-cadw. Mae Dyddiad wedi'i sgrifennu'n amlwg ar y papur hwnnw ac y mae'r Cyflwynydd yn cyfeirio ato pan ddywedir y gair 'dydd'.]*

LLAIS:

Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd.

*[Saib]*

Canys ti a gei beth ffres yfory.

Ceisia SYNBLEES,

y bara efo'r dyddiad arno.

Bydd ddoeth, pryna SYNBLEES,

y dorth o fara efo'r dydd ar ei grudd.

## Y BUMED DYSTIOLAETH

### LLAIS 1:

Mahatma Mohandas Karamchand Gandhi –  
enw mawr ar gorffyn mor fach;  
ond fe eisteddodd hwn i lawr ar ffordd Ymerodraeth  
am ei fod yn gwybod  
fod Indiaid  
yn aelodau mor gyflawn o'r hil ddynol  
â Saeson.

*[Saib]*

### LLAIS 2:

Gyda gwraig a phlant a oedd  
yn werthfawr yn ei olwg  
ni allai ei fywyd ei hun lai na bod yn werthfawr  
i'r Parchedig Martin Luther King.  
Er hynny, fe gerddodd ar hyd strydoedd ei elynion yn agored  
gan arwain ei bobol,  
a chan wybod fod rhywun y tu ôl i ffroen dryll  
yn barod i danio'r bywyd hwnnw ohono.  
Ond yr oedd rhywbeth ynddo  
a fwriai allan ofn.

*[Saib]*

### LLAIS 3:

Llygaid fel llygaid mam,  
mam yn edrych ar ei phlant yn cysgu,  
neu'n eu gwyltio trwy ffenest heb iddyn nhw wybod hynny,  
llygaid felly oedd gan hon.  
Mam, hefyd, y gelwid hi,  
er nad oedd ganddi hi blant  
fel y mae gan famau eraill blant.  
Yr hyn oedd ganddi hi oedd  
trueiniaid heb ddim,  
cardotwyr budron strydoedd India,  
gwahangleifion wedi eu clwyfo i'r byw,  
plant claf eu meddyliau,  
broc môr trueni'r byd, a distryw y ddynoliaeth.  
Yr hyn, hefyd, oedd ganddi oedd  
gofal,  
y gofal hwnnw sy'n gwneud pobol yn frodyr i'w gilydd,  
a chwiorydd i'w gilydd.  
Hon oedd y Fam Teresa, y Fam a oedd,  
yn ei geiriau ei hun,  
yn ymdrechu i wneuthur rhywbeth gwiw dros Grist.  
Ac ynghanol anialwch o boen a dioddefaint  
yr oedd ganddi hi'r llawenydd hwnnw

sydd gan y rheini sy'n cael eu galw  
yn blant i Dduw.

*[Saib]*

LLAIS 4:

A dyna inni yntau, Bob Geldof,  
canwr a rafiwr,  
un o'r Boom Town Rats,  
yn eistedd yn ei lolfa glyd  
pan ddaeth byd arall i mewn yno  
trwy lygad y teledydd.  
Yn ddyddiol deuai i'w fywyd Newyddion  
am filoedd ar filoedd o Ethiopiaid  
yn cael eu difa yn araf gan newyn.  
Edrychai hanner ysgerbydau arno,  
ac ennyn ynddo yr anesmwythyd hwinnw  
yn wyneb dioddefaint y dywedir amdano  
mai marworyn ydyw o'r Duwdod  
ysydd o dro i dro yn tanio dynion,  
ac yn creu daioni.

*[Saib]*

LLAIS 1:

Y mae eraill, llawer o rai eraill,  
rhai heb enwau y mae fawr neb yn eu gwybod,  
rhai a gyflawnodd weithredoedd mawrion,  
neu a wnwaeth y pethau bychain, gyda chariad,  
nes eu bod fel sêr  
a goleuni tragwyddol ynddynt yn llosgi  
trwy eu cnawd marwol.



## HYSBYSEB PUMP

*[Cerddoriaeth ramantaidd iawn.]*

LLAIS:

Sefwch, gan hynny,  
wedi eich amgylch-wregysu  
â gwirionedd ac ati

OND cofiwch, da chi, yn anad dim,  
am eich PLEITECS,  
PLEITECS y staes ac ynddo fo ddeunaw awr o  
ESMWYTHYD.

PLEITECS I MI, A PHLEITECS I CHWI –  
DEDWYDDYD.

## Y CHWECHED DYSTIOLAETH

*[Golygfa mewn llys barn yw hon. Y mae yma Farnwr, Diffynnydd, Cyfreithiwr yn gweithredu ar ei ran, Cyfreithiwr sy'n erlyn.]*

BARNWR:

Gadewch imi fod yn hollol siwr o'r hyn ddwedsoch chi. Yr hyn a ddwedsoch oedd fod y Diffynnydd, Julius Sad, yn cael ei gyhuddo o bortreadu, mewn llyfr, *Jumbina*, a gyhoeddwyd ac sydd ar werth i'r Cyhoedd, sefyllfa lle y ceir disgrifiad ... manwl ... o ŵr yn cael cyfathrach rywiol ag – eliffant?

CYFREITHIWR:

Y mae hyn'na'n gywir, f'arglwydd.

BARNWR:

Achos dipyn yn ... be ddweda i ... anarferol. Ai gwryw neu fenyw oedd yr eliffant dan sylw?

CYFREITHIWR:

Benywaidd, f'arglwydd, benywaidd. HETERO-RYWIOL YDI'R ARWR.

BARNWR:

Diolch am yr esboniad yna ... Wel, ewch yn eich blaen.

CYFREITHIWR:

F'arglwydd, fe fyddwn i'n hoffi galw fel tysyt cyntaf o blaid y Diffynnydd y seiceiatrydd bydenwog, Dr Albert B. Laxus.

BARNWR:

Ewch ymlaen.

*[Daw Dr Laxus ymlaen ac i'r man priodol ac eistedd yno]*

CYFRIETHIWR:

Dr Laxus, a fyddech chi cystal â chyflwyno eich tystiolaeth i'r llys.

LAXUS:

Rydw i'n falch o gael y cyfle hwn i gyflwyno tystiolaeth mewn achos a fydd, yn ddiau, yn nodedig yn hanes cyfreithiol ein gwlad.

Nid yn aml, nid yn aml y daw i ddwylo neb lyfr fel hwn, llyfr sy'n gam sylweddol iawn ymlaen yn natbygiad yr hil ddynol. Fel gyda phob llyfr arloesol, dydi o ddim yn beth rhyfedd ei weld o'n cael ei erlyn fel hyn. Y mae'r meddwl caeth yn tynnu'n ôl rhag y cam hwnnw i'r anwybod sy'n ei ryddhau, y cam sydd yn yr artistwaith hwn yn archwilio cudd ddymuniadau'r is-isymwybod ac yn eu troi'n weithredoedd achubol a gwarddol.

Fe all y profiad y manylir arno yn y llyfr iasol o onest hwn, sef gŵr yn cael cyfathrach rywiol gyda eliffant, ymddangos i'r psyche sydd wedi ei hualu â thabwau cyntefig yr hil yn beth bwystfilaid ac aflan, ond y mae'r weithred hon yn torri ar draws yr orthodox, y cydymffurfiol, ac yn cynhyrchu trawma a ddaw, yn ei thro, yn waredigaeth ac yn fath o gydymffurfiaeth newydd, oblegid y mae'r weithred yn torri'r

*einstellung*, y dull set o weithredu ac o feddwl, ac yn troi tueddfryd yr holl bersona at ryddid gwaredigol.

Y mae'r stori a a droddir yn y llyfr yn un syml – gŵr canol oed yn teimlo atyniad rhywiol at eneth ifanc dair troedfedd a chwe modfedd o daldra, ac yn cael ei wrthod. O gael ei wrthod, y mae ei psyche'n gor-unioni nes troi sylw rhywiol y gŵr at eliffant sydd, ar wahan i forfil, y peth mwyaf y gallai o gael gafael arno. O beth bach, bach, at beth mawr, mawr. Y mae'r libido eleffantaidd hwn yn peri ontogenesis neu ddatblygiad ym mhersonoliaeth yr unigolyn hwn ac yn troi'n waredigaeth bersonol, gwaredigaeth sy'n gynsail i waredigaeth ehangach, sef gwaredigaeth gymdeithasol.

Y mae amryw o fy nghyfeillion i, sydd wedi arbenigo ar seicoleg anifeiliaid – yn enwedig ar ymarweddiad y mamaliaid mawr – yn haeru fod yma hefyd weledigaeth dreiddgar i haenau dyfnaf prosesau meddyliol a theimladol y creaduriaid hynny.

Ond, yn fwy na dim, efallai, yn nhreiddgarwch y dadansoddiad o berffaith ryddid i roi ffurf allanol i ffantasiau rhywiol a geir yn y nofel hon yr ydym ni'n sylweddoli ein bod ni ar fin gwaredigaeth newydd a gweledigaeth newydd yn hanes yr hil ddynol.

CYFREITHIWR:

Diolch yn fawr, Dr Laxus.

BARNWR:

A dyna'r dystiolaeth y dymunwch ei chyflwyno inni?

CYFREITHIWR:

Dyna ran ohoni hi, f'arglwydd. Y mae yna dyst arall yma ar ran y diffynnydd. Mi hoffwn i alw ymlaen y beirniad llenyddol nodedig, Ms Susan Suntan, i roi tystiolaeth.

BARNWR:

Ms Suntan? Wel, galwch arni ynteu.

CYFREITHIWR:

Ms Suntan, os gwelwch yn dda.

*[Daw hi ymlaen, a chymryd ei lle]*

SUNTAN:

Ar ôl ichwi glywed tystiolaeth Dr Laxus mi geisia i gyfyngu fy sylw i werth llenyddol y llyfr mawr hwn, er ei bod hi'n bosib y bydd yn rhaid imi, o bryd i'w gilydd, dresmasu ar diriogaeth sydd wedi ei thramwyo gyda'r fath ddeheurwydd yn barod.

Y mae Dr Laxus eisoes wedi sôn am y llyfr fel stori syml; stori syml ydi hi am ofynion corfforol a all fod, i rai ohonom, yn amrwd ac aflednais, ond y mae Julius Sad, yr awdur, yn llwyddo – fel y mae pob athrylith yn llwyddo – i drawsnewid y peth corfforol hwn yn angerdd dyrchafol, pur. Yn wir, y mae yn y gyfathrach gorfforol a ddisgrifir yn y llyfr hwn beth o burdeb y berthynas rhwng Dante a Beatrice, peth o rym trasig y berthynas rhwng Romeo a Juliet, a pheth o onestrwydd priddlyd y berthynas rhwng Lady Chatterley a Mellors.

Yn yr angerdd sydd yma y mae yna blymio dyfnderoedd yr ymwybod dynol a'r tir-neb hwnnw sydd rhwng ymwybod ac anymwybod. Y mae yma beth o

fetaffuseg cyfnod materol, rhwy fath o ddarganfod y goruwchnaturiol yn y cnawdol. Mi fentra i ddweud mai'r cyplysu eleffantaidd hwn ydi'r peth neasf at grefydd sy'n bosib mewn oes sydd wedi rhoi o'r neilltu blentyneiddiwch crefydd gyfundrefnol a'r holl swcwr sydd yna mewn peth felly. Mae rhywun yn teimlo grym cyfriniol yr egni bywydol yn y berthynas rhwng y gŵr a'r eliffant, perthynas a bortreadir mor erotig o synhwyrus ac mor deimladwy o sensitif am y rhan helaethaf o'r gyfrol nodedig hon.

Ar ôl darllen y llyfr hwn y mae rhwyun yn ei deimlo'i hun yn cael geledigaeth o'r newydd i natur realiti. Oherwydd hyn, apeliaf ar bawb sy'n barnu'r gwaith i edrych ar ei brydferthwch sylfaenol, prydferthwch sy'n datgan yn wyneb anialwch y cyfnod modern werth bywydol, noeth. Nid pornograffi sydd yma, ond clasur; mynegiant o fyfyrdod cawraidd ar ddryswch dyn, yr un dyn sy'n cynrychioli pawb yn y byd modern. Mae yna ddigon o ferthyron wedi bod ar lwybrau rhyddid; mae'r gorffennol yn goch gan ddioddefaint athrylithoedd – da chwi, peidiwch ag ymuno â'r giwed y mae holl hanes bellach yn ei ffeiddio. Erfyniaf arnoch i gyd: agorwch eich llygaid, a syllwch gyda rhyfeddod y diniwed ar y mawredd a geir yma.

## HYSBYSEB CHWECH

*[Miwsig bywiog; lawntiau moethus iawn.]*

LLAIS:

Efe a wna imi orwedd mewn porfeydd gwelltog.

Pwy ydi'r 'efe'?

Pwy ydi'r 'efe'?

Yr 'efe' ydi LÔN PLYS,  
y gwrtaiith gwelltglas  
am borfa fras, fras.

LÔN PLYS, LÔN PLYS am borfeydd sydd yn hyfryd welltog,  
bras, bras a godidog.

## Y SEITHFED DYSTIOLAETH

*[Gellir dangos, ar sgrin fideo, ddarnau o ffilmiau i gyd-fynd â'r hyn a leferir]*

LLAIS 1:

Ugain milltir o'r Côte d'Azur,  
ar heolydd mynyddig, fe welir:  
ysgerbydau ceir,  
coginwyr methodig,  
ffrijes archolledig,  
hen ddrymiau oel,  
ac enghreifftiau eraill o amrywiaeth  
ysbwriel diderfyn ein materoliaeth.

LLAIS 2;

Ar benrhynnau ynnysoedd unig  
ar arfordir yr Alban  
dydi hi ddim yn eithriadol i ddarganfod:  
hen boteli,  
gwydyr wedi malu,  
a pharion oreinnau.

LLAIS 1:

Ym Môn, ger hen gladdfa  
Barclodiad y Gawres, y mae yna  
ffedogaid o anialwch:  
yn gartonau plastig sebon-golchi-llestri,  
yn duniau y bu, unwaith, eu llond nhw o Bepsi,  
yn hen deiars.

LLAIS 2:

Tuniau:  
teflir, bob blwyddyn,  
tua hanner can mil o filiynau  
o duniau.

LLAIS 1:

Poteli, poteli:  
teflir, bob blwyddyn, o'r rhain  
tua deng mil ar hugain  
o filiynau.

LLAIS 2:

Ac wedyn, dyna'r hollbresennol  
a chwblw anninistriol  
blastig,  
plastig,  
plastig.

LLAIS 1:

I ble, i ble mae'n byd ni'n mynd?

LLAIS 2:

Yn gordeddiadau o sgrap,  
i domennydd ysbwriel,  
dan ormes plastig.

[Saib]

LLAIS 3:

Bom.

Pe baech chi'n dadansoddi dannedd eich plant,  
go brin y byddech chi  
yn disgwyl gweld ynddyn nhw olion  
bom.

Ac, yn wir, y mae darganfod fod yna gyswllt  
rhwng profi arfau niwclear  
a phennau plant bach  
yn ddigon i roi i rywun  
ysgytwad biolegol.

Bang; a baeddu'r awyr;  
ac yn y glaw cynnar –  
a'r diweddar law, o ran hynny,  
glaw unrhyw adeg – daw  
fel gwllith i'r ddaear  
Strontiwm Naw-Deg.  
Trwy gnydau,  
trwy laeth,  
trwy dyfiant fe ddaw  
i gyrff plant bach,  
weithiau i gancro eu gwaed.

[Saib]

LLAIS 4:

Mwg a nwyon: ysgyfaint duon –  
Carbon monocsid, parddu, gronynnau o lwch,  
olewiach, cyfansoddiadau o frwmstan,  
cyfansoddiadau o nitrojen sur  
yn tagu'r awyr iach.  
A dacw lle bu y Concorde yn mygu'r haul.

LLAIS 3:

Dichloro-diphenyl-trichloro-ethane,  
chlordan, dieldrin,  
malathion, parathion:  
enwau ennaint dilead.  
Gwrychoedd mud a'r adar yn cwympto o'r awyr,  
yn grynedig yn trigo yn y ffosydd,  
berfeidiau o adar di-gân yn gyrff.

Cadnoid hanner-dall yn palfalu mewn cylchoedd  
cyn cael eu cloi gan ddirgryniadau marwolaeth.  
Y draenog yn llusgo trwy'r dail i farw.  
Wrth ladd prtfed a lladd chwyn  
a lwyddodd dyn i'w ladd ei hun?

[Saib]

LLAIS 4:

Gwelwch drueni'r dyfroedd,  
Ac ynddyn nhw oel a dylif cemegol,  
wâst y paratoi at ryfela biolegol –  
nwyon lladd a pharllys ac ynfydrwydd;  
hylifau glanhau dillad, powdrau golchi,  
gwastraff radio-egni, gwenwyn pryfed,  
metlau trwm,  
rwtj a slwtj a charthion.  
Ac yn y dyfroedd marw dacw  
bysgod dall yn gwingo mewn llysnafedd diwydiannol,  
y gleisiad a fu yn gloywi'r rhaedrau  
yn pydru ac yn hagra'r glannau;  
a dacw lynnoedd yn tagu.  
Y mae organebau'r môr yn marw,  
a'r heli ei hun yn amhuro.

[Saib]

LLAIS 3:

'Os saethwch chi eryr  
fe ellwch chi eich cael eich hun  
dan bla o locustiaid.'  
felly'r dywediad.  
Mae hynny oherwydd hyn:  
am fod yr eryr, ymhlith creaduriaid eraill,  
yn bwyta y genau goeg,  
y genau goeg yn bwyta llyffaint,  
y llyffaint yn bwyta locustiaid.  
Cadwyn ydi hon o fodoli  
ac ynddi hi gymesuredd datblygiad y byd.  
Y mae dyn, yntau hefyd,  
yn rhan o'r gadwyn hon –  
fel y mae'r cynrhonyn, a'r crocodeil, a'r blaidd –  
yn rhan o broses einioes.

LLAIS 4:

Torrwyd cyswllt y byd;  
y ddaear a haologwyd gan ei phreswylwyr;  
galarodd y tir gan anrhaith a llygredigaeth;  
a'n llawenydd sy'n cael ei droi yn dywyllwch.



HYSBYSEB SAITH

*[Cerddoriaeth jinglaidd, a'r geiriau REDIANT i'w gweld yn fawr]*

Pa fodd y glanha y llanc ei lodrau,  
ei festiau,  
ei dronsiau  
gyda'u staeniau cudd?

Trwy iddo eu golchi gyda REDIANT,  
y powdwr at bob cyflwr llwgwr.  
Dyma ydi'r un, o bob un,  
sydd yn golchi,  
sydd yn glanhau  
yn llwyr-ddwys.

REDIANT: dyma ichi  
y powdwr golchi  
a lanha y ddynoliaeth,  
yn llwyr-ddwys.

## YR WYTHFED DYSTIOLAETH

*[Gellir dangos golygfeydd priodol i'r geiriau o bryd i'w gilydd, ond nid drwy'r adeg, efallai]*

### LLAIS 1:

Dinasoedd, gyfeillion, ydi'r llefydd hynny  
y mae pobol yn byw yn ddyn nhw,  
yn byw, neu yn bodoli,  
bodoli mewn fflatiau moethus  
gyda darluniau drud o waith yr artistiaid ffasiynol, diweddaraf  
ar eu muriau  
i ddynodi eu bywydau, mae'n debyg –  
does neb yn rhyw siwr iawn;  
bodoli mewn tai ar eu pennau eu hunain, neu yn niferoedd  
yn swbwrbia'r dychrynfeydd  
sydd weithiau yn torri i'r strydoedd;  
bodoli yn stremp y tai tlawd neu ddyrchafiadau o fflatiau  
lle bydd pobol, ar hwyr o haf, allan  
heb feddwl fod yna'r fath beth ag awyr yn bod;  
a bodoli, mewn ambell fan,  
yn y cwterydd gyda'u budreddi eu hunain.

### LLAIS 2:

Llygod mawr:  
o ganlyniad i'w harbrofion ar lygod mawr  
y mae rhai gwyddonwyr yn dal  
y gellir dod i wybod cryn dipyn am ddyn  
o astudio'r creaduriaid hyn.  
Does yna, hyd yma, ddim cytundeb cyffredinol  
ynglŷn ag arwyddocâd yr arbrofion,  
ond y mae hi'n ddiddorol nodi fod rhai yn dal  
fod llygod mawr sydd wedi eu hel at ei gilydd  
mewn llefydd cyfyng yn dangos sumtomau  
nid annhebyg i bobol  
pan fyddan nhw mewn amgylchiadau cyffelyb –  
mae y gwrywod yn troi yn  
faleisus-ymosodol,  
a cholla y benywod  
eu greddfau mamol.

### LLAIS 1:

Yn ôl rhai.  
Er hyn y mae ymchwilwyr gwyddonol  
yn wedddol gytun  
fod rhai anifeiliaid yn dyrfa fawr, heb le,  
yn dangos arwyddion o dyndra adrenal  
sy'n peri nerfau gor-effro,  
yn janglo'r cnawd,  
ac yn troi'r gwryw yn greulon

a mygu cariad y fam.

LLAIS 2:

Pe bai'r creaduriaid yma yn ddynion  
yr hyn a welech chi, yn ddiau, fyddai  
rhai yn ymosod ar ei gilydd efo tjeiniau beic,  
neu efo rasalau neu boteli yn agor wynebaw,  
neu gyda chyllyll yn trywanu.  
A phe bai'r creaduriaid y soniwyd amdanyn-nhw  
yn famau dynol  
diau y gwelech chi nhw yn gadael eu plant mewn buniau  
neu yn dduon gan gleisiau.

LLAIS 1:

Ymgais ydi hyn, wrth reswm,  
i ddehongli ymddygiad creaduriaid mewn termau dynol,  
i'w droi o'n ddetholiad o'n problemau cyndeithasol presennol.  
Mae digwyddiadau fel y rhain a nodwyd  
yn arswydus o gyffredin yn Hong Kong,  
Los Angeles, yn Llundain ac yn Tokyo,  
a dydyn nhw ddim yn anhysbys yn Llandudno.

Yn rhemp epilio, rydych chi'n gweld,  
mae bywyd, o raid, yn cael ei ddibrisio.

LLAIS 2:

Enghraifft ichi:  
yn India, yn Calcutta y mae pobol yn pasio  
cyrff y meirwon yn ffosydd y strydoedd  
heb feddwl ddwywaith;  
ac y mae'r llygod mawr sydd yno –  
rhai efo dau ddant blaen ysgythrog,  
a chomig eu golwg braidd –  
yno ynghanol y cyrff yn y nos.  
Ar y dechrau y mae'r ymwelydd cyffredin,  
yn naturiol, yn cael ei ddychryn;  
ond os arhosith o yno yn ddigon hir fe ddaw yntau,  
fel y brodorion,  
i ddysgu cerdded heibio.

I hyn y mae hi'n dod yn y diwedd:  
Pa ystyr sydd yna i drugaredd,  
neu Dduw cariad yn enbydrwydd dinasoedd?  
Mae Duw cariad i bobol yno  
mor ddiystyr â Phicasso.

Fe dywedir unwaith eto:  
yn rhemp epilio  
y mae bywyd, o raid,

yn cael ei ddibrisio.

LLAIS 1:

Fe welwch yr hyn a awgrymir,  
sef nad oes yna fawr o ymyrraeth  
ar droell gaeth naturiaeth.

Dydi gweddi yn Calcutta, yn y ffos,  
yn torri dim ar dywyllwch y nos,  
nac ymbil dynion ar ddim dwyfol  
yn mennu dim ar yr egrwch niweidiol  
sy'n magu lle y mae gormod o bobol.

Mae bywyd yn batrymau ofnadwy, anghyfnewidiol,  
a does dim Duw sydd yn gariad i waredu neb  
rhag erchyllterau y presennol  
nac ofnadwyaeth y dyfodol.

HYSBYSEB WYTH

*[Llun potel enfawr o Coca-Cola]*

Y llef a ddywedodd, 'Gwaedda'.

Yntau a ddywedodd, 'Beth a waeddaf?'

'COCA-COLA! COCA-COLA! COCA-COLA!'

## Y NAWFED DYSTIOLAETH

*[Dyn mewn ystafell-fyw foethus. Y mae wedi ei wisgo'n ddrud, yn arbennig o dda ei doriad, ac fe all fod yn eistedd mewn cadair esmwyth gostus. Y mae'r llefaru i fod yn gysact, fel un yn cyfleu gwybodaeth.]*

Y GŴR:

Fi ydi meistr y tŷ hwn.  
Fi, fel y gellid dweud, ydi perchennog y lle.  
Mae o yn lle dymunol;  
ac y mae'r ardal hon yn un ddethol –  
ddaw yna neb yma nad oes ei eisio fo  
yn agos at fan'ma;  
ostyngith yna neb werth y lle hwn.

Y mae fy nhŷ, wrth reswm, yn dŷ ar ei dir ei hun,  
ar ei ben ei hun;  
yn ddigon pell oddi wrth bawb i fod yn breifat:  
does yna neb yma'n busnesa ym mywydau ei gilydd.  
Y mae'r lle yn lle modern,  
yn gyfforddus a chwaethus;  
mor gartrefol ag y gall arian ei wneud o.  
Mae yma ddyfais ar gyfer bron bob gwaith:  
cyffwrdd switj sydd ei eisio, a dyna ni! –  
does dim pwrpas imi wastraffu fy amser ar weithgareddau trafferthus.  
Y mae'r mân orchwylionyr ydw i yn eu gwneud o gwmpas y lle  
yn rhai yr ydw i'n dewis eu gwneud.  
Peth doeth ydi gwneud rhywfaint o waith corfforol,  
a hynny yn rheolaidd  
rhag i'r gwaed geulo, neu i'r galon wanio,  
a rhag magu anhwylderau eraill.  
Mi fydda i, er enghraifft,  
yn nofio yn y pwll sydd gen i yma  
at gadw yn heini:  
eithriad ydi hi imi fethu gwneud hynny yn y bore.  
Ac mi fydda i'n garddio:  
mi fydda i'n rhoi menyg am fy nwylo,  
ac yn garddio,  
yn plannu blodau ac yn codi chwyn.  
Weithiau mi fydda i,  
o ddewis,  
yn mynd ati i wthio peiriant-lladd-gwair  
i fyny ac i lawr ar hyd y lawnt,  
y lawnt lefn yma sydd gen i yma  
o flaen fy ffenest fwya.  
Mi fydda i, hefyd – yn achlysurol –  
yn chwarae golff,  
a rhag magu rhwystredigaethau rhywiol  
yn ymweld â gwragedd.

Am bedair awr bob dydd,  
o ddydd Llun tan ddydd Gwener,  
mi fydda i'n dilyn fy ngalwedigaeth,  
yn cadw golwg ar system sydd, fwy neu lai,  
yn troi ohoni ei hun.  
Y mae ein peiriannau ni, bellach,  
wedi cymryd drosodd bron bob llafur –  
Wel! y mae yna bethau rheitiach i'w gwneud na  
llafurio.

Fy mhrif bleser, fy hobi fel yr ydym ni'n dweud, ydi eistedd  
ac edrych allan o `nhŷ trwy y ffenest fwya yma,  
edrych allan dros y lawnt, at y môr.  
Rai degau o droedfeddi i lawr  
y tu hwnt i'r ardd o flaen fy nhŷ,  
y mae'r môr.  
Gan fod yr ochor yma i `nhŷ  
yn wynebu'r gorllewin rydw i  
yn medru gweld y machlud.  
Mae lliwiau'r machlud yn amgenach na lliwiau  
pob un o'r darluniau yma sydd gen i ar fy muriau,  
rhai a brynais i am arian mawr.

Ar y cyntaf o Fedi eleni,  
ryw ben rhwng hanner awr wedi saith ac wyth,  
pan oedd y tywyllwch yn rhyw ddechrau hel,  
yn erbyn lliwiau yr awyr mi welais i  
fwystfil yn y môr,  
un coch ei liw,  
fel pe bai o wedi ei drochi mewn gwaed.

*[Byddai cael llun o fwystfil enbyd yn ymddangos yn isliminal ar sgrin y tu ôl i'r Dyn  
yn briodol iawn yma]*

Doedd dim tystiolaeth  
o fodolaeth y fath creadur â'r un a welais i  
yn yr un gwyddoniadur nac un dim ar y We.

Esboniodd fy seiciatrydd mai delwedd  
o ofnau isymwybodol oedd yna ynof fi  
oedd yr hyn a welswn,  
ac nad oedd y creadur ddim, mewn gwirionedd,  
yn bod.  
Dynodi llid, meddai,  
a wnai y lliw coch.  
Cyfunasai y môr gweladwy  
â rhith o fôr a ddynodai  
gyntefigrwydd.  
Cynghorodd fi i beidio ag edrych ar y môr  
pan fyddai hi'n t'wllu.

Fe ddylwn i gau'r llenni ar y machlud,  
a goleuo f'ystafell.

Gwneuthum yn ôl y cyngor.  
Ond, wedyn, yn y nos  
fe ddigwyddodd peth rhyfedd iawn:  
fe gefais i'r argraff –  
argraff ddigon anesmwyth â dweud y gwir –  
fod rhywbeth, neu rywun, wrth y ffenest  
ac, yna, wrth y drws,  
hynny di, wrth ddrws fy nhŷ.  
Fe wyddwn i, wrth reswm,  
nad oedd yna ddim yno, na neb yno.  
Doedd dim arwyddion yn y bore, ychwaith,  
fod yna neb, na dim,  
wedi bod o gwmpas y lle yma yn y nos.

Esboniodd fy seiciatrydd  
mai arwyddion o ansicrwydd  
oedd y pethau dieithr y tybiaswn i  
a ddigwyddodd.  
Dyweddod na fu dim byd yma,  
ac na fyddai yna ddim byd  
annymunol fel'na yma byth.  
Holodd fi'n fanwl,  
ond ni lwyddodd i nodi un dim  
a rôl esboniad penodol a boddhaol i mi  
ar fy ansicrwydd, a'm hannifyrrwch.  
Ond sicrhaodd fi nad oedd dim byd i boeni amdano,  
a rhoddodd imi dabledi  
i dawelu fy anesmwythyd.



## CANLYNIADAU YR YMCHWILIAD

*[Y mae'r Comisiynwyr yn yr olygfa hon fel yr oedden nhw yn y dechrau un]*

WYNNE:

Wel, gyfeillion, dyna ni. Dyna ni wedi clywed nifer o dystiolaethau, ac mi fentra i ddweud fod ein gwaith ymchwil ni ar ben. Ein tasg ni, rwan, fydd trafod y dystiolaeth yn ei chrynswth.

*[Saib]*

MACKENZIE:

Wel, yn lle ein bod ni'n eistedd yma fel delwau, ga i ddweud fod y dystiolaeth yr ydym ni wedi'i chael yn un hynod o unochrog – fuasech chi ddim yn cytuno? Mae'n drueni, mewn gwirionedd, na chafwyd mwy o dystiolaeth ddymunol. Mae yna gymaint o bethau dymunol nad ydym ni wedi clywed fawr ddim amdanyn nhw. Chlywsom ni fawr ddim am gariad, fawr ddim am garedigrwydd, fawr ddim am brydferthwch y byd – blodau a gogoniannau'r byd naturiol.

BALAAM:

A pha gysylltiad yn hollol sydd yna rhwng blodau a Duw?

MACKENZIE:

Mae'r cysylltiad yn hollol amlwg: prydferthwch; prydferthwch y byd yn ein harwain ni at grewr y prydferthwch hwnnw.

BALAAM:

Ond y mae cobra yn brydferth ...

MACKENZIE:

Cobra yn brydferth! Ych-a-fi! Mae pob cobra yn hyll!

BALAAM:

Ond beth pe bawn i'n dweud fod cobra yn brydferth i mi?

MACKENZIE:

Yna y mae'n rhaid fod yna rywbeth yn sylfaenol o'i le arnoch chi.

BALAAM:

Yr hyn sy gen i, Meistr Cadeirydd, ydi fod ystyriaethau ynghylch prydferthwch yn rhai rhy bersonol, rhy oddrychol i fod yn sail i unrhwy brawf o gwbl – yn enwedig o fodlaeth Duw! Wedi'r cwbl, ein gorchwyl ni ydi edrych a ydi'r dystiolaeth yn dangos Duw sydd allan acw – fel y mae'r bwrdd yma'n bod y tu allan i'n hamgyffred personol ni, yn hytrach nag ystyried pethau nsydd yn estyniad o'n huaniaeth ni, neu'n fynegiant o deimladau neu ddyheadau mewdol.

WYNNE:

Os ydw i'n eich deall chi'n iawn, dydw i ddim mor siwr o hynny.

BALAAM:

Chwilio am Dduw yr ydym ni yntê, nid chwilio am ddyinion a thrimladau dynion – na theimladau gwragedd chwaith, wrth reswm, Mrs Mackenzie.

WYNNE:

Efallai nad ydi pethau ddim mor glir eu toriad ag yr ydych chi'n ei awgrymu, Athro.

BALAAM:

Y mae hwn yn fater y bydd yn rhaid rhoi adran esboniadol arno yn ein hadroddiad, er mwyn gwneud perffaith chwarae teg â'n gwahanol safbwyntiau ni. Yn sicir, rydw i eisio diffinio fy safbwynt fy hun.

MARA:

Mae'n bleser cael clywed dadl mor ddyrchafol, mor addysgiadol â hon! Yr unig anfantais yn hyn, hyd y gwela i, ydi ein bod ni'n digwydd bod yn ddyinion ac yn ferched ein hunain, ac y gall hynny gymylu'r hyn sydd yn fewnol a'r hyn sy'n allanol a, hyd y gwn i, yr hyn a all fod yn y canol.

BALAAM:

Yn y canol! Meistr Cadeirydd y mae trin dadl mor ddifrifol yn y dull ysgyfala yma yn drahaus o annheilwng!

MARA:

Os gall yr Athro ddangos nad ydi o yn ddyin, mi fydda i, Meistr Cadeirydd, yn barod iawn i ymddiheuro.

WYNNE:

Foneddigion, dydi ffræo fel hyn ddim yn mynd i fod o gymorth mawr inni. Efallai y dylech chi, Syr David, eich mynegi eich hun yn fwy uniongyrchol ac yn llai coeglyd wrth osod eich safbwyntiau ger ein bron. `Gawn ni symud ymlaen i weld beth y gallwn ni ei wneud o'r dystiolaeth?

MACKENZIE:

Rydw i'n dal i ddweud fod y dystiolaeth yn unochrog.

MARA:

Y drwg ydi mai lle unochrog ydi'r byd yma, yn ôl pob golwg Mrs Mackenzie. Mae'n rhaid ichi grafu'r domen yn o hir i ddod o hyd i fawr o ddim a wnaiff godi eich calon chi.

BALAAM:

Meistr Cadeirydd, y mae'n amlwg i mi fod dau aelod o'r pwyllgor hwn yn or-emosiynol. Gyda phob parch, y mae Mrs Mackenzie am weld ei theimladau da, a'i dyheadau da hi yn y byd; ac y mae Syr David wedi dangosyn ddigon eglur lle y mae on sefyll trwy alw'r b d yn 'domen'. Dydw i ddim yn meddwl fod safbwyntiau fel y rhain yn mynd i roi inni ddim byd tebyg i farn gytbwys.

BALAAM:

A beth yn hollol oedd mor 'ddyrchafol' – petai hynny o unrhyw bwys yn ein hystyriaethau?

MACKENZIE:

Wel y dystiolaeth yna am Gandhi neu'r Fam Teresa, er enghraifft. Roedd eisiau ychwaneg o dystiolaeth fel yna.

BALAAM:

Doedd hon'na ddim yn dystiolaeth neilltuol o gref dros ddim byd dyrchafol, yn fy marni – a bwrw fod y 'dyrchafol', fel yr ydych chi'n ei alw fo, yn mynd â ni at Dduw – peth nad ydw i ddim hanner mor siwr ohono fo fy hun.

Rydych chi'n cofio imi dynnu sylw ar y dechrau un at annigonolrwydd ein diffiniad ni o 'Dduw': wel, dyma inni esiampl berffaith o hynny'n dylanwadu ar ein dadleuon ni. Yn ôl Mrs Mackenzie y mae bodolaeth Hindw yn cael ei chynnig inni fel peth dyrchafol a all arwain at y syniad Cristnogol o Dduw! Hyd yn oed pe baem ni'n caniatáu fod daioni yn y byd yn arwydd o dduwdod, dim ond hanner y gwir a gawsom ni am yr Hindw hwnnw – wyddech chi, Mrs Mackenzie fod yr Hindw hwn, ac yntau yn tynnu ymlaen, yn cael merched ifanc i orwedd o fewn gafael iddo fo, er mwyn iddo fo brofi ei reolaeth ar ei nwydau.

MARA:

Oedd o'n gadael llonydd iddyn nhw?

BALAAM:

Be sy a wnelo hynny â'r peth?

MARA:

Oedd o'n gadael llonydd iddyn nhw?

BALAAM:

Oedd.

MARA:

Pa gyfrin ffaeleddau y mae nodi'r ffaith yna am Gandhi i fod i ddangos inni ynteu?

BALAAM:

Os nad ydi afledneisrwydd y prawf ynddo'i hun yn amlwg ...

MACKENZIE:

Rydw i'n cytuno efo'r Athro yn fan'ma: roedd y math yna o brawf yn beth hyll iawn. Ond beth am y dystiolaeth am y Fam Teresa, neu am yr hyn y llwyddodd Bob Geldof ei wneud i godi symiau enfawr at leddfu tlodi a newyn – onid ydi hyn'na'n dystiolaeth fod yna sbarc o ddaioni yn ein byd ni, ac mai 'Duw' ydi y math yna o gariad, y math yna o ewyllys da.

BALAAM:

Eithaf gwaith. Ond, unwaith eto, rhaid imi dynnu sylw at y ffaith fod Bob Geldof yn gallu bod yn grinc tra annymunol – un funud y mae o yn orweddiog o ostyngedig, a'r funud nesa yn dangos ego gymaint ag Idaho. A doedd Martin Luther King ddim mor ddiwed â hynny. Ond yr hyn oedd yn mynd dan fy nghroen i oedd y waffl yna ar ddiwedd y dystiolaeth yna am rai nad oes neb yn gwybod eu henwau, a diweddglo barddonllyd am ryw oleuni tragwyddol. A chofiwch fod dau o'r 'seintiau' yna wedi codi yn erbyn cyfraith a threfn.

MARA:

Y peth pwysig ydi: pam y gwnaethon nhw godi yn erbyn cyfraith a threfn.

BALAAM:

Ond pwy sy'n mynd i benderfynu be sy'n iawn i godi twrw yn ei gylch a be sy ddim?

MARA:

Oedd yna unrhyw beth yn iawn ynghylch cyflwr y dyn du, fel yr oedd o cyn King, yn America?

BALAAM:

Does dim rhid imi ateb y cwestiwn yna. Beth petai criw'n mynd ati i godi twrw am nad ydi pawb yn cael hawl i gymryd cyffuriau fel y mynnan nhw?

MARA:

Y mae yna wqhanaeth rhwg bod yn ddu eich croen yn rhai rhannau o'r byd yma a smocio pot.

BALAAM:

A! wel, does a wnelo hyn'na ddim â'r egwyddor yr ydym ni yn ei thrafod.

MARA:

Ond nid trafod yr egwyddor gyffredinol yr ydw i, ond trafod amgylchiadau neilltuol ar adeg neilltuol mewn mannau arbennig.

BALAAM:

A thrafod yr egwyddor gyffredinol yr ydw innau, ar hyn o bryd.

WYNNE:

Y mae'n amlwg fod yna anghydweld go sylfaenol ar y mater dan sylw yn ein plith, a fyddwn ni ddim elwach o ddal ati fel hyn.

BALAAM:

Esgusodwch fi, Meistr cadeirydd, ond yr ydym ni'n dadlau am fater o bwys sylfaenol. Y mae rhai yma'n cymryd y tystiolaethau a gyflwynwyd inni yn arwynebol. Rydw i'n dal fod rhai pethau a all ymddangos yn wrthun, ar un olwg, yn gallu bod yn llesol, ar olwg arall – ac i'r gwrthwyneb. Ystyriwch y dystiolaeth yna a gawsom ni am lenor yn cael newid ei feddwl. Rydw i'n siwr eich bod chi'n ystyried hynny'n anfoesol.

MACKENZIE:

Wrth gwrs fod hynny'n anfoesol.

BALAAM:

O'r gorau. Ond ystyriwch y lles fyddai yn y peth wrth drin meddwl claf neu wrth droi llofrudd yn addfwyn. Llamu i gasgliadau arwynebol – dyna'r ydw i'n ceisio'i osgoi.

MARA:

Ond beth am y sefyllfa yna a gyflwynwyd inni? Beth am y sefyllfa arbennig honno?

BALAAM:

Rhan o gyfanswm o sefyllfaoedd oedd hon'na. Dydi'r egwyddor ynglŷn â newid meddwl ddim yn dibynnu ar un sefyllfa fel yna. Camfarnu ar sail enghreifftiau unigol, dyna'r camgymeriad yr ydych chi'n ei wneud.

Ystyriwch ymhellach, pe na bai yna DDT, fe fyddai yna fyrddiynau o bryfed yn heidio hyd y byd yma'n difa ac yn cario afiechydon. Mae gwenwyn yn eu cadw nhw dan reolaeth – 'welsom ni fawr o hynny.

Wedyn, 'waeth ichi heb â synied am ryfel fel peth drwg, a'i gadael hi yn fan'na – pa ffordd arall oedd yna o rwystro bwriadau uffernol rhywun fel Hitler?

WYNNE:

Hyd yma, gyfeillion, rydym ni wedi bod yn sôn am bobol a'u gweithredoedd. A ydi hynny i fod i ddweud unrhyw beth wrthym ni am Dduw?

MARA:

Rydym ni, hefyd, wedi bod yn sôn am gariad a chasineb; ac rydym ni'n sicir fod a wnelo gweithredoedd dynion â'r pethau hynny.

MACKENZIE:

Y mae a wnelo cariad â Duw.

BALAAM:

Duw cariad yw. Iawn. Ond dydi'r cysylltiad rhwng cariad a Duw ddim yn amlwg i mi, nac yn golygu fy mod i am chwilio am ddim byd pellach – cariad ydi cariad, a dyna fo. Fedr neb brofi fod yna gysylltiad rhwng cariad a dim byd y tu hwnt, dim byd goruwchnaturiol.

MARA:

Roedd pawb yn gwybod hynny cyn inni ddechrau.

WYNNE:

Fe allwn ni ddweud hynny, wrth reswm. Y cwestiwn ydi: a fedrwn ni ddweud unrhyw beth arall. Beth am y tystiolaethau? Rydw i'n meddwl y dylem ni ddweud rhywbeth am oblygiadau y tystiolaethau yna a gyflwynwyd inni.

BALAAM:

Nodi na ellir ateb y cwestiwn, ond awgrymu ateb posib – yr ateb y mae'r tystiolaethau a gyflwynwyd inni yn eu gynnig. Y mae hynny'n ffordd o oresgyn ein hanawsterau ni. Ond bydd yn rhaid ei gwneud hi'n berffaith eglur mor gyfyng ydi maes ein gweithgarwch ni.

WYNNE:

Purion. Am hynny, rydw i am ofyn i bob un ohonoch chi ddweud a ydi'r dystiolaeth a gyflwynwyd inni yn awgrymu – awgrymu, sylwch, nid profi – fod yna Dduw yn bod.

Fe fyddwn ni, yn yr achos hwn, yn ein cyfyngu ein hunain i'r syniad Cristnogol o Dduw, er y gall ein hymateb ni ddweud pethau am syniadau eraill am Dduw.

Mrs Mackenzie, ga i ofyn i chi, yn gyntaf un, a gawsoch chi'r teimlad neu'r argraff fod yna Dduw yn bod – o seilio eich hymateb ar y dystiolaeth a gyflwynwyd inni.

MACKENZIE:

Rydw i'n meddwl fod yna Dduw, ond rydw i'n meddwl nad ydi'r tystiolaethau a gyflwynwyd inni ddim wedi bod yn ddigon cytbwys. Welsom ni ddim digon o ddaioni, dim digon o gariad. Ond, ond y mae'r enghreifftiau a welsom ni o ddaioni a chariad ac ewyllys da at gyd-ddyn yn awgrymu fod y pethau yna'n dod o rywle; y rhywle hwnnw ydi Duw, a Duw da hefyd. A waeth beth a ddywedith yr Athro Balaam fod y dystiolaeth yn un rannol, rydw i'n meddwl fod y dystiolaeth a gyflwynwyd inni am bobol fel y Fam teresa a Martin Luther King yn dystiolaeth am ddaioni a chariad. Mae'r dystiolaeth olaf a gyflwynwyd inni – er nad ydw i'n honni ei deall hi'n iawn – yn peri imi fod yn anesmwyth, ac yn gwneud imi deimlo fod yr anesmwythyd yna yn dod o rywle heblaw'r byd hwn, fel pe bai yna fyd o bethau goruwchnaturiol, pa un ai da neu ddrwg, yn bod.

Mi wn i ein bod ni wedi gweld llawer iawn o bethau drwg – pethau sy'n ddrwg i mi, beth bynnag – ond y pethau da sydd wedi gadael fwyaf o'u hól arna i.

A oes yna Dduw yn bod: i mi, oes.

WYNNE:

Diolch, Mrs Mackenzie. A beth amdanoch chi, yr Athro Balaam?

BALAAM:

Mae'n weddol amlwg, debyga i, nad ydi sôn am ddrwg a da a chariad, fel y gwnaeth Mrs Mackenzie, yn golygu fawr i mi fel arwyddion o fodolaeth unrhyw Dduw. Mae barnu ymddygiad dynol, ac olrhain unrhyw beth sylfaenol am Dduw o'r ymddygiad hwnnw, yn ddiystyr. I mi does yna ddim byd y tu hwnt i gariad neu ewyllys da neu ddaioni: does dim rhaid chwilio am ffynhonnell iddyn nhw. Does dim rhaid chwilio am Dduw o gwbl. Felly, dydi o ddim yn bod.

WYNNE:

Diolch eto. Syr David?

MARA:

Arwynebol ydi fy meddwl i, wrth reswm! Rydw i'n edrych ar yr hyn yr ydw i wedi ei weld a'i glywed ac yn ymateb i hynny. Roeddwn i'n rhwy dueddu, fel Mrs Mackenzie, i chwilio am gariad neu ddaioni gan ryw dybio y gallai'r pethau hynny gyfeirio – yn fy marn fach i – at Dduw. Ond yr hyn a welais i, gan mwyaf, oedd byd anghredadwy bron yn ei wrthuni; dynion yn casau ei gilydd, yn ysglyfaethu ar ei gilydd, yn twyllo, yn iselhau, yn dinistrio, yn lladd, ac yn creu bawdy echrydus o'r byd yma'r ydym ni ynddo fo. Yr hyn yr ydw i wedi ei weld ydi clefyd ffiaidd sy'n hacru'r greadigaeth. Does yna ddim Duw da ar gyfyl yr hil ddynol.

WYNNE:

Mor gry â hyn'na?

MARA:

A chryfach hefyd, pe bai gen i'r geriau. *[Saib]* A chwithau?

WYNNE:

A finnau? Wel, ac ystyried yr hyn a welais i ac a glywais i, y mae'n rhaid imi gyfaddef mai teimlad o fyd heb Dduw dda a gefais innau hefyd – er bod y dystiolaeth am gariad a daioni rywsut yn gadael argraff gref arna'i. Ond, o ystyried popeth, y

mae'n rhaid i mi gofnodi nad ydi'r dystiolaeth ddim yn dangos i mi fod yna Dduw yn bod. Y mae'n rhaid imi ddweud `Na', ond gyda thristwch yr ydw i'n dweud hynny.

BALAAM:

Dyna ni, felly; dyna inni dri yn erbyn un.

WYNNE:

Tri yn erbyn un. Fe awn ni ati i roi ein hadroddiad wrth ei gilydd; a nodi ein casgliad terfynol:

Yn ôl y tystiolaethau a gyflwynwyd inni, does yna ddim arwyddion o fodolaeth Duw da yn ein byd ni. Dydi'r byd yr ydym ni'n byw ynddo fo ddim yn dangos fawr ddim o olion Duw da, dim o'r syniad Cristnogol o Dad. Felly, dywedwn, nad ydi Duw ddim yn bod.

## Y DYSTIOLAETH DDIWETHAF

*[Does neb i'w weld yn llefaru yma, ond dylai'r geiriau fod yn gwbl, gwbl eglur. Fel y mae'r llefaru yn dechrau bydd llifolau cryf ar lun o Grist yn cael ei groeshoelio. Fel y lleferir geiriau'r Adran Gyntaf fel leiha'r cylch golau, nes cyrraedd tywyllwch eithaf gyda'r geiriau 'efe a drengodd'.]*

### YR ADRAN GYNTAF

A phan ddaethant i'r lle a elwir Calfaria, yno y creoshoeliasant ef, a'r drwgweithredwyr; un ar y llaw ddeau, a'r llall ar yr aswy.

A'r Iesu a ddywedodd, 'O Dad, maddau iddynt, canys ni wyddant beth y maent yn ei wneuthur.'

A hwy a ranasant ei ddillad ef ac a fwriasant goelbren. A'r bobl a safodd yn edrych. Ac yr ydoedd hi ynghylch y chweched awr, a thywyllwch a fu ar yr holl ddaear hyd y nawfed awr. A'r haul a dywyllwyd, a llen y deml a rwygwyd yn ei chanol. A'r Iesu, gan lefain â llef uchel, a ddywedodd, 'O Dad, i'th ddwyllaw di y gorchymynaf fy ysbryd.'

Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a drengodd.

*[Yma, byddai creu argraff o faen mawr yn symud yn dra phriodol. Yna, fel y lleferir geiriau'r Ail Adran, fe ddechreua'r cylch o oleuni ail-gynnau – y broses oleuo o chwith i'r hyn sy'n digwydd yn yr Adran Gyntaf – y tro hwn o groes wag, heb Grist arni.]*

### YR AIL ADRAN

A'r dydd cyntaf o'r wythnos, ar y cynddydd, hwy a ddaethant at y bedd gan ddwyn y peraroglau a baratoesant; a rhai gyda hwynt. A hwy a gawsant y maen wedi ei dreiglo ymaith oddi wrth y bedd. Ac wedi iddynt fynd i mewn, ni chawsant gorff yr Arglwydd Iesu.

A bu, a hwy yn petruso am y peth hwn, wele dau ŵr a safodd yn eu hymyl mewn gwisgoedd disglair. Ac wedi iddynt ofni a gostwng eu hwynebau tua'r ddaear, hwy a ddywedasant wrthynt, 'Paham yr ydych yn ceisio y byw ymysg y meirw? Nid yw efe yma, ond efe a gyfododd.'

*[Mae'r golau ar ei danbeitiaf yma. Yna tywyllwch sydyn, cau llenni – os oes rhai – ac yna goleuo y lle, codi llenni – os oes rhai – a'r perfformwyr yn dod ymlaen.]*

## DIWEDD





**CHWARAEWYR  
COLEG Y GOGLEDD  
yn cyflwyno**

# **Cwmwl o DYSTION**

**gan GWYN THOMAS**  
**Cynhyrchiad JOHN OGWEN**



## **A OES YNA DDUW?**

Dyna bwnc ymchwiliad un o bwyllgorau arbennig y llywodraeth yn y ddrama hon. Fe gyflwynir i'r pwyllgor wahanol agweddau o fywyd yr ugeinfed ganrif ar ffurf tystiolaethau, rhai difrif a rhai llai difrif.

Ar sail y tystiolaethau hyn, beth yw penderfyniad terfynol y pwyllgor?

## **CHWARAEWYR**

Cyhoeddwr/Llefarwr 1  
Syr David Potiffar Wynne  
Syr Henry Mara  
Mary Babel MacKenzie  
Oswald Balaam  
Meistr Howard Hawk  
Ysgrifennyddes  
Tyst 1  
Carcharydd  
Carcharor  
Llefarwr 2  
J<sup>EAR</sup> Truman  
Al Vero  
BARNWIR  
Cyfreithiwr  
Dr. Albert E. Laxus  
Susan Suntan  
Llefarwr 3  
Dyn  
Llais

Rhydian Gwyn  
John Dilwyn Williams  
Robert Trefor Jones  
Meinir Pierce Jones  
Emrys Wynne  
Dewi Jones  
Modlen Lynch  
Huw Dylan  
Gareth Williams  
Gareth Wood  
Sioned Mair Evans  
Llinos Gruffydd  
Dewi W. Williams  
ALED LLOYD JONES  
Pauline Williams  
Iwan Rhys Edgar  
Delyth Wyn Williams  
Menai Lloyd Jones  
Gethin Clwyd  
John Ogwen  
W. A. ROBERTS

## HYSBYSEBION

ROBERT TREFOR JONES  
RUSSEL ISAAC  
DAWN BLACKWELL  
EIFIONA EVANS  
MEGAN WYN WILLIAMS  
RHIAN DWYNWEN  
EMYR ROBERTS  
PAULINE WILLIAMS  
TREFOR JONES MORRIS

RHEOLWR LLWYFAN  
GOLEUADAU

SAIN

LLWYFAN  
COLURO  
CYNHYRCHYDD

Dilwyn Owen Williams  
John Roberts  
Glyn Owen  
Dafydd Meirion  
Irfon Peris  
Trefor Jones Morris  
Llinos Gruffydd  
John Ogwen

## ATODIAD VI – *Culhwch ac Olwen*

Gwyn Thomas, *Culhwch ac Olwen*, opera gymuned a luniwyd ar gyfer Gŵyl Cricieth (anghyhoeddedig, c.1990).

*D.S: MAE'R HAWLFRAINT AR Y GEIRIAU HYN YN EIDDO I GWYN THOMAS AC NI CHANIATEIR EU DEFNYDDIO NA'U HATGYNHYRCHU HEB EI GANIATÂD EF, NEU ETIFEDDION YR HAWLFRAINT.*

---

### CULHWCH AC OLWEN

OPERA

CERDDORIAETH: GERAINT LEWIS

GEIRIAU: GWYN THOMAS

[KULHWCH AND OLWEN

AN OPERA

MUSIC: GERAINT LEWIS

WORDS: GWYN THOMAS]

# DRAMATIS PERSONAE

STORIŴR  
STORYTELLER

CILYDD: BRENIN, A THAD CULHWCH  
KILYDD: KING, AND FATHER OF KULHWCH

GOLEUDDYDD: GWRAIG GYNTAF CILYDD  
KILYDD'S FIRST WIFE.

MOCH GWYLLT  
WILD PIGS

GODDU: AIL WRAIG CILYDD  
KILYDD'S SECOND WIFE

LLUAN ERCH: MERCH GODDU  
DAUGHTER OF GODDU

CULHWCH: MAB CILYDD A MARCHOG IFANC  
SON OF KILYDD AND A YOUNG KNIGHT

ARTHUR: PRIF FRENIN PRYDAIN  
HIGH KING OF BRITAIN

BEDWYR: UN O FARCHOGION ARTHUR  
BEDIVERE: ONE OF ARTHUR'S KNIGHTS

CYNDILIG: UN O FARCHOGION ARTHUR  
KYNDILIG: ONE OF ARTHUR'S KNIGHTS

GWRHYR: UN O FARCHOGION ARTHUR  
ONE OF ARTHUR'S KNIGHTS

GWRAIG BUGAIL  
A SHEPHERD'S WIFE

OLWEN: MERCH BRYDFERTH YSBADDADEN  
THE BEAUTIFUL DAUGHTER OF YSBADDADEN

YSBADDADEN: CAWR ENBYD AC OFNADWY  
A TERRIFYING GIANT

MORGRUG  
ANTS

MWYALCHEN CILGWRI: ADERYN HEN IAWN  
THE BLACKBIRD OF THE WIRRAL: A VERY OLD BIRD

TYLLUAN CWM CAWLWYD: ADERYN HEN IAWN, IAWN  
THE OWL OF CWM CAWLWYD: A VERY, VERY OLD BIRD

ERYR GWERNABWY: ADERYN HYD YN OED YN HŴN  
THE EAGLE OF GWERNABWY: AN EVEN OLDER BIRD

EOG LLYN LLIW: Y CREADUR HYNAF SY’N BOD  
THE SALMON OF LLYN LLIW: THE OLDEST CREATURE IN EXISTENCE

MABON: BACHGEN A DDUCPWYD ODDI AR EI FAM YMHELL BELL YN JL  
A BOY SNATCHED FROM HIS MOTHER IN A DISTANT PAST

Y TWRCH TRWYTH: BAEDD DYCHRYNLLYD  
WILD BOAR: A TERRIFYING BOAR

PUM EPIL Y TWRCH TRWYTH  
FIVE SWINE SONS OF WILD BOAR

CORAU  
CHOIRS

DAWSWYR  
DANCERS

## ACT 1

### GOLYGFA 1

[CERDDORIAETH I AWGRYMU HEN OESOEDD.  
TYWYLLWCH. GOLAU AR Y STORIWR.]

STORIWR

Amser maith, maith iawn yn ôl,

Ynghynt na'r Oesoedd Canol

Yr oedd hi'n amser du o wyll –

Yr oedd hi'n Oesoedd Tywyll.

Ac yn yr amser tywyll hwn

Yr oedd 'na frenin 'ddyliwn,

Ac enw'r brenin ffyrnig

Ond bendigedig hwn oedd:

[DRYMIAU AC UTGYRN BRENHINOL, A GOLAU AR]

Cilydd fab Celyddon Wledig.

A gwraig y brenin Cilydd oedd:

[FEIOLINAU AC UTGYRN BRENHINOL, A GOLAU AR]

Goleuddydd deg, ferch Anlawdd,

A hi oedd y fwyaf cain

O freninesau Prydain.

[PYLU'R GOLAU AR Y BRENIN A'R FRENHINES]

Ond, ond – a hyn sy'n brudd –

Aeth hon, y deg Oleuddydd,

Yn wyllt, wyllt wallgo' hyd y fro

A mynd trwy'r wlad i grwydro.

[GOLAU AR Y LLWYFAN LLAWN. Y FRENHINES A GOLWG WYLLT ARNI YN  
MYND O'R NAILL GONGL O'R LLWYFAN I'R LLALL. GOLAU'N PYLU PETH.]

Fe'i cafodd hi ei hun yn un o'r llefydd

Mwyaf anial, pell o drefydd

A welwyd yn y byd erioed,

Ynghanol meysydd maith, a choed.

[SŴN TYLLUANOD. LLYGAID GLOYWON YN Y CEFNDIR TYWYLL.

YNA SŴN RHOCHIAN A SŴN RHUTHRO MOCH YN CAEL EI GODI'N UCHEL,

FRAWYCHUS. GOLEUO GRADDOL.]

Ac yno, yn y lle pell hwn

Daeth moch o'r coed a'i dychryn.

[DAWNS Y MOCH. RHAI WEDI EU GWISGO I GYNRYCHIOLI MOCH YN RHUTHRO YN BATRYMIG O'R NAILL OCHR I'R LLWYFAN I'R LLALL A THRWY EI GILYDD YN GWICHIAN A RHOCHIAN. CERDDORIAETH BRIODOL.

CORWS Y MOCH, DAU GRŴP, UN AR Y NAILL OCHR I'R LLWYFAN, A'R LLALL YR OCHR ARALL, OND YN CANU GYDA'I GILYDD. AR GYFER HYN DISTEWIR SŴN Y MOCH AC Y MAENT YN SEFYLL YN STOND, GAN AILSYMUD RHWNG PENILLION.]

Cenfaint o foch, cenfaint o foch

Yn rhochian yn groch ac yn gwichian.

Cenfaint o foch, cenfaint o foch

Yn rhochian yn groch ac yn gwichian.

Cenfaint o foch, cenfaint o foch

Yn rhuthro'n chwyrn a'u carnau'n mathru,

Mathru'r tir a'i dorri'n dalpiau.

Cenfaint o foch, cenfaint o foch

Yn rhuthro'n chwyrn a'u carnau'n mathru,

Mathru'r tir a'i dorri'n dalpiau.

Cenfaint o foch, cenfaint o foch

Yn rhochian yn groch ac yn gwichian.

[SGRECH MERCH, A THYWYLLWCH. YNA DISTAWRWYDD. SŴN CRIO BABI BACH.

GOLAU'N CODI. MOCH YN LLONYDD.]

CORWS Y MOCH:

Bu farw Goleuddydd,  
Bu hi farw;  
Ond ganwyd iddi  
Fabi bach  
A gafodd enw yn y tristwch,  
A'r enw hwnnw ydoedd Culhwch.

CUL-, sef y ffordd y cerddai'r moch,  
A -HWCH, hen air am fochyn.

CORWS CHWITH:

Cul-

CORWS DE

hwch.

CORWS CHWITH

Cul-

CORWS DE

hwch.

Y CORWS CYFAN:  
CULHWCH!



## ACT 1

### GOLYGFA 2

[MIWSIG PRIODAS.

CODI'R GOLAU AR CILYDD A GODDU, YNGHYD = LLUAN, MERCH GODDU – NID YW HI Y DECAF O WRAGEDD. Y MAENT I GYD MEWN DILLAD CRAND. Y MAENT YN AROS YN HOLLOL LONYDD NES I'R STORIWR DDWEUD EI BWT.]

STORIWR:

Ymhen tipyn da o dro

Fe briododd Cilydd eto;

Ei wraig oedd un o'r enw Goddu,

Sef gweddw'r brenin Doged.

I'w chanlyn hi fe ddaeth â'i merch,

Sef un o'r enw Lluan Erch.

[DAWR TRIAWD BRENHINOL YN FYW A SYMUDOL.]

GODDU [BARABLUS IAWN. WRTH CILYDD.]

A phaid ti ag edrych arna'-i'n syn –

Rwyf am i Lleuan – siwgwr del –

Gael gweld y mab 'ma s'gen ti

I weld a yw'n ei hoffi ...

CILYDD

Ond ...

GODDU

Felly, gyrra di heb oedi dim

I'w nôl o atom ni'n fan hyn.

[CERDDORIAETH ARWROL. CULHWCH YN DOD I'R LLWYFAN.]

STORIWR

Culhwch, fab Cilydd, fab Celyddon Wledig.

GODDU

O, o, wel wel

Mae hwn yn ddel

*Mae hwn yn ddel.*

Lluan, ydi hwn yn ddel?

LLUAN

Wel ...

GODDU

Weli di, os priodi di  
Y Culhwch hwn fe ddaw i ni  
Holl gyfoeth mawr ei dad o.  
Felly, cariad, prioda fo.

LLUAN

Wel ...

GODDU

Dyna ni 'te, yli Culhwch:

CÂN GODDU A CHULHWCH

GODDU

Weli di, mab, fel hyn mae hi-i fod  
Rwyt ti'n mynd i briodi â Lluan  
Y ferch hyfryd hon, mor deg ac mor llon –  
Bydd bywyd i chi'n O! mor ddiddan.

CULHWCH

Wel ... wel ... diolch yn fawr  
Am y cynnig ynte,  
Ond ... ond ... yr ydw i'n awr  
Yn rhy ifanc i briodi  
Er bod hynny'n drueni,  
Ond diolch i chi yr un fath.

GODDU

Weli di, mab, fel hyn mae hi-i fod  
Rwyt ti'n mynd i briodi â Lluan  
A 'dwn i ddim be sy'n bod arnat ti –  
Yn meddwl fel yna mor wirion.

CULHWCH

Wel ... wel ... diolch yn fawr  
Am y cynnig ynte,

Ond ... ond ... y mae hi yn awr  
Yn rhy gynnar i briodi  
Er bod hynny'n drueni,  
Ond diolch i chi yr un fath.

GODDU

Weli di, mab, fel hyn mae hi-i fod  
Rwy'ti'n mynd i briodi â Lluan  
A chynnar neu ddim, rwy'n dweud wrthyt ti  
Am beidio ag ymddwyn fel twpsyn.

CULHWCH

Wel ... wel ... diolch yn fawr  
Am y cynnig ynte,  
Ond ... ond ... nid yw hi yn awr  
Ddim yn addas i briodi  
Er bod hynny'n drueni,  
Ond diolch i chi yr un fath.

GODDU

Weli di, mab, fel hyn mae hi-i fod  
Rwy'ti'n mynd i briodi â Lluan  
Ac addas neu ddim, rwy'n dweud wrthyt ti  
Mai fi fydd i ti'n fam-yng-nghyfraith.

[DIWEDD Y GÂN]

CULHWCH

Na, na, na, na!

GODDU

O'r gorau, mab, mi wn i be –  
Dim gwraig i ti, os na wnei di  
Briodi Olwen, sef yr Olwen

Sy'n ferch i'r Pencawr YSBADDADEN!

Olwen, Olwen.

[CERDDORIAETH NODWEDD OLWEN, DIABETIG O RAMANTAIDD]

CULHWCH

Dad, be wna i?

Be wna i, dad?

CILYDD

Mi wn i be y gelli di

Ei wneud, sef, heb ymdroi

Mynd at dy gefinder, ARTHUR.

CULHWCH

Arthur? Arthur!

Mynd at y Brenin Arthur!

CILYDD

Ac fe ddof fi

I'th ganlyn di

I lys y Brenin ...

GODDU

Na, na na na, wnei di ddim.

Fe gei di aros yn fan hyn

Efo fi a Lluan Erch.

CULHWCH

Druan!

Druan, druan,

Druan o 'nhad!

[TYWYLLWCH SYDYN.]

## ACT 1

### GOLYGFA 3

[Y GOLAU'N CODI AR LYS TRA GODIDOG Y BRENIN ARTHUR, MAE'R LLE YN LLAWN LLIWIAU A LLAWN GOLEUNI.]

#### CÔR

Dyma frenin mwya'r bydoedd,  
Dyma'r dewraf o'r brenhinoedd,  
Yn ei lys y mae marchogion,  
Milwyr enbyd, a morynion,  
Mae helaethrwydd a haelioni,  
Moesau teg a phob daioni.

Dyma gartref ein gogoniant  
Lle mae mawredd, lle mae llwyddiant,  
Lle mae grym a lle mae harddwch –  
Dyma gartref pob dedwyddwch.  
Fe gododd Prydain o'i thrueni  
A dod i'r llys lle mae goleuni.

Dyma Arthur Fawr, fendigaidd  
Ar orseddfainc ddisglair, gannaid,  
Daeth â'r golau i dywyllwch,  
Daeth â llonder lle bu tristwch:  
Mae gogoniant yn ddifedur  
Yma'n llys y Brenin Arthur.

#### STORÏWR [YN CYHOEDDI]

Culhwch, fab Cilydd, fab Celyddon Wledig.

#### ARTHUR

Mab Cilydd, fab Celyddon!  
Croeso, yr wyt ti  
Yn gefnder llawn i mi.

#### CULHWCH

Diolch, frenin mwyaf Prydain.  
Ac yn awr y mae gen i  
Eisio gofyn hyn i ti:  
A elli di fy helpu i  
I ennill Olwen,  
Merch y Pencawr Ysbaddaden,  
Yn wraig?

#### ARTHUR

Olwen? Olwen?

[CERDDORIAETH NODWEDD OLWEN. PYLU.]

ARTHUR

Olwen, Olwen, na, na  
Alla'-i ddim gwneud hyn'na  
Am na wn i,  
Weli di, un dim oll amdani.

Oes 'na rywun yn y llys a glywodd air am Olwen?

[ATEB Y LLYS, AR GÂN.] \*

Ni chlywsom ni un gair am Olwen,  
Merch y Pencawr Ysbaddaden.

ARTHUR

Mi ddweda-i iti Culhwch  
Be wna-i i'th helpu di –  
Anfon negeswyr ar draws y byd i gyd.

STORÏWR

A chychwynnodd myrdd o weision Arthur i chwilio'r byd am Olwen.

[PYLU GOLAU CEFN Y LLWYFAN, FEL NAD YW'R LLYS A'I BOBL YN  
WELADWY. CODI GOLAU AR FLAEN Y LLWYFAN. MARCHOGION YN MYND AR  
DRAWS Y LLWYFAN O UN OCHR I'R LLALL AC YN ÔL. PAN GLYWIR Y  
GERDDORIAETH A'R GEIRIAU Y MAENT YN STOPIO.]

[PASTICHE O GERDDORIAETH WYDDELIG.]

STORÏWR

'Rôl crwydro Iwerddon o un pen i'r llall,  
'Doedd Olwen ddim yno – er y chwilio di-ball.

[PASTICHE O GERDDORIAETH FFRAINC.]

STORÏWR

Trwy Ffrainc i gyd, yn wir i chi,  
Ni chlywsant air am *la chérie*.

[PASTICHE O GERDDORIAETH INDIA.]

STORÏWR

Ar hyd India buont yn crwydro  
Heb glywed gair amdani yno.

[PYLU GOLAU. NEGESWYR YN MYND. CODI'R GOLAU AR Y LLYS.]

CÔR Y LLYS [CANU]

Ni chlywsom ni un gair am Olwen,  
Merch y Pencawr Ysbaddaden.

STORIŴR

Dim Olwen yma,  
Dim Olwen draw;  
A ydi hi'n bod? –  
Dyna'r cwestiwn mawr am Olwen,  
Merch y Pencawr Ysbaddaden.

ARTHUR [CANU]

Aeth fy negeswyr hyd y byd  
Heb weld dim ôl o Olwen.  
Culhwch, rhaid i ti dy hun yn awr  
Fynd yng ngwmni rhai marchogion  
I chwilio am y ferch a'r cawr.

ARTHUR [SIARAD]

Dos gyda Bedwyr  
[BEDWYR YN DOD YMLAEN]  
Un o'r dewraf un o'm milwyr.

Dos gyda Chynddilig  
[CYNDDILIG YN DOD YMLAEN]  
Sy'n gallu tywys yn ddiogel  
Yn y mannau mwyaf dirgel.

A dos gyda Gwrhwr  
[DOD YN EI FLAEN]  
Sy'n deall pob iaith sydd yn y byd,  
A iaith anifeiliaid hefyd.

ARTHUR [CANU]

Gyda Chulhwch fe ewch chi  
I weld a oes 'na yn y byd  
Gawr o'r enw Ysbaddaden  
A merch a elwir 'Olwen'.

[CERDDORIAETH NODWEDD OLWEN. TYWYLLWCH.]

## ACT 1

### GOLYGFA 4

[ALLAN YN Y WLAD. MAE'R OLYGFA'N UN BRAF IAWN, AC YN LLAWN LLIW A GOLAU. ADAR YN TRYDAR. Y MAE GWRAIG YN TANNU DILLAD AR WRYCH.]

#### STORIWR

Bu Culhwch a Marchogion Arthur  
Ar daith, ar daith  
Am fisoedd maith  
Yn crwydro'r byd yn brysur, brysur  
Heb weld yr un golwg ar Olwen  
Nac Ysbaddaden chwaith.  
Ond un diwrnod fe ddaethant  
I le braf iawn mewn gwlad bell, bell  
A chyfarfod Gwraig i Fugail.

#### GWRAIG [YN CANU WRTH EI GWAITH]

Hei ho, heidi ho,  
Does dim bugeiles yn y fro  
Sydd mor llawen wrth ei gwaith  
Mewn gwlad heb arni staen na chraith ...

[YN GWELD CULHWCH A'R MARCHOGION YN DYNESU. YN SIARAD.]

Helo, a phwy ydych chi?

#### BEDWYR

Marchogion Arthur ydym ni.

#### GWRAIG

A be wnewch chi mor bell o'r llys?

#### CULHWCH

Chwilio am ferch o'r enw Olwen.

#### GWRHYR

Merch y Pencawr Ysbaddaden.

#### GWRAIG

Wel tewch da chi.  
A pham, os ca' i ofyn,  
Yr ydych chi fel hyn  
Yn chwilio amdani hi?

#### CULHWCH

Am yr hoffwn i ei phriodi.

#### GWRAIG



Wel, rydych chi'n lwcus,  
Achos dyma hi –  
Fel ar bob dydd *Iau*\* –  
Yn dod yma i olchi ei phen.

[\* Gellir newid y dydd i ffitio'r perfformiad.]

[MIWSIG NODWEDD OLWEN. PYLU.]

STORÏWR

Dyma hi Olwen,  
Dyma hi Olwen  
Yn dyner yn dynesu.

[YN AWR Y GWELWN NI OLWEN. Y MAE'N DYNESU'N ARAF IAWN A  
GOSGEIDDIG.]

CÔR, YN CANU

O, teg yw hi, o, teg yw hi;  
Ei chroen yn wyn fel ewyn lli.

O, teg yw hi, o, teg yn wir,  
A'i golwg eglur fel dŵr clir.

O, teg yw hi, o, teg ei gwallt,  
Fel blodau'r banad' ar yr allt.

O, teg yw hi, o, teg ei grudd,  
Fel rhosyn coch yn fflam y dydd.

O, teg yw hi, mor loyw, glaer  
Mewn mantell o liw coch ac aur.

O, meillion lawer yn ei hôl  
A dyf yn wynion hyd y ddôl.

RHAN CHWITH Y CÔR  
Ôl-

RHAN DDE Y CÔR  
wen.

RHAN CHWITH Y CÔR  
Ôl-

RHAN DDE Y CÔR  
-wen.

Y CÔR CYFAN:  
OLWEN!

CULHWCH

O, Olwen! O, Olwen!

OLWEN

A be 'di d'enw di?

CULHWCH

Culhwch, fab Cilydd, fab Celyddon Wledig.

OLWEN

Enw rhyfedd braidd, ond enw crand.

CULHWCH

O, Olwen! O, Olwen!

OLWEN

Yli, Culhwch, dwed rywbeth heblaw 'O, Olwen'.

CULHWCH

O, OI ...

OLWEN

Ie, Culhwch?

CULHWCH

A wnei di fy mhriodi i?

OLWEN

Mae hyn braidd yn sydyn, ond gwnaf.

CÂN CULHWCH AC OLWEN

OLWEN

Ond, ond

Cyn i neb fy mhriodi i

Rhaid iddo weld fy nhad.

CULHWCH

Mi wna' i hynny, creda fi

A'i wneud o gyda chryn fwynhad.

OLWEN

Ond, ond

Cariad bach, mae 'nhad yn gawr,

Yn fawr, yn fawr, a ddim yn glên.

CULHWCH

Dim ots gen i, fy nghariad i,

Af ato, Olwen, gyda gwên.

OLWEN

Ond, ond

Mae nhad yn arfer lladd pob un  
Ddaw draw i ofyn am fy llaw.

CULHWCH

'Dyw hynny ddim yn codi ofn  
Ac nid yw'n peri imi fraw.

OLWEN

Ond, ond

Os noda nhad rai tasgau cas  
Rhaid iti ddweud y gwnei bob un.

CULHWCH

Pa dasgau bynnag roddir im  
Mi wna i'r cyfan, o fy mun!

OLWEN

O, Culhwch, Culhwch,  
Ti yw fy arwr i.

CULHWCH

O, Olwen, Olwen,  
Ti yw fy nghariad i.

[DIWEDD Y GÂN.]

OLWEN

Ta-ta, ta-ta tan eto.

CULHWCH

Ta-ta, ta-ta tan eto.

[Y MAE OLWEN YN MYND ODDI AR Y LLWYFAN. Y GOLAU I GYD YN PYLU, AR WAHÂN I LIF-OLAU AR GULHWCH SYDD YNG NGHANOL Y LLWYFAN A GWÊN WIRION AR EI WYNEB. DAL HYN AM YCHYDIG, A DIFFODD.]

## ACT 1

### GOLYGFA 5

[NEUADD PLAS YSBADDADEN SYDD YMA. TYWYLLWCH HOLLLOL, SŴN TARANAU, FFLACHIADAU O FELLT YN YR AWDITORIWM TRA BO'R LLENNI WEDI CAU. CERDDORIAETH Y DDAWNS MACABRE YN DECHRAU, A LLENNI'N AGOR.

Y MAE'R DDAWNS EI HUN YN DECHRAU – TRA BO'R CÔR YN SIANTIO'R GEIRIAU, BOB YN BENNILL ISOD, Y MAE'R DDAWNS YN STOPIO A PHAWB YN AROS YN BERFFAITH LONYDD, YNA'N AILDDECHRAU EU DAWNS.]

CÔR [SIANTIO?]

Plas mawr, mawr yw plas y cawr;  
Plas mawr, mawr yw plas y cawr;  
Plas mawr mawr yw plas y cawr  
A elwir: Ysbaddaden.

Gwŷr ffôl, ffôl – 'ddaeth 'run yn ôl;  
Gwŷr ffôl, ffôl – 'ddaeth 'run yn ôl;  
Gwŷr ffôl, ffôl – 'ddaeth 'run yn ôl  
O blas mawr Ysbaddaden.

Esgyrn, esgyrn, dim ond esgyrn  
Sydd ar ôl o'r gwŷr ffôl, ffôl  
Ym mhlas mawr Ysbaddaden.

'Sbrydion, 'sbrydion yn y nos;  
Esgyrn, esgyrn, dim ond esgyrn  
Sydd ar ôl o'r gwŷr ffôl, ffôl  
Ym mhlas mawr Ysbaddaden.

Plas mawr, mawr yw plas y cawr;  
Plas mawr, mawr yw plas y cawr;  
Plas mawr mawr yw plas y cawr  
A elwir: Ysbaddaden.

[TARANAU A THYWYLLWCH, PAWB YN CLIRIO ODDI AR Y LLWYFAN. YNA GOLEUO ARAF, ARAF.

Y MAE PEN ENFAWR YSBADDADEN YN LLENWI CEFN Y LLWYFAN. Y MAE'N BEN GWALLTOG, ARUTHR, EI WYNEB YN FLEWOG, EI LYGIAD YNGHAU. DIM OND LLE I'R PEN YN UNIG SYDD YNA.

DAW CULHWCH A'R MARCHOGION I'R LLWYFAN, YN BETRUS. SAIF CULHWCH AR UN OCHR, Y DDE, A'R GWEDDILL O'R MARCHOGION AR Y CHWITH.

RHAID I YSBADDADEN GAEL LLAIS CRYF, CRAS. DISTAWRWYDD LLETHOL, YNA RHU ENBYD GAN YSBADDADEN, Y MARCHOGION YN DYCHRYN, EI BACHU HI O'R LLWYFAN. SAIB. Y MARCHOGION YN SBECIAN ROWND OCHRAU'R LLWYFAN, YN ATGOFFA RHYWUN O LYGOD BACH, OFNUS, OND YN DOD ALLAN ETO AC YN SEFYLL AR Y NAILL OCHR A'R LLALL I'R PEN, FEL

CYNT (FEL NA FYDD EU CEFNAU AT Y GYNULLEIDFA). Y MAENT YN SYLLU I FYNY AT BEN YSBADDADEN.]

YSBADDADEN [LLYGAID YNGHAU]

Pwy sy 'na?

Pwy sy 'na yn fy nhŷ i?

BEDWYR

Marchogion y Brenin Arthur.

YSBADDADEN

Y Brenin Arthur?

A phwy ydi hwnnw pan fydd o adre?

CYNDILIG

Prif frenin Ynys Prydain, a brenin mwya'r byd.

YSBADDADEN [CHWERTHIN BRAWYCHUS]

Brenin mwya'r byd!

Brenin mwya'r llygod efallai!

Ond pam yr ydych chi –

Farchogion brenin mwya'r byd! –

Yma, yn fy nhŷ i?

CULHWCH

Culhwch ydw i,

ac rydw i am ofyn

a ga' i briodi Olwen?

YSBADDADEN [RHU ENBYD]

Priodi Olwen!

Priodi Olwen!

Priodi fy Olwen i?

CULHWCH

Felly'n union.

YSBADDADEN

Lle mae fy ngweision di-ddim i?

Lle mae'r gwehilion hynny?

Weision, weision,

dowch yma i agor fy llygaid i.

[CRIW O RYW CHWECH YN DOD GAN GARIO DAU BOLYN EFO BACHAU AR EU BLAENAU. BYDD BACHAU AR DDOLENNAU AR AMRANNAU YSBADDADEN. TRWY ROI'R BACHAU HYN YN Y DOLENNAU GELLIR AGOR LLYGAID Y CAWR. YMA CEIR RHYW FATH O DDAWNS-WAITH, A ALL GYD-FYND Â'R GEIRIAU NEU DDOD O'U BLAEN.]

CÔR [CÂN NEU SIANT]

Cawr mawr yw hwn,  
Cawr mawr yw hwn,  
Mae llygaid hwn,  
Mae llygaid hwn  
Yn drwm, yn drwm,  
Mor drwm na allant agor.

Hwb hwb i hwn,  
Hwb hwb i hwn,  
I lygaid hwn,  
I lygaid hwn  
Sy'n drwm, yn drwm,  
Mor drwm na allant agor.

Mae llygaid hwn,  
Mae llygaid hwn  
Mor drwm, mor drwm,  
Mor drwm, mor drwm;  
Mae llygaid hwn,  
Mae llygaid hwn yn agor.

[MAE LLYGAID YSBADDADEN YN AGOR. Y MAE CANHWYLLAU EI LYGAID YN  
DDUON A GWYNION EI LYGAID YN GOCHION.]

YSBADDADEN

A phrun o'r cynrhon hyn ydi Culhwch?

CULHWCH

Y fi ydi Culhwch.

CÂN YSBADDADEN

Ai hwn ydi o,  
Ai hwn ydi'r dyn,  
Y sgifflyn bach yma,  
Mor wan a di-lun?

[CHWERTHIN EGR]

Wel, hogiau bach, mae f'Olwen i  
Yn haeddu gwell na hwn,  
Yn haeddu gwell na hwn,  
Yn haeddu llawer gwell na hwn.

[DWEUD Y GEIRIAU NESAF UN, AC YNA MYND YMLAEN Â'T GÂN.]

Pam nad ei di adre i fwyta tipyn o uwd?

[CÂN]

Ai hwn ydi o,  
Ai hwn ydi'r dyn,  
Y sgifflyn bach yma,  
Mor wan a di-lun?

Mae eisio gras i gawr fel fi  
Mae eisio gras me' fi,  
Mae eisio gras me' fi  
Wrth weld llinynnau trôns y byd  
Yn dod i 'nhŷ a bod mor hy  
A gofyn am fy Olwen.

Ai hwn ydi o,  
Ai hwn ydi'r dyn,  
Y sgifflyn bach yma,  
Mor wan a di-lun?

[DIWEDD CÂN YSBADDADEN.]

CULHWCH  
Y fi ydi o,  
Y fi ydi'r dyn.

YSBADDADEN  
Wêl – 'stedda, 'stedda sgifflyn.

[GWAS YN DOD Â CHADAIR IDDO.]

Wyddost ti be mae pob un  
sy'n dod i geisio Olwen  
yn gorfod ei wneud?

CULHWCH  
Na wn i, dadi.

YSBADDADEN  
Dadi! Dadi! [RHUO]  
Mi ro'-i iti 'Dadi'.  
Mae'n rhaid i bob un gyflawni tasgau  
anrhaethadwy  
ac anghyflawnadwy  
ac annychmygadwy . . .

CULHWCH  
Iawn.

YSBADDADEN  
Heb orffen eto –

ac anghymeradwy  
ac annichonadwy  
o ANODD!

CULHWCH  
Iawn. Noda di dy dasgau.

YSBADDADEN  
Weli di, weli di  
y maes mawr acw  
draw yn fan'cw?

CULHWCH  
Gwelaf.

YSBADDADEN  
Wel, amser maith maith maith maith yn ôl  
fe heuwyd llond naw llestr o had llin –  
ti'n gwybod be 'di hynny? –  
yn y maes mawr acw draw yn fan'cw.

CULHWCH  
Felly.

YSBADDADEN  
Ond ddar'u nhw ddim tyfu.  
Felly, felly titw bach,  
dy dasg di fydd hel-yr-hadau-hyn-i-gyd,  
i gyd bob un, a'u hau nhw eto  
i dyfu i wneud penlliain gwyn i Olwen.

CULHWCH  
At ei phriodas.

YSBADDADEN  
O ie. At ei phriodas! [CHWERTHIN EGR]

CULHWCH  
Hawdd. Mae hyn'na'n hawdd.  
Nesa.

YSBADDADEN  
Hawdd! Hawdd! Y pwdryn tila!  
Hawdd, ie? – Wel, beth am hyn 'te:  
efallai na chredi di ddim, ynte, ond does yna'r un grib a siswrn yn y byd  
a fedr drin fy ngwallt i . . .

CULHWCH  
Mi goelia'-i hynny'n hawdd.



YSBADDADEN

Be be be; be oedd hyn'na?  
Be ddwedaist ti'r llymru?

CULHWCH

Nesa plis.

YSBADDADEN

Ie, ie – ble'r oeddwn i hefyd – o ie;  
er mwyn i mi gael trin fy ngwallt at  
[CHWERTHIN GWATWARUS]  
briodas Olwen, rhaid i ti gael, i mi,  
y grib a'r siswrn sy rhwng dwy glust  
Y Twrch Trwyth!

CULHWCH

Twrch Trwyth?

YSBADDADEN

Y baedd  
creulona hylla ffyrnica,  
a mwyaf annymunol  
yn y byd i gyd yn fflat.  
Rhaid imi gael y rhain i drin fy ngwallt.  
A, thra dy fod di wrthi,  
llawn cystal iti hefyd ddod â'r rasal  
sy rhwng dwy glust y Twrch i drin fy marf  
er mwyn i mi gael bod yn grand ar gyfer  
[CHWERTHIN GWATWARUS]  
priodas Olwen.

CULHWCH

Dyna'r ail dasg: mae hyn i gyd yn hawdd.

YSBADDADEN

Hawdd? Mi gei di weld pa mor hawdd, pry, achos, achos  
mi fydd arnat ti eisio neb llai na  
Mabon fab Modron . . .

CULHWCH

Mabon? Fab Modron?

YSBADDADEN

Iawn tro cynta. Hwnnw.

CULHWCH

Pwy ydi hwnnw?

YSBADDADEN

Cwestiwn da, o gyfaill hoff!  
Rhywun ydi hwnnw nad oes yna neb; neb  
wedi ei weld o ers  
cannoedd ar gannoedd ar gannoedd  
o flynyddoedd . . .

CULHWCH

Cannoedd o flynyddoedd?

YSBADDADEN

Cannoedd ar gannoedd, er pan ddygwyd o oddi ar ei fam  
pan nad oedd o ond babi,  
babi bach, bach, bach, tair nos oed.  
Does yna neb – N, E, B – neb  
yn gwybod ple y mae o.

CULHWCH

Hawdd hawdd; tasg nesa plîs.

YSBADDADEN

[RHUO MAWR, MAWR]  
Hawdd!

CULHWCH

Hawdd.

YSBADDADEN

Anodd.

CULHWCH

Hawdd.

YSBADDADEN

Anodd.

CULHWCH

Hawdd.

YSBADDADEN

Anodd anodd anodd. Anhygoel o ofnadwy o felltgedig o anodd, [SAIB] pwt.

CULHWCH

Hawdd. Nesa.

YSBADDADEN

Dim Twrch heb Bwlch a Chyfwlch a Syfwlch.

CULHWCH

Helwyr?

YSBADDADEN

Cywir.

CULHWCH

Hawdd . . .

YSBADDADEN

Eu tarianau

CULHWCH

Hawdd. Ne . . .

YSBADDADEN

Heb orffen, gyfaill. Dim Twrch heb

Bwlch a Chyfwlch a Syfwlch

[CYFLYMU]

eu tarianau eu cleddyfau eu gwaywffyn eu cŵn eu ceffylau eu gwagedd a'u plant

[ARAFU] heb anghofio eu neiniau a'u teidiau.

CULHWCH

Hawdd, hawdd. Nesa.

STORĪWR

Ac aeth y cawr mawr Ysbaddaden

ymlaen, ac ymlaen, ac ymlaen

am dair awr fawr, hir, hir

yn nodi rhesi o dasgau y byddai'n rhaid i Gulhwch eu gwneud.

YSBADDADEN

Dyna ni rŵan, bach,

rydw i'n meddwl y gwnaiff hyn'na'r tro:

dydw i ddim eisio, wy'st ti,

fod yn rhyw galed efo ti!

[RHUO CHWERTHIN NES BOD Y LLE YN DISABEDAIN.]

CULHWCH

Chwertha di faint fynni di,

ond mi gwblha i'r tasgau hyn i gyd, i gyd,

ac mi enilla'-i Olwen yn wraig.

YSBADDADEN

[YN NEWID EI DŌN A THROI'N FYGYTHIOL A BRAWYCHUS A SINISTR.]

Yr ydw i, wel di,

wedi clywed geiriau fel'na lawer gwaith.

Rydw i, fel y gweli di,

yma o hyd,

ac Olwen fy merch efo fi.

Dos di rŵan, pwty'n;

mae sgithr-ddannedd hir y Twrch Trwyth  
yn ysu am dy berfedd coch di,  
a choluddion  
Marchogion 'dewr' y Brenin Arthur.  
[CHWERTHIN BRAWYCHUS]

#### STORIWR

'Allwn ni ddim sôn am bob tasg  
a nododd Ysbaddaden;  
yr hyn a wnawn ni ydi sôn  
am dair o'r tasgau anodd,  
ofnadwy o anodd  
a nododd Ysbaddaden;  
sef cael penllian gwyn i Olwen;  
cael hyd i Fabon fab Modron,  
yr un na welwyd ers canrifoedd ar ganrifoedd maith;  
a chael y grib, a'r rasal a'r siswrn i drin gwallt ac eillio Ysbaddaden.

[LLEN A THYWYLLWCH.]

## ACT 1

### GOLYGFA 6

[Y MAE CULHWCH AC OLWEN GYDA'I GILYDD YN Y WLAD AR DDIWRNOD BRAF.]

OLWEN

Be ddwedodd fy nhad, beth ddywedodd o?

CÂN CULHWCH AC OLWEN

CULHWCH

Bod rhaid i mi, bod rhaid i mi  
Gyflawni tasgau anodd.

OLWEN

Fel hyn y bu hi, yn union fel hyn  
Bob tro y ddi rhywun a gofyn  
Iddo am gael fy mhriodi.

CULHWCH

Mi wyddwn i fod rhaid i mi  
Gyflawni tasgau anodd.

OLWEN

Paid â pheryglu dy fywyd fel hyn,  
Dychwela at Arthur a derbyn  
Na all un dyn fy mhriodi i.

CULHWCH

Fe af i geisio help yn awr  
I drechu Ysbaddaden.

OLWEN

Diolch, a dos di yn awr ar dy hynt,  
Dychwela yn ddiogel o'r helynt;  
Tyrd yn ôl i 'mhriodi i.

[Y MAE'R DDAU YN CUSANU. OND YNA CLYWIR LLAIS YSBADDADEN.  
FEL Y MAE'N LLEFARU Y MAE'R DDAU'N CAEL EU GWAHANU FESUL TIPYN  
NES BOD UN AR Y NAILL OCHR I'R LLWYFAN A'R LLALL YR OCHR ARALL.]

YSBADDADEN

'Ddaeth neb yn ôl,  
'ddaeth yr un dyn bach yn ôl  
o'r ymgais ffôl i geisio  
cyflawni'r tasgau nodais i.

'Ddoi dithau, Culhwch bach,  
byth byth yn ôl i briodi Olwen,  
fy merch i, Ysbaddaden.

[Y MAE CULHWCH YN TROI A CHODI EI LAW. MAE OLWEN YN CODI EI LLAW.  
GRADDOL DYWYLLU. LLEN.]

## **EGWYL**

## ACT 2

### GOLYGFA 1

[DIWRNOD BRAF YN Y WLAD. AR UN OCHR I'R LLWYFAN Y MAE TWMPATH.]

STORŪWR

Un diwrnod yr oedd Gwrhŷr, un o farchogion Arthur ac un a oedd yn deall pob iaith, gan gynnwys iaith anifeiliaid, yn crwydro'r wlad, pan glywodd o sŵn rhyfedd iawn.

[GWAEDDAU TENAU, ENBYD MORGRUG.]

GWRHYR

[SYDD YN LLAWN ARFOG]

Be ydi'r sŵn 'ma os gwn i?

[ARGRAFF GLYWADWY A GWELADWY O DÂN. MAE ACTORION WEDI EU GWNEUD I EDRYCH YN DEBYG I FORGRUG YN TROI MEWN DYCHRYN O'I GWMPAS.]

MORGRUG

[AMRYW TRWY EI GILYDD, OND BOD Y NEGES YN GLIR I'R GYNULLEIDFA.]

Help! Help mae tân ger ein tŷ,

tân ger ein tŷ.

Help! Help!

mae tân ger ein tŷ ni,

HELP!

GWRHYR

Tân ger eu tŷ!

[YN CYFFROI. MAE'N TYNNU EI GLEDDYF, A RHUTHRO AT Y TWMPATH. TRWY YMDRECH FAWR GYDA'I GLEDDYF Y MAE'N LLWYDDO I DORRI'R TWMPATH ODDI WRTH Y DDAEAR A'I SYMUD ODDI AR Y LLWYFAN. YNA Y MAE'N STAMPIO O GWMPAS AC Y MAE'R TÂN YN TAWELU A DIFFODD. GWRHYR YN TYNNU EI HELMED, A SYCHU CHWYS ODDI AR EI DALCEN.]

MAE MORGRUG YN YMDDANGOS O'I GWMPAS.]

MORGRUGYN 1

O diolch byth, mae'n tŷ ni'n sâff.

MORGRUGYN 2

Ein tŷ ni'n sâff, O diolch byth.

MORGRUGYN 3

O syr, diolch syr, diolch;  
diolch yn fawr i chi.

MORGRUGYN 4

Mae'n drueni ein bod ni mor fach,  
neu fe allem gynnig help i chi  
ar ryw dasg neu'i gilydd.

MORGRUGYN 5

O diolch, syr, O diolch syr.  
diolch yn fawr i chi.

GWRHYR

Mae'n dda gen i  
gael eich helpu chi.

MORGRUGYN 4

O mi fuasai hi mor dda gen i  
petaem ni'n gallu'ch helpu chi  
i ddangos ichi'n diolch.

GWRHYR

Wêl ... 'rhoswch ... 'rhoswch, ennyd bach –  
mi fedrwch chi hel hadau?

MORGRUG 6

Wrth gwrs, wrth gwrs,  
mae hynny'n hawdd.

GWRHYR

Wel, diolch byth am hynny.  
Welwch chi y maes mawr acw?  
[YN CYFEIRIO DRAW]

MORGRUG 6

Nacw'n fan'cw,  
gwelwn siŵr.

GWRHYR

Yn y maes 'na 'mhell yn ôl,  
ymhell bell iawn yn ôl  
fe heuwyd hadau llin,  
a, wyddoch chi, na thyfodd un,  
na thyfodd UN o'r hadau hyn.

MORGRUG 1

Taw â dweud!

GWRHYR

Yn awr 'te, dyma'r cwestiwn,  
a allech chi, sy'n forgrug bach,  
hel pob un o'r hadau hyn,  
POB UN o'r hadau hyn i mi?



### MORGRUG 6

Wrth gwrs, wrth gwrs,  
mae hynny'n hawdd.

### GWRHYR

Ar ôl eu hel nhw i gyd bob un,  
a wnewch chi, wedyn, roi pob un  
mewn llestri y do' i â nhw  
i fan'ma ichi'u llenwi.

### MORGRUG I GYD

Wrth gwrs, wrth gwrs,  
mae hynny'n hawdd.

[TYWYLLU'R LLWYFAN ENNYD. ERBYN CODI'R GOLAU Y MAE NAW LLESTR  
YNO YNG NGHEFN Y LLWYFAN, A GWRHYR YN SEFYLL WRTH EU HYMYL YN  
SIECIO – Y MAE GOFYN CAEL DIGON O LE AR GYFER DAWNS-HEL-HADAU Y  
MORGRUG.

Y DDAWNS-HEL-HADAU. MIWISIG MAIN, PRYSUR. MAE'R MORGRUG YN GWEU  
TRWY'I GILYDD AC YN CARIO HADAU O FAINT PELI TENIS O OCHRAU'R  
LLWYFAN. SYMUD PATRYMOG, GEOMETRIG, CELFYDD. Y MAE POB UN YN  
GOLLWNG YR HADAU I'R LLESTRI.

MAE'R LLESTRI YN AMLWG YN LLAWN AR ÔL RHAI MUNUDAU  
(PENDERFYNIAD Y CYFARWYDDWR) O'R DDAWNS.

ERBYN HYN Y MAE'R LLWYFAN YN TYWYLLU RYWFANT. GWELIR PELEN  
GRON YR HAUL AR GEFN Y LLWYFAN.]

### GWRHYR

Wel diolch forgrug bach i chi  
am wneud hyn oll i'm helpu i.  
Mae'r llestri hyn i gyd yn llawn  
ond am UN hedyn bach.  
Un hedyn bach sy ar ôl.

### MORGRUGYN 1

Paid ti â phoeni, Gwrhwr.  
Mae un ohonom ni yn gloff,  
ond fe ddaw o cyn bo hir.

[SAIB FER O AROS. YR HAUL WEDI MACHLUD MYMRYN. YNA CERDDORIAETH  
Y DDAWNS YN ARAF, A'R MORGRUGYN CLOFF YN LLUSGO DOD Â'R HEDYN  
OLAF UN A'I ROI YN Y LLESTR PRIODOL.]

### GWRHYR

Wel, forgrug bach,  
rwy'n diolch yn fawr,  
yn fawr iawn, iawn i chi.  
Efo'ch help yr ydw i  
wedi llwyddo i hel yr holl had llin

i wneud penlliain gwyn i Olwen  
ar gyfer ei phriodas.  
Rydym ni wedi cyflawni un o dasgau  
anodd Ysbaddaden.

MORGRUG I GYD [YN GWEIDDI]  
Hwre! Hwre!

[Y MAE'R MORGRUG YN SEFYLL YN UN RHES O FLAEN Y LLESTRI HADAU.  
Y MAE'R HAUL YN MACHLUD YN GYFAN GWBL. TYWYLLWCH, AC YNA  
GOLEUO. Y MAE CULHWCH AC OLWEN AR FLAEN Y LLWYFAN GYDA'I  
GILYDD. Y MAE GAN OLWEN BENLLIAIN GWYN AM EI PHEN.]

CÂN CULHWCH AC OLWEN

OLWEN  
Penlliain gwyn, penlliain gwyn  
Ar gyfer fy mhriodas,  
Penlliain gwyn, penlliain gwyn  
Ar gyfer fy mhriodas!

CULHWCH  
Y morgrug bach 'wnaeth hyn, fy mun,  
Fel diolch am gymwynas;  
A dyna'r dasg, y gyntaf un,  
A wnaed er mwyn dy briodas.

OLWEN  
Mae'r antur fawr yn awr ar droed  
I'm hennill drwy briodas;  
Mae'r antur fawr yn awr ar droed  
I'm hennill i'n gyfaddas.

CULHWCH  
Mae tasgau eraill yn ddi-oed  
I'w gwneud, a'u gwneud yn addas;  
Ond 'nawr mae'r antur fawr ar droed  
I d'ennill di drwy briodas.

OLWEN  
O doed y dydd pan fydda'-i'n rhydd  
Ar ddedwydd ddydd priodas!  
O doed y dydd pan fydda'-i'n rhydd  
Ar ddedwydd ddydd priodas!

CULHWCH AC OLWEN  
O doed y dydd, a ninnau'n rhydd  
Ar lawen ddydd priodas!  
O doed y dydd, a ninnau'n rhydd  
Yn ngwir lawenydd priodas!

[FEL Y LLEFARA YSBADDADEN Y GEIRIAU CANLYNOL Y MAE CULHWCH AC OLWEN YN GRADDOL WAHANU HYD AT DRAEAN LLED Y LLWYFAN O'R OCHRAU.]

YSBADDADEN

Mae eich cân yn rhy gynnar:

Mae peryglon mawr a galar

I dy gymar bach di, Olwen,

Cyn unrhyw ddydd priodas.

[CHWERTHIN EGR]

[Y DDAU GARIAD YN CODI LLAW AR EI GILYDD GAN AWGRYMU EU FFYDD. LLEN.]

## ACT 2

### GOLYGFA 2

[GOLEUO BLAEN Y LLWYFAN. YNO Y MAE'R BRENIN ARTHUR GYDA CHULHWCH, BEDWYR, CYNDDILIG, A GWRHYR.]

ARTHUR

Y mae dod o hyd i Fabon, i helpu hela'r Twrch Trwyth yn mynd i fod yn anodd iawn.

BEDWYR

Ydi wir, anodd iawn, achos fe'i cipiwyd o oddi ar ei fam pan oedd o'n dair nos oed, a hynny flynyddoedd maith yn ôl.

CYNDDILIG

Ydi o'n fyw? Efallai ei fod o wedi marw.

CULHWCH

Ond hebdo fo fe fydd hi'n amhosib inni hela'r Twrch Trwyth.

GWRHYR

Mae gen i syniad. Yma ac acw y mae yna anifeiliaid hen, hen. Os oes rhywun yn y byd yma sy'n gwybod am Fabon, yr anifeiliaid hen yma ydi'r rheini. Fe allwn ni eu holi nhw.

ARTHUR

Wyddost ti ple maen' nhw?

GWRHYR

Gwn. Y mae yna un, sef Mwyalch hen iawn, yng Nghilgwri.

ARTHUR

Fedri di dywys y marchogion yno, Cynddiligr?

CYNDDILIG

Fydd hynny ddim yn drafferth. Mae Cilgwri heb fod ymhell o'r Afon Merswy.

ARTHUR

Dyna'r lle ichi fynd.

[TYWYLLU. LLIFOLAU AR Y STORÏWR AR UN OCHR I'R LLWYFAN.]

STORÏWR

Ac felly dyma Culhwch a'r Marchogion yn cychwyn ar eu taith o lys y Brenin Arthur yng Nghelli Wig yng Nghernyw am Gilgwri, ddim ymhell or Ferswy.

[GOLEUO'R LLWYFAN I DDANGOS COEDWIG DDEILIOG AR DDIWRNOD BRAF. Y MAE MWYALCHEN YN TELORI, OND NID YDYM YN EI GWELD. DAW CULHWCH A'R MARCHOGION I MEWN UN OCHR I'R LLWYFAN.]

CYNDILIG

Dyma'r lle, dyma Gilgwri.

BEDWYR

Ac mi glywa i'r Fwyalchen. Rŵan 'te, Gwrhwr, galwa arni.

GWRHYR

Fwyalch Cilgwri, Fwyalch Cilgwri,  
a gawn ni air bach gyda thi?

[CANU'R FWYALCHEN YN STOPIO. SAIB.

MWYLACHEN CILGWRI, SEF MERCH, WEDI EI GWISGO FEL MWYALCHEN, YN  
DOD ALLAN O OCHR Y LLWYFAN, FEL PE BAI'N DOD O'R GOEDWIG. ACEN  
SGOWS SYDD GANDDI.]

MWYLACHEN

Pwy sy'n galw?

GWRHYR

Rhai o farchogion y Brenin Arthur.

MWYALCHEN

Y Brenin Arthur?

GWRHYR

Ie, y Brenin Arthur. Mae o wedi ein hanfon ni i chwilio amdanat ti.

MWYLACHEN

O ... dymunol iawn. Eisiao fy nghlywed i'n canu y mae o mae'n debyg?

GWRHYR

Wel . . .

MWYALCHEN

Mi gana i un o 'nghaneuon ichi.

[Y MARCHOGION YN EDRYCH AR EI GILYDD. Y FWYALCHEN YN EI GOSOD EI  
HUN FEL CANTORES OPERATIG.]

MWYALCHEN [CÂN]

Y fi ydi Mwyalch Cilgwri  
Sy'n canu'n fan hyn er cyn co';  
Mae olion pob math o fodoli  
Yn dalpiau ar hyd yr hen fro.

CYTGAN

Ond rydw i yma yn canu fy nghân  
Fel yn yr hen oesoedd, a 'nghalon ar dân,  
Ac yma y bydda'-i am oesoedd i ddod  
Nes coda'-i fy mhensiwn am bara i fod.

[Y MARCHOGION YN CURO DWYLO]

CYNDDILIG

Da iawn wir, godidog . . .

MWYLACHEN

Heb orffen eto . . .

Y fi ydi Mwyalch Cilgwri  
A welodd hen efail y gof,  
Does yma ddim olion pedoli;  
Aeth pob math o bethau dros gof.

STOP

Rŵan ymunwch â mi yn y Cytgan.

[MWYALCH A'R MARCHOGION YN CANU]

Ond rydw i yma yn canu fy nghân  
Fel yn yr hen oesoedd, a 'nghalon ar dân,  
Ac yma y bydda'-i am oesoedd i ddod  
Nes coda'-i fy mhensiwn am bara i fod.

[Y MARCHOGION YN CURO DWYLO ETO]

CULHWCH

Ardderchog iawn yn wir.

MWYLACHEN

Rwy'n gweld eich bod chi'n gallu gwerthfawrogi cerddoriaeth a'r gelfyddyd o ganu'n bêr.  
Rŵan, be ga'-i ei wneud ichi?

CULHWCH [CÂN]

Chwilio am Fabon yr ydym ni,  
Mabon fab Modron,  
Mabon fab Modron  
A gipiwyd, a gipiwyd odd'ar ei fam  
Pan oedd o yn fach, yn fychan fach  
Pan oedd o yn fychan, yn fabi  
Tair nos oed, tair nos oed.  
Chwilio am Fabon yr ydym ni,  
Mabon fab Modron,  
Mabon fab Modron.

BEDWYR

Digwyddodd hyn ymhell, ymhell yn ôl  
yn nhwllwch y gorffennol.

MWYALCHEN

Fel y dwedais i ar fy nghân,  
y gân roeddech chi yn ei hoffi,  
rydw i yma ers tro byd.  
Roedd yma unwaith efail gof,  
a chan hwnnw roedd 'na engan haearn –  
fel nacw.

[Y MAE ENGAN AR OCHR Y LLWYFAN]

Bob nos fe fyddwn i  
yn sychu 'mhig yn honno –  
fel hyn –

[DANGOS I'R MARCHOGION SUT Y GWNÂI]

a rŵan does 'na ddim ar ôl,  
dim cneuen fach ohoni.

[CYNDDILIG YN CODI CNEUEN FACH O HAEARN AC YN EI DDANGOS I'R  
LLEILL]

CYNDDILIG  
Dim ond hyn!

[MARCHOGION YN RHYFEDDU]

CULHWCH  
Yr haearn wedi gwisgo?

MWYALCHEN  
Gwisgo gan fy mhig.  
Er hyn ni chlywais i erioed,  
tra bŵm i yma yn y coed  
'run ebwch bach am Fabon.

CYNDDILIG  
Dyna ni, mae hi ar ben arnom  
i gael hyd i Fabon.

MWYALCHEN  
Hanner eiliad, gyfaill ifanc.  
Fe wn i am aderyn hŷn na mi  
sy'n byw draw yng Nghwm Cawlwyd,  
sef Tylluan Cwm Cawlwyd.  
Pam nad ewch chi  
i gyd ati hi  
i'w holi am Fabon fab Modron.

GWRHYR

Diolch yn fawr iawn, o Fwyalchen.

Fe awn ni . . .

MWYALCHEN

Hoffech chi imi ganu

cân fach arall ichi

cyn ichi fynd . . .

CYNDDILIG

Diolch o galon am y cynnig caredig

ond, yn anffodus i ni,

mae'n rhaid inni fynd.

MWYALCHEN

O biti; biti garw.

BEDWYR

Ond gobeithio y gwelwn i di ym mhriodas Culhwch.

MWYALCHEN

O! Yn llys y Brenin Arthur?

BEDWYR

Wrth gwrs.

MWYALCHEN

O wel, felly, 'ffwrdd â chi,

a phob hwyl ar y daith.

MARCHOGION

Diolch, diolch iti. Ffarwél, Fwyalchen hoff.

[EXIT Y MARCHOGION I UN OCHR I'R LLWYFAN. Y FWYALCHEN AR EI PHEN EI HUN AR Y LLWYFAN.]

MWYALCHEN

O, dyna imi farchogion clên,

clên iawn, yn wir;

a rhai a chanddyn nhw glustiau

i werthfawrogi gwir hyfrydwch canu da ...

Hwyrach y gofynnan nhw imi ganu yn y briodas.

Hmmmm.

[EI GOSOD EI HUN MEWN YSTUM OPERATIG. CANU.]

Ond rydw i yma yn canu fy nghân

Fel yn yr hen oesoedd, a 'nghalon ar dân,

Ac yma y bydda'-i am oesoedd i ddod

Nes coda'-i fy mhensiwn am bara i fod.



[TYWYLLU'R LLWYFAN, A DISTEWI'R GÂN YN RADDOL.]

## ACT 2

### GOLYGFA 3

[GOLEUO'R LLWYFAN I DDANGOS COEDWIG DDEILIOG AR DDIWRNOD BRAF. AR GANOL Y LLWYFAN Y MAE TYLLUAN WEN. MERCH WEDI EI GWISGO FEL TYLLUAN YDYW: FEL Y GWELIR BYDD GOFYN IDDI SIARAD AG ACEN DDEHEUOL. CEIR GANDDI AMBELL 'TW-HŴ'. YNA Y MAE'N CANU EI CHÂN.]

TYLLUAN CWM CAWLWYD [CÂN]

Tw-whit-tw-hŵ, tw-whit-tw-hŵ,  
Rwy i, rwy i yn gw dihŵ;  
Hŵ fan hyn, a hŵ fan draw,  
Tw-whit-tw-hŵ, tw-whit-tw-hŵ,  
Beth bynnag ddaw, beth bynnag ddaw  
Gw di-hŵ 'dw i.

[DAW CULHWCH A'R MARCHOGION I MEWN O UN OCHR I'R LLWYFAN.]

CYNDDILIG

Dyma'r lle, dyma Gwm Cawlwyd.

BEDWYR

Roedd ffordd go bell o Gilgwri i lawr i'r de yma.  
Ond, os nad ydw i'n camgymryd, dyma hi, dyma Dylluan Cwm Cawlwyd. Rŵan 'te, Gwrhwr,  
galwa arni.

GWRHYR

Dylluan Cwm Cawlwyd,  
a gawn ni air bach gyda thi?

[MAE'R DYLLUAN YN DAL I EDRYCH YN EI BLAEN, HEB GYMRYD DIM SYLW OHONYNT. SAIB.]

GWRHYR [GAN SYMUD YN NES AT Y DYLLUAN.]

Dylluan Cwm Cawlwyd,  
a gawn ni air bach gyda thi?

TYLLUAN

Be wetsoch chi?  
Pwy ŷch chi?  
O ble chi 'di dod?

GWRHYR

Marchogion y Brenin Arthur ydym ni.

TYLLUAN

'Smo i'n ei nabod e'. Pwy wetsoch chi?

GWRHYR [YN GWEIDDI]

Y Brenin Arthur.

TYLLUAN

Tewch gweud.

A chi yw'r Brenin Arthur?

Wel pwy se'n meddwl yntefe.

Be chi'n ei wneud yma?

BEDWYR [YN GWEIDDI]

Nid fo ydi'r Brenin Arthur, MARCHOGION y Brenin Arthur ydym ni.

TYLLUAN

Marchogion, wel pam se'ch chi'n gweud 'te.

Ma'r dyn hyn yn dwpsyn 'sech chi'n gofyn i fi,

pa ishie odd iddo fe weud ma fe odd y Brenin Arthur!

Dyw e ddim byd tebyg iddo fe.

Be chi'n moyn?

CULHWCH [CÂN]

Chwilio am Fabon yr ydym ni,

Mabon fab Modron,

Mabon fab Modron

A gipiwyd, a gipiwyd odd'ar ei fam

Pan oedd o yn fach, yn fychan fach

Pan oedd o yn fychan, yn fabi

Tair nos oed, tair nos oed.

Chwilio am Fabon yr ydym ni,

Mabon fab Modron,

Mabon fab Modron.

BEDWYR

Digwyddodd hyn ymhell, ymhell yn ôl

yn nhwllwch y gorffennol

GWRHYR

Rydym ni'n chwilio am MABON.

TYLLUAN

Mae digonedd ohonyn nhw ffordd hyn 'chi; llawn o bysgod.

GWRHYR

Pysgod?

TYLLUAN

'Smo i'n unan yn rhy ffond o bysgod ontefe, ond ma afonydd y lle hyn yn lle da i'r rheini sy'n eu 'offi.

GWRHYR

Nid AFON, nid chwilio am AFON yr ydym ni, ond am MABON.

TYLLUAN

O! Pwy yw e te?

CYNDDILIG

Mab MODRON!

TYLLUAN

[SAIB] Hyfryd i rai pobol ontefe – MORON. Ond smo da fi fawr i weud wrthyn nhw chwaith: gewch chi gatw'ch pysgod a'ch moron. Mae'n well da fi lygoten fach flasus. Nawr, se chi'n chwilio am lygot sen i'n gymorth mowr ichi – er, cofiwch chi, smo llygot yr hyn oen nhw slawer dydd. Nawr te – rhoswch chi – ie, ie **beter** canrif yn ôl, 'na chi amser da am lygot oedd e. Sglaffe mowr, brau. 'Na ichi ddyddie odd y rheini. Smo . . .

CYNDDILIG [YN GWEIDDI]

MAM, MAM MABON OEDD MODRON. CHWILIO AM MABON YR YDYM NI.

TYLLUAN

Mabon mam Modron.

GWRHYR [GWEIDDI]

MABON, FAB, MODRON. O nefi!

CULHWCH

Gad i mi roi cynnig arni.

[GWEIDDI'N UCHEL AC YN BWYLLOG]

NA, NA, NA. MABON OEDD YN FAB I MODRON.

TYLLUAN

Tewch gweud! Ma 'na'n newyddion i mi.

CYNDDILIG

Mae hi'n edrych fel tae hi'n dy ddeall di.

CULHWCH

[GWEIDDI A SIARAD YN BWYLLOG A CHYSACT]

NID YDYCH CHWI YN GWYBOD AM FABON FELLY?

TYLLUAN

S'dim eishie gweiddi. Nagw i, nagw i.

BEDWYR

Dyna ni, mae hi ar ben  
arnom i gael hyd i Fabon.

TYLLUAN

Ond 'falle, ontefe,

fod yr hen gyfell – fy hen, hen gyfell –  
Eryr Gwernabwy'n gwpod rhywbeth am y dyn 'yn.

CYNDDILIG

O! Diolch. Diolch o galon am fod mor garedig.

[Y MARCHOGION YN MYND. Y DYLLUAN AR EI PHEN EI HUN AR Y LLWYFAN]

TYLLUAN CWM CAWLWYD [CÂN]

Tw-whit-tw-hw, tw-whit-tw-hw,

Rwy i, rwy i yn gw dihw;

Hw fan hyn, a hw fan draw,

Tw-whit-tw-hw, tw-whit-tw-hw,

Beth bynnag ddaw, beth bynnag ddaw

Gw di-hw 'dw i.

LLEN.

## ACT 2

### GOLYGFA 4

[YR UN OLYGFA GOEDIOG AR DDIWRNOD BRAF AG YNG NGOLYGFA 1 A 2 YR ACT HON, OND BOD YNA GARREG WEDDOL EI MAINT YN HON. AR BEN Y GARREG Y MAE ERYR GWERNABWY.

GŴR YW'R ERYR; Y MAE'N GWISGO CAP PIG SWYDDOG YN Y LLU AWYR. Y MAE GOFYN IDDO GEISIO RHOI ARGRAFF O LEFARU CALED, MILITARAIDD, STACCATO: RHOI ARGRAFF O LEFARU SWYDDOG GO UCHEL YN Y LLU AWYR SYDD EISIAU.

Y MAE'R ERYR YN EDRYCH DROS EI DIRIOGAETH.

DYNESA MARCHOGION ARTHUR O UN OCHR I'R LLWYFAN. Y MAE'R ERYR YN EU GWELD Y MUNUD Y MAENT YN DOD I'R GOLWG, Y MAE'N GWYRO YMLAEN, YNA'N SYTHU. ATGYNHYRCHU CRI ERYR.]

ERYR

Dim cam yn nes, *chaps*, nes ichi ddweud pwy ydych chi.

GWRHYR

Marchogion y Brenin Arthur ydym ni.

ERYR

Nabod o'n iawn. Fine *chap*. Pam dod yma?

CULHWCH [CÂN]

Chwilio am Fabon yr ydym ni,

Mabon fab Modron,

Mabon fab Modron

A gipiwyd, a gipiwyd odd'ar ei fam

Pan oedd o yn fach, yn fychan fach

Pan oedd o yn fychan, yn fabi

Tair nos oed, tair nos oed.

Chwilio am Fabon yr ydym ni,

Mabon fab Modron,

Mabon fab Modron.

ERYR

Mabon fab Modron. Sorri *chaps*, gwybod dim amdano fo.

Wedi bod yma'n hir iawn hefyd.

Carreg fawr, enfawr, yma i ddechrau.

Bob nos, pigo'r sêr o'i phen hi.

Nawr, dim ond hyn

[DYNODI'R GRAIG Y MAE'N SEFYLL ARNI TRWY OSGO EI BEN]

ar ôl ohoni.

Ond er mor hir y bûm i yma, chlywais i ddim gair am Mabon.

Dim oll.

## CYNDDILIG

Dyna ni, mae hi ar ben  
arnom i gael hyd i Fabon.  
Dyma' r anifail hynaf un,  
yr hynaf yn y byd i gyd yn fflat –  
does yna neb arall y gallwn ni ei holi.

## ERYR

Rhoswch funud, *chaps*.

Dair blynedd yn ôl, Medi'r ail, roeddwn i'n hedfan tua'r gogledd-orllewin uwchben Llyn Lliw.  
Am saith gan awr mi welais i Eog, tua deugain medr o faint, yn nofio yn y dŵr, i gyfeiriad y  
gogledd, ar gyflymdra cymedrol. Cyflewnad o fwyd am saith wythnos i'r sgwadron. I lawr â  
fi – cofio'n iawn:

## ERYR [CÂN]

Crafangau yn yr Eog mawr  
A nofiai yn Llyn Lliw,  
Crafangau yn yr Eog mawr  
A nofiai yn Llyn Lliw.  
Ond ow a gwae, a gwae ac ow!  
Crafangau yn yr Eog mawr  
A hwnnw'n tynnu i lawr, i lawr,  
I lawr i ddyfroedd mawr Llyn Lliw.

Gollyngais i yr Eog mawr  
A nofiai yn Llyn Lliw,  
Gollyngais i yr Eog mawr  
A nofiai yn Llyn Lliw.  
Ac ow a gwae, a gwae ac ow!  
Gollyngais i yr Eog mawr  
A chodi fry, i fyny fry  
O ddyfroedd mawr Llyn Lliw.

Ac felly y dihengais i  
O ddyfnder du Llyn Lliw  
Ar ôl cyfarfod, welwch chi,  
Ag Eog mawr Llyn Lliw.

## [DIWEDD EI GÂN.]

Dianc. Cynllunio i ddial. Galwad i'r sgwadron. Ffurio i ymosod ar yr Eog o dri chyfeiriad.  
Fo'n anfon negeswyr. Eisio telerau heddwch. Trafod efo'r sgwadron. Cytuno. Eog Llyn Lliw  
a minnau wedyn – cyfeillion.

## CULHWCH

Ydi Eog Llyn Lliw yn hen iawn?

## ERYR

Eog Llyn Lliw ydi'r creadur hyna un yn y byd.  
Efallai ei fod o'n gwybod am Fabon.

Dilynwch fi.

[CODI ADLAIS O GÂN Y DAM-BUSTERS A THYWYLLU'R LLWYFAN.  
SGRECH ERYR YN Y TYWYLLWCH.]

## ACT 2

### GOLYGFA 5

[AWYR LAS. DŴR LLWYD, EFO LLINELLAU ARNO I DDYNODI TONNAU. SIÂP CEFN PYSGODYN MAWR IAWN, GYDA'I BEN ALLAN O'R DŴR. CAEL SŴN DŴR YN LLIFO, AR DÂP, YN GRYF I DDECHRAU, YNA'N PYLU FEL NAD YW'N AMHARU AR Y SIARAD.

CODI ADLAIS O GÂN Y DAM-BUSTERS. SŴN AWYREN YN GLANIO. DISTEWI. YR ERYR YN HOPIAN I MEWN, A MARCHOGION ARTHUR O'I ÔL O UN OCHR I'R LLWYFAN.]

ERYR

Eog Llyn Lliw, yr hen gyfaill.

EOG

[LLAIS Â GARGL ACHLYSUROL YNDDO.]

Sut wyt ti ers cantoedd, comander?

ERYR

Ffein, ffein; erioed yn well.

EOG

Mae'n dda gen i glywed hynny.

ERYR

Y rhain – rhai o Farchogion y Brenin Arthur, neb llai. Eisio gair, 'rhen gyfaill. Sorri 'te, methu aros. Busnes pwysig iawn yn galw.

EOG

Hen dro, ond fel'na y mae hi, ynte. Hwyl fawr, comander.

ERYR

Cheerio, chaps.

EOG

Hwyl. Hwyl fawr, comander.

[YR ERYR YN HOPIAN YMAITH AC ODDI AR Y LLWYFAN, OCHR WAHANOL I'R UN Y DAETH I MEWN.]

GWRHYR

Marchogion y Brenin Arthur ydym ni.

EOG

Dda gen i'ch gweld chi. Pam dod yma?

CULHWCH [CÂN]

Chwilio am Fabon yr ydym ni,



Mabon fab Modron,  
Mabon fab Modron  
A gipiwyd, a gipiwyd odd'ar ei fam  
Pan oedd o yn fach, yn fychan fach  
Pan oedd o yn fychan, yn fabi  
Tair nos oed, tair nos oed.  
Chwilio am Fabon yr ydym ni,  
Mabon fab Modron,  
Mabon fab Modron.

EOG

'Alla i ddim dweud 'mod i'n ei nabod o.

CYNDDILIG

Dyna ni, mae hi ar ben arnom i gael hyd i Fabon.  
Dyma' r anifail hynaf un,  
yr hynaf yn y byd i gyd yn fflat –  
'does yna neb arall y gallwn ni ei holi.

EOG

Sefwch funud, gyfeillion bach.  
Bob hyn-a-hyn mi fydda i  
yn nofio'n groes i li  
afon fawr sy'n mynd o'r llyn  
i fyny at Gaerloyw.  
Ac yno, wrth y muriau mawr,  
y mae carcharor,  
a hwnnw yn ochneidio,  
digon i ddychryn pysgodyn.  
Ac mae o'n gweiddi 'Modron', 'Modron'.

GWRHYR

Galw am Fodron?

BEDWYR

Fe all mai hwn ydi Mabon.

EOG

Y mae 'na ffordd i weld ai fo  
yn wir ydi Mabon fab Modron.  
Dringwch ar fysgwyddau i  
a daliwch chi, daliwch yn dynn.

[Y MARCHOGION I FYND ALLAN UN OCHR I'R LLWYFAN AC YMDDANGOS FEL  
PE BAEN NHW AR GEFN YR EOG]

EOG

Pawb yn barod?

MARCHOGION

Barod.

[SŴN LLIFEIRIANT CRYF O DDŴR. Y MARCHOGION FEL PE BAENT AR GWCH  
MEWN MÔR TYMHESTLOG. PYLU'R SŴN DŴR TRA PERY CÂN Y CÔR.  
TRA PERY'R GÂN, CREU ARGRAFF O SYMUD YN SYDYN TRWY DDŴR TRWY  
GAEL GOLEUADAU A LLIWIAU'N TROI AR DRAWS Y LLWYFAN A'R  
AWDITORIWM.]

CÔR [CÂN]

Whish a whish a sblasio!

Dŵr yn llifeirio, dŵr yn llifeirio.

Whish a whish a sblasio,

Dŵr yn llifo, llifo heibio.

Whish a whish a sblasio,

Cerrynt cryf yn curo, curo.

Whish a whish a sblasio!

Dŵr yn ysgeintio, dŵr yn ysgeintio.

Whish a whish a sblasio,

Dŵr yn swisio, swisio heibio.

Whish a whish a sblasio,

Cerrynt cryf yn ffrydio, ffrydio.

Whish a whish a sblasio!

Dŵr yn datseinio, dŵr yn datseinio.

Whish a whish a sblasio,

Dŵr yn fflachio, fflachio heibio.

Whish a whish a sblasio,

Cerrynt cryf yn waldio, waldio.

WHISHHHHHHHHHHHHHHHHHHHHH

[Y MAE'R 'WHISH' OLAF HWN YN UN HIR. Y MAE'N DECHRAU'N GRYF IAWN,  
IAWN AC YN GRADDOL DAWELU YN DDIM.]

[SŴN OCHNEIDIO DYCHRYNLLYD A THRUENUS]

CULHWCH

Pwy sy 'na,

pwy sy 'na,

pwy sy 'na yn cwyno?

[LLAIS O'R TU ÔL I GEFNLENNI Y LLWYFAN, SEF LLAIS MABON.]

MABON

Un y mae ganddo fo le i gwyno.

CULHWCH

Pwy wyt ti, pwy wyt ti?

MABON [CÂN, cf. CÂN CULHWCH]

Mabon wyf fi, fab Modron,  
Mabon fab Modron,  
Mabon fab Modron  
A gipiwyd, a gipiwyd odd'ar ei fam  
Pan o'n i yn fach, yn fychan fach  
Pan o'n i yn fychan, yn fabi  
Tair nos oed, tair nos oed.  
Fi ydi Mabon fab Modron.

GWRHYR

A oes modd inni dy gael di'n rhydd am arian neu am aur?

MABON

Dim peryg yn 'byd.  
Dim ond wrth ymladd y ceir fi yn rhydd.

BEDWYR

Felly ymladd amdani!

[YMA PYLU'R GOLAU YN ARAF WRTH I'R STORÏWR DDWEUD Y GEIRIAU A GANLYN:]

STORÏWR:

Ac ymladd fu hi.  
Aeth y marchogion i nôl Arthur a'i lu, a bu brwydr enbyd.

[SŴN ERCHYLL BRWYDRO AM YCHYDIG. YNA CODI'R GOLAU AC ARTHUR A'R MARCHOGION YN DOD Â GŴR IFANC TRUENUS A CHARPIOG EI GYFLWR GYDA HWY I FLAEN Y LLWYFAN.]

Ond fe ryddhaodd y Brenin Arthur a'i farchogion Mabon fab Modron.

[CERDDORIAETH O ORFOLEDD. GRADDOL BYLU'R GOLAU.  
YNA CODI'R GOLAU'N ARAF. MAN GWLEDIG, COEDIOG AR DERFYN DYDD. Y MAE OLWEN A CHULHWCH GYDA'I GILYDD.]

CULHWCH

Olwen, Olwen,  
yr ydym ni yn awr  
yn barod i fynd i hela y Twrch.

OLWEN

Y Twrch Trwyth?

CULHWCH

Y Twrch hwnnw.

CÂN CULHWCH AC OLWEN

OLWEN

Ar antur mor enbyd, mae'r peryg yn fawr;  
Mae peryg i minnau dy golli di'n awr.  
Y Twrch Trwyth a fynna dy ladd di, mi wn:  
O paid ti â mentro i beryg fel hwn.

CULHWCH

Mi fentra'-i fy mywyd yn llawen, rwyf fi  
Yn gwybod na alla'-i byth fyw hebot ti;  
Ti ydi fy nghariad, ti ydi fy myd,  
Mi fentra i drosot tan ddiwedd y byd.

OLWEN

Daioni a'th gadwo mewn brwydrau i ddod;  
Nid bywyd fydd bywyd, a thi ddim yn bod:  
Tyrd ata i'n fuan, yn ôl ataf fi –  
Y nefoedd a weno yn deg arnat ti.

[Y MAE CULHWCH AC OLWEN YN GRADDOL WAHANU RAI LLATHENNI WRTH  
I YSBADDADEN LEFARU EI EIRIAU]

YSBADDADEN

Y Twrch Trwyth yw diwedd eich gobeithion,  
Fe rwyga hwn bob un yn yfflon.

[CULHWCH AC OLWEN YN CODI LLAW YN EITHAF FFYDDIOG. AILGODI  
CERDDORIAETH EU CÂN HWY.  
Y GOLAU'N PYLU'N ARAF. LLEN.]

## ACT 2

### GOLYGFA 6

[LLIFOLAU AR Y STORIŴR AR UN OCHR I'R LLWYFAN]

#### STORIŴR

Erbyn hyn yr oedd y Brenin Arthur  
a'i lu o Farchogion dewr  
yn barod i fynd i chwilio am  
y grib, y siswrn, a'r rasal  
a oedd rhwng dwy glust y baedd,  
Twrch Trwyth,  
a oedd yn crwydro'r wlad gyda'i dylwyth gwyllt o foch.

[TYWYLLWCH SYDYN FEL Y MAE'R GEIRIAU'N GORFFEN. SAIB O  
DDISTAWRWYDD, YNA CODI SŴN DYCHRYNLLYD MOCHYN YN RHOCHIAN A  
GWICHIAN.

YNA GOLEUO AR OLYGFA WLEDIG, AC AR GANOL Y LLWYFAN UN – GO FAWR,  
OS YN BOSIB – WEDI EI WISGO FEL BAEDD. RHWNG EI GLUSTIAU Y MAE CRIB  
A RASAL A SISWRN. RHAID BOD GANDDO WYNEB BAEDD, WYNEB SY'N PERI  
DYCHRYN. O'I ÔL Y MAE PUMP MOCHYN ENBYD ARALL.]

#### TWRCH TRWYTH [CÂN]

[YN WYNEBU'R GYNULLEIDFA AC YN YSGYRNYGU]

Y fi, ichi wybod,  
Y fi 'di'r Twrch Trwyth,  
Y fi, ichi wybod,  
Ydi'r dyn, am ei bechod  
A newidiodd Duw yn fochyn.

Mochyn, mochyn ydw i;  
Â 'nannedd llym fe'ch rhwyga'-i chi,  
Eich rhwygo chi,  
Eich rhwygo chi.  
Soch soch soch,  
Soch soch soch,  
Mochyn, mochyn ydw i;  
Â 'nannedd llym fe'ch rhwyga'-i chi,  
Eich rhwygo chi,  
Eich rhwygo chi,  
Eich rhwygo chi  
A'ch lladd.

[DAWNS FYGYTHIOL Y MOCH. STOPIO. CANU EU CÂN, GAN FYND YN ÔL AC  
YMLAEN AR Y LLWYFAN A WYNEBU'R GYNULLEIDFA AR EU GEIRIAU OLAF.]

CYTGAN Y PERCHYLL

Ni ydi moch,  
Ni ydi perchyll,  
Ni ydi teulu'r mochyn erchyll,  
Y Twrch Trwyth,  
Y Twrch Trwyth.  
Soch soch soch,  
Soch soch soch  
Moch ydym ni,  
Moch ydym ni;  
Â'n ddannedd llym fe'ch rhwygwn chi,  
Eich rhwygo chi,  
Eich rhwygo chi,  
Eich rhwygo chi  
A'ch lladd.

Y TWRCH TRWYTH [CÂN]

Y fi, ichi wybod,  
Y fi 'di'r Twrch Trwyth,  
Y fi, ichi wybod,  
Gen i, ichi wybod,  
Gen i y mae tlysau  
Gwerthfawr odiaeth rhwng fy nghlustiau.

Mochyn, mochyn ydw i;  
Â'n nannedd llym fe'ch rhwyga'-i chi,  
Eich rhwygo chi,  
Eich rhwygo chi.  
Soch soch soch,  
Soch soch soch,  
Mochyn, mochyn ydw i;  
Â'n nannedd llym fe'ch rhwyga'-i chi,  
Eich rhwygo chi,  
Eich rhwygo chi,  
Eich rhwygo chi  
A'ch lladd.

[DAWNS FYGYTHIOL Y MOCH. STOPIO. CANU EU CÂN, GAN FYND YN ÔL AC YMLAEN AR Y LLWYFAN A WYNEBU'R GYNULLEIDFA AR EU GEIRIAU OLAF.]

CYTGAN Y PERCHYLL.

Ni ydi moch,  
Ni ydi perchyll,  
Ni ydi teulu'r mochyn erchyll,  
Y Twrch Trwyth,  
Y Twrch Trwyth.  
Soch soch soch,  
Soch soch soch  
Moch ydym ni,  
Moch ydym ni;

Â'n ddannedd llym fe'ch rhwygwn chi,  
Eich rhwygo chi,  
Eich rhwygo chi,  
Eich rhwygo chi  
A'ch lladd.

#### Y TWRCH TRWYTH [CÂN]

Y fi, ichi wybod,  
Y fi 'di'r Twrch Trwyth,  
Chaiff neb, ichi wybod,  
Chaiff 'na neb yn y byd 'ma  
Un o'r tlysau rhwng fy nghlustiau.

Mochyn, mochyn ydw i;  
Â 'nannedd llym fe'ch rhwyga'-i chi,  
Eich rhwygo chi,  
Eich rhwygo chi.  
Soch soch soch,  
Soch soch soch,  
Mochyn, mochyn ydw i;  
Â 'nannedd llym fe'ch rhwyga'-i chi,  
Eich rhwygo chi,  
Eich rhwygo chi,  
Eich rhwygo chi  
A'ch lladd.

[DAWNS FYGYTHIOL Y MOCH. STOPIO. CANU EU CÂN, GAN FYND YN ÔL AC YMLAEN AR Y LLWYFAN A WYNEBU'R GYNULLEIDFA AR EU GEIRIAU OLAF.]

#### CYTGAN Y PERCHYLL

Ni ydi moch,  
Ni ydi perchyll,  
Ni ydi teulu'r mochyn erchyll,  
Y Twrch Trwyth,  
Y Twrch Trwyth.  
Soch soch soch,  
Soch soch soch  
Moch ydym ni,  
Moch ydym ni;  
Â'n ddannedd llym fe'ch rhwygwn chi,  
Eich rhwygo chi,  
Eich rhwygo chi,  
Eich rhwygo chi  
A'ch lladd.

[BYDDAI CAEL GOLAU COCH YN DIFERU I LAWR AR Y LLWYFAN YN DRA EFFEITHIOL YMA.

CERDDORIAETH FILWROL I AWGRYMU BYDDIN. Y MAE'R TWRCH TRWYTH A'I FOCH YN CILIO I UN OCHR I'R LLWYFAN. DAW'R BRENIN ARTHUR A'I

FARCHOGION, A CHULHWCH EI HUN I'R LLWYFAN O'R OCHR ARALL. MAE'R DDWY GARFAN YN WYNEBU EI GILYDD.]

ARTHUR

Dwrch Trwyth, mi wn i y gelli di fy neall i;  
yr oeddet ti unwaith yn ddyn fel fi,  
yn frenin yn wir,  
cyn iti gael dy newid yn dwrch am dy ddrygioni;  
Rhag inni orfod ymladd, a wnei di  
roi imi'r tlysau yna sydd rhwng dy glustiau di?

Y TWRCH TRWYTH

[RHOCHIAN AM EILIAD NEU DDWY]

Arthur Frenin, dyma ti  
yma'n erfyn arnaf fi  
i roi i ti y rasal,

y siswrn hwn a'r grib  
sy rhwng fy nwyglust i.

[RHOCHIAN ETO, A CHWERTHIN CHWERW]

Arthur fychan, fe gei di  
a'th filwyr ofnus, tila  
ymladd, ymladd gyda mi  
a 'nghenfaint ddewr, ddychrynlyd  
cyn cei di byth ddim byd gen i.

ARTHUR

Os felly y mae hi, fe gei di weld nad ydw i na'm milwyr  
ddim yn ofnus, nac yn dila.  
Bydd di a'th deulu'n awr yn barod  
i farw. I'r gad!

[CERDDORIAETH RYFELGAR I GYD-FYND Â'R DDAWNS SYDD I GYNRYCHIOLI RHYFELA. YN RADDOL, LLEDDIR Y MOCH O UN I UN. YN Y DIWEDD Y MAE ARTHUR EI HUN YN WYNEBU'R TWRCH. YMLADD – FEL YMLADD TEIRW – A'R BAEDD YN RHUTHRO AR ARTHUR AC YNTAU'N OSGOI A THROI I WYNEBU'R BAEDD ETO. YN Y DIWEDD Y MAE ARTHUR YN TRYWANU'R TWRCH YN EI WAR Â'I GLEDDYF. GWICHIAN ENBYD A MARW DRAMATIG. Y MAE ARTHUR YN CODI'R GRIB A'R SISWRN A'R RASAL.]

ARTHUR

Culhwch, dyma nhw, dyma iti'r grib a'r siswrn, a'r rasal.  
Rwân, dos di a'm marchogion i Gastell Ysbaddaden,  
torrwch wallt y cawr a'i eillio,  
a pherwch iddo drefnu priodas.

[CERDDORIAETH FUDDUGOLIAETHUS.

PYLU GOLAU. CULHWCH AC OLWEN GYDA'I GILYDD]

CÂN CULHWCH AC OLWEN



OLWEN

Mae'r antur fawr yn awr ar ben,  
Daw, fe ddaw, daw dedwydd ddydd,  
Daw dedwydd ddydd ein priodas!

CULHWCH

Bu Arthur a'i farchogion dewr,  
Do, yn llu, wrth f'ochor i,  
Yn gry' mewn anawsterau.

OLWEN

Mae'r tasgau mawr yn awr ar ben,  
Daw, fe ddaw, daw dedwydd ddydd,  
Daw dedwydd ddydd ein priodas.

CULHWCH

Mae anawsterau'n hymdrech fawr,  
Oll, yn awr, a'r gofid fu  
Ar ben i gyd, fy Olwen.

OLWEN

Mae'r galar 'fu yn awr ar ben,  
Daw, fe ddaw, daw dedwydd ddydd  
Caiff Culhwch briodi'i Olwen!

[Y MAE CULHWCH AC OLWEN YN AROS GYDA'I GILYDD YNG NGHANOL Y  
LLWYFAN, AC YN GWENU TRWY GYDOL Y GEIRIAU CANLYNOL GAN  
YBADDADEN.]

YSBADDADEN

Na chaiff, 'chaiff Culhwch byth,  
'Chaiff Culhwch byth,  
Tra bo chwyth yn Ysbaddaden,  
'Chaiff Culhwch byth briodi Olwen!

CULHWCH AC OLWEN

Mae'r felltith hen yn awr ar ben,  
Do, trechwyd Ysbaddaden,  
Gan gariad a llawenydd.

[CERDDORIAETH FUDDUGOLIAETHUS. LLEN.]

## ACT 2

### GOLYGFA 7

[LLIFOLAU AR Y STORIWR]

STORIWR

A dyma Culhwch a'r Marchogion hynny  
a fu gydag o'n ei helpu  
yn mynd unwaith eto i Gastell Ysbaddaden.

[Y LLWYFAN YN GOLEUO. PEN MAWR YSBADDADEN YN Y CEFN. O'R NAILL  
DU IDDO, HEB GUDDIO UNRHYW RAN OHONO Y MAE CULHWCH, BEDWYR,  
CYNDDILIG A GWRHYR. Y MAE LLYGAID YSBADDADEN YN LLIDIOG AC  
AGORED.]

CULHWCH

Ysbaddaden, henffych well!

YSBADDADEN

Be ydi hyn?

Sut y daethoch chi yma'n ôl?

Pam y daethoch chi'n eich ôl?

[SAIB]

Am roi'r gorau i'r hynt, mi wn!

BEDWYR

Nid felly Ysbaddaden.

YSBADDADEN

Doswch, chi ddynionach bach,  
o 'ngolwg i cyn imi godi a'ch malu chi.

BEDWYR

Nid felly, Ysbaddaden.

Weli di hon?

YSBADDADEN

Gwelaf.

BEDWYR

A be ydi hi?

YSBADDADEN

Mae hi'n debyg iawn i grib.

BEDWYR

Da iawn wir.

A wyddost ti o ble y daeth hi?

YSBADDADEN

Sut y mae disgwyl imi wybod, y twpsyn bach di-lun?

BEDWYR

Hon, wel di, ydi'r grib  
oedd rhwng dwy glust y mochyn hwnnw  
a elwid yn Twrch Trwyth.

YSBADDADEN

[RHU ENBYD]

CYNDDILIG

A, weli di be sy gen i, Ysbaddaden Bencawr?

YSBADDADEN

Be sy gen ti'r ffifflyn?

CYNDDILIG

Gen i mae siswrn.  
Wyddost ti, yr erfyn hwnnw sydd mor handi  
at dorri gwalltiau pob rhyw benci.  
A, wyddost ti o ble 'daeth hwn?

YSBADDADEN

Sut mae disgwyl imi  
wybod hynny.  
O ble y daeth o'r mwlsyn?

CYNDDILIG

Hwn, wel di, ydi'r siswrn  
oedd rhwng dwy glust y mochyn hwnnw  
a elwid yn Twrch Trwyth.

YSBADDADEN

[RHU ENBYD]

GWRHYR

Ysbaddaden Benci,  
a weli di be sy gen i?

YSBADDADEN

Mae'n debyg iawn i rasal.

GWRHYR

Da iawn wir. A be 'dym ni'n ei wneud  
efo rasal?

YSBADDADEN

Paid dweud,  
gad i mi ddyfalu:  
ei stwffio hi i fyny dy drwyn!

GWRHYR

'Sdim eisio gwylltio, cariad.  
A wyddost ti o ble daeth hon?

YSBADDADEN

[YN WATWARUS, GAN GREU LLAIS YSGAFN IAWN]

Hon, wel di, 'di'r rasal  
oedd rhwng dwy glust y mochyn hwnnw  
a elwid yn Twrch Trwyth.

BEDWYR

Pwy sy'n gawr bach clyfar!

CULHWCH

A rŵan, dadi, rydym ni  
yn mynd i dorri dy wallt di.

BEDWYR

Ac wedyn?

CULHWCH

Wedyn, A! wedyn rydym ni  
yn mynd i eillio'i locsyn.

[CULHWCH A'R MARCHOGION YN MYND O FLAEN PEN YSBADDADEN A  
CHOGIO BACH TORRI EI WALLT A'I EILLIO. MAE'R GEFNLEN GYDA PHEN  
YSBADDADEN ARNI'N CAEL EI GOLLWNG YN RADDOL FEL NAD OES DIM O'R  
PEN AR ÔL. GEIRIAU'R CAWR TRA BO HYN YN DIGWYDD.]

YSBADDADEN

Torrwyd o, torrwyd o,  
Torrwyd fy ngwallt.

Eilliwyd fi, eilliwyd fi,  
Eilliwyd fy marf.

Eiddo Culhwch nawr yw hi,  
Ei eiddo fo yw f'Olwen i.

Ac, yn awr, mae 'mywyd mawr,  
Mae 'mywyd mawr yn awr ar ben.

BEDWYR

A rŵan beth am briodas!  
[LLEN]

## ACT 2

### GOLYGFA 8

[CODI'R LLEN. CEFNLEN LOYW IAWN A LLIWGAR. LLWYFAN GWAG.]

CÔR YN CANU, AC FEL Y MAENT YN CANU, DAW GWAHANOL GANTORION A PHERFFORMWYR I'R LLWYFAN. MAE POPETH YN EITHRIADOL O LIWGAR.]

CÔR

O dyma loyw, lawen ddydd,  
O dyma ddydd priodas:  
Y dydd y bydd y marchog dewr,  
Culhwch sydd yn fab i Cilydd  
Yn priodi Olwen,  
Olwen deg, ferch Ysbaddaden.

O dyma loyw, lawen ddydd,  
O dyma ddydd priodas:  
Ac yma'n awr mae merch y cawr,  
Olwen merch i Ysbaddaden  
Yn priodi Culhwch  
Culhwch ddewr, sy'n fab i Cilydd.

[UNIGOLION A GRWPYAU'N DOD I'R LLWYFAN]

MORGRUG

Mae'r morgrug bach  
Yn hapus, iach  
Wrth weld y ddau yn priodi:  
Dymuniadau da i chi –  
A byddwch fyw yn deidi.

MWYALCHEN CILGWRI

Mi gana'-i 'nghân  
O'r cangau mân  
Wrth weld y ddau yn priodi;  
Dymuniadau da i chi –  
A byddwch fyw yn deidi.

TYLLUAN CWM CAWLWYD

Tw-whit, tw-hw̄,  
Wel dyma nhw  
Y ddau bach ddel yn priodi;  
Dymuniadau da i chwi –  
A byddwch fyw yn deidi.

ERYR GWERNABWY

Mae'n sgwadron i  
Yn rhoi'n ddi-ri  
Wrth weld chi'ch dau yn priodi  
Ddymuniadau da i chi –  
A byddwch fyw yn deidi.

[DAW OLWEN O UN OCHR I'R LLWYFAN, A CHULHWCH O'R OCHR ARALL A  
CHYFARFOD YN Y CANOL.]

CÂN CULHWCH AC OLWEN.

CULHWCH

O Olwen, O Olwen gymeri di fi  
Yn briod i ti yn dragywydd?

OLWEN

O Culhwch cymeraf,  
Cymeraf i di,  
Cymeraf i di  
Yn briod i mi,  
Yn briod i mi yn dragywydd.

CÔR

O dyma loyw, lawen ddydd,  
O dyma ddydd priodas:  
Y dydd y bydd y marchog dewr,  
Culhwch sydd yn fab i Cilydd  
Yn priodi Olwen,  
Olwen deg, ferch Ysbaddaden.

OLWEN

O Culhwch, O Culhwch gymeri di fi  
Yn briod i ti yn dragywydd?

CULHWCH

O Olwen cymeraf,  
Cymeraf i di,  
Cymeraf i di  
Yn briod i mi,  
Yn briod i mi yn dragywydd.

CÔR

O dyma loyw, lawen ddydd,  
O dyma ddydd priodas:  
Ac yma'n awr mae merch y cawr,  
Olwen merch i Ysbaddaden  
Yn priodi Culhwch  
Culhwch ddewr, sy'n fab i Cilydd.

[LLAWNDER O GERDDORIAETH LAWEN. HONNO'N ARAF BYLU, PEIDIO.]

STORÍWR

[O UN OCHR I'R LLWYFAN, GAN GYFEIRIO AT Y CANOL]

Ac fel hyn y daw'r stori i ben.

[FEL Y DYWEDIR 'BEN' TYWYLLWCH HOLLOL, SYDYN, SYDYN, AC ERGYD DRYMIAU. SAIB. YNA GRADDOL GODI'R GOLAU A'R PERFFORMWYR I GYD – HYD Y GELLIR EU CAEL NHW – AR Y LLWYFAN.]